Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 22/2023

Dyddiad Cyhoeddi: 09/03/2023

# Gwerthusiad o'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW):

## Adroddiad Interim

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-509-0

**Gwerthusiad o'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW): Adroddiad Interim**

Awduron:
Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3

Bryer, N; a Bebb, H; (2023). *Gwerthusiad o'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW) Adroddiad Interim* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 22/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-grant-galluogi-adnoddau-naturiol-llesiant-enraw-adroddiad-interim

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Hannah Browne Gott
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

**Ebost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru**

ISBN: 978-1-80535-509-0

© Hawlfraint y Goron 2023

# Cynnwys

Geirfa ........................................................................................................ 3
1. Cyflwyniad ........................................................................................................ 4
2. Methodoleg ........................................................................................................ 6
3. Rhesymeg polisi a rhesymeg strategol ar gyfer ENRaW ........................................ 11
4. Trosolwg o grant ENRaW ........................................................................................ 21
5. Nodau ac amcanion ENRaW ........................................................................................ 39
6. Gweinyddu'r grantiau ........................................................................................ 48
7. Cynnydd a chyflawniadau ........................................................................................ 69
8. Manteision a chanlyniadau a gyflawnwyd ........................................................ 86
9. Casgliadau ac argymhellion ........................................................................................ 101
Atodiad A: Model rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid a fframwaith gwerthuso .................... 106
Atodiad B: Canllawiau trafod ........................................................................................ 107
Atodiad C: Arolwg ar-lein ........................................................................................ 124
Atodiad Ch: Strategaeth Samplu ........................................................................................ 133

## Rhestr o'r tablau a'r ffigurau


Tabl 2.1: Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg ..... 8

Ffigur 4.1: Canlyniadau disgwyliedig ENRaW ..... 22

Ffigur 4.2: Sbardunau allweddol ar gyfer sefydlu ENRaW ..... 27

Tabl 4.1: Cyllid cyfalaf arfaethedig ENRaW ..... 29

Tabl 4.2: Cyllid refeniw arfaethedig ENRaW ..... 30

Tabl 4.3: Ceisiadau ENRaW a gafwyd ac a gymeradwywyd ..... 37

Ffigur 6.1: Dulliau o ddod i glywed am ENRaW ..... 51

Ffigur 6.2: Barn ymgeiswyr Cyfnod 1, a gymerodd ran yn yr arolwg, ynghylch y broses ymgeisio ..... 54

Ffigur 6.3: Barn ymgeiswyr Cyfnodau 2 a 3, a gymerodd ran yn yr arolwg, ynghylch y broses ymgeisio ..... 54

Ffigur 6.4: Barn ymgeiswyr ynghylch yr amser a gymerwyd i asesu ceisiadau ..... 58

Ffigur 6.5: Barn prosiectau a ariannwyd, ac a gymerodd ran yn yr arolwg, ynghylch hawliadau, taliadau, a gofynion adrodd ENRaW ..... 61

Ffigur 7.1: Allbynnau Cyfnod 1 a gyflawnwyd yn erbyn y targedau hyd yma ..... 73

Ffigur 8.1: Manteision yn deillio o brosiectau a gwblhawyd a gymerodd ran yn yr arolwg.... 88

## Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| BBaCh | Busnes Bach a Chanolig |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| DPA | Dangosydd Perfformiad Allweddol |
| EAFRD | Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig |
| ENRaW | Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru |
| LHDTC+ | Pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol |
| RPW | Taliadau Gwledig Cymru |
| SMS | Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Y Ddeddf Llesiant | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Y Gronfa Treftadaeth | Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Penodwyd Ymchwil OB3, ar y cyd â Phartneriaeth BRO, gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW).

1.2 Nod y gwerthusiad yw asesu a yw prosiectau a ariannwyd gan ENRaW, a gyflawnwyd rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2023, yn cyflawni nodau ac amcanion y cynllun. Disgwylir i'r gwerthusiad adolygu effeithiolrwydd y cynllun grant fel mecanwaith ar gyfer cyflawni yn erbyn polisïau, strategaethau, a gofynion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Bydd y gwerthusiad hefyd yn ymchwilio i'r canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a gyflawnwyd drwy'r dull cydweithredol.

1.3 Bwriedir i'r gwerthusiad adolygu:

- y ffordd y cafodd y cynllun grant ei weinyddu a'i gyflawni gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y prosesau ymgeisio, y gofynion monitro a'r ffordd y cafodd y grant ei reoli gyda'r nod o ganfod yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella yn y dyfodol
- effaith uniongyrchol grantiau ac a gyflawnodd y grantiau a ddyfarnwyd eu nodau a'u hamcanion gwreiddiol, gan gynnwys cyflawni'r targedau a'r canlyniadau a nodir mewn ceisiadau a chynlluniau cyflawni
- manteision a chyflawniadau ehangach ac annisgwyl, gan gynnwys unrhyw fanteision lluosog ehangach yn ychwanegol at y manteision uniongyrchol a ddisgwyliwyd.

1.4 Mae'r gwerthusiad yn cael ei gynnal rhwng mis Hydref 2021 a mis Hydref 2023. Mae eisoes wedi cynnwys paratoi Damcaniaeth Newid ac adroddiad Fframwaith Gwerthuso (heb ei gyhoeddi, Ionawr 2022) a'r Adroddiad Interim hwn (Hydref 2022) sy'n ystyried sut y cafodd y cynllun grant ei weinyddu a'i gyflawni ac sy'n cyflwyno canfyddiadau cynnar ar effaith y cynllun. Bydd hefyd yn cynnwys paratoi adroddiad gwerthuso terfynol erbyn mis Hydref 2023 a fydd yn ystyried effaith a chyflawniadau'r cynllun yn fanylach.

1.5 Mae wyth pennod i'r adroddiad hwn, fel a ganlyn:

- pennod un: cyflwyniad i'r adroddiad
- pennod dau: amlinelliad o fethodoleg yr astudiaeth
- pennod tri: ystyriaeth o addasrwydd ENRaW o fewn y cyd-destun polisi a strategol a barn rhanddeiliaid ynglŷn â hynny
- pennod pedwar: trosolwg o gynllun ENRaW a'r ffordd y cafodd ei weithredu
- pennod pump: ystyriaeth o drefniadau gweinyddu grantiau ar gyfer gweithredu ENRaW
- pennod chwech: ystyriaeth o'r cynnydd a wnaed hyd yma a chyflawniadau grant ENRaW, gan gynnwys cynnydd yn erbyn amcanion trawsbynciol
- pennod saith: ystyriaeth o'r canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma a chynaliadwyedd gweithgareddau a ariannwyd, gan gyfeirio'n bennaf at brosiectau Cyfnod 1 sydd wedi'u cwblhau
- pennod wyth: y casgliadau sy'n dod i'r amlwg a materion i'w hystyried ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun ac ar gyfer y dyfodol.

1.6 Ceir gwybodaeth ychwanegol yn yr atodiadau:

- mae Atodiad A yn amlinellu model rhesymeg Damcaniaeth Newid a fframwaith gwerthuso ategol ar gyfer ENRaW
- mae Atodiad B yn cynnwys y canllawiau trafod a fabwysiadwyd ar gyfer y gwaith maes
- mae Atodiad C yn cynnwys yr arolwg a ddosbarthwyd i ymgeiswyr aflwyddiannus a llwyddiannus am grant ENRaW
- mae Atodiad Ch yn rhoi manylion am y dull samplu.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer cynnal y gwerthusiad.

**Dull**

2.2 Roedd y gweithgareddau gwerthuso a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2021 a mis Medi 2022 yn cynnwys yr elfennau canlynol o waith:

- cam cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a pharatoi dull methodolegol wedi'i fireinio a chynllun prosiect
- ymchwil desg, a oedd yn cynnwys dadansoddiad o bolisïau a dogfennau strategol perthnasol gan gynnwys cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth allweddol. Roedd hefyd yn cynnwys adolygiad o ddogfennau cynllun ENRaW, data monitro, ceisiadau am brosiectau a ariannwyd a (lle roeddent ar gael) adroddiadau diwedd prosiect
- paratoi canllaw trafod ansoddol ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r gwaith o ddylunio a datblygu cynllun ENRaW (gweler Atodiad B1) ac yna cyfweld â 13 o swyddogion Llywodraeth Cymru i gael eu barn ynghylch diben a dyluniad cynllun ENRaW yn ogystal â'r canlyniadau a'r effeithiau a ddisgwyliwyd. Roedd y rhain yn cynnwys swyddogion sy'n gweithio i wasanaeth Taliadau Gwledig Cymru (RPW)
- hwyluso gweithdy ar y Ddamcaniaeth Newid gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, i brofi cywirdeb model rhesymeg drafft a datblygu model rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid ar gyfer cynllun ENRaW (gweler Atodiad A) i nodi'r materion yr oedd llunwyr polisïau yn disgwyl i'r cynllun fynd i'r afael â nhw yn ogystal â'r allbynnau a'r canlyniadau yr oedd yn gobeithio eu cyflawni
- paratoi canllawiau trafod ar gyfer cyfweld â chynrychiolwyr sy'n arwain ac yn ymwneud â phrosiectau a ariannwyd a sefydliadau a wnaeth geisiadau aflwyddiannus (gweler Atodiad B2 i B5) yn ogystal ag arolwg ar-lein dwyieithog i ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus (Atodiad B6)

- anfon yr arolwg ar-lein dwyieithog yn uniongyrchol at holl ymgeiswyr ENRaW. Cynhaliwyd yr arolwg gan ddefnyddio meddalwedd arolwg SNAP ac roedd wedi'i lenwi ymlaen llaw â gwybodaeth ynghylch pa gyfnod(au) cyllido yr oedd yr ymgeisydd wedi gwneud cais amdano/amdanynt, ac a oedd eu cais/ceisiadau wedi bod yn llwyddiannus ai peidio er mwyn gwella cywirdeb yr ymatebion a lleihau nifer y cwestiynau a ofynnwyd i'r ymatebwyr. Roedd cronfa ddata o 134 o ymgeiswyr ar gael i'r tîm ymchwil. Yn sgil ymarfer dad-ddyblygu i ddileu ymgeiswyr a oedd wedi gwneud cais i ENRaW ar fwy nag un achlysur, lleihaodd hyn i 103. O blith y rhain, nid oedd 51 o ymgeiswyr erioed wedi cael unrhyw gyllid drwy ENRaW. Nid oedd wyth cyfeiriad e-bost yn weithredol, ac felly dosbarthwyd yr arolwg i 95 o gysylltiadau. Gwahoddwyd yr ymgeiswyr i gwblhau'r arolwg ar-lein ym mis Mehefin 2022 a chyhoeddwyd hyd at dair neges atgoffa awtomataidd drwy feddalwedd SNAP rhwng mis Mehefin a mis Medi 2022 i'r rhai nad oeddent wedi ymateb. Yn ogystal â hynny, cysylltwyd dros y ffôn â phob un nad oedd wedi ymateb[1] ac anfonwyd neges e-bost bersonol atynt gan aelod o dîm ymchwil OB3. At hynny, cysylltodd Llywodraeth Cymru â phawb a oedd heb ymateb ar ddau achlysur drwy e-bost yn ystod cyfnod yr arolwg er mwyn eu hannog i gyfrannu. Derbyniwyd cyfanswm o 45 o ymatebion i'r arolwg, sef cyfradd ymateb o 47 y cant o'r rhai â chyfeiriad e-bost gweithredol
- dewis sampl o 30 o brosiectau a ariannwyd i gysylltu â nhw ar gyfer gwaith maes. Mae ein dull o ddatblygu fframwaith samplu a dewis prosiectau i'w cynnwys yn y gwaith maes wedi'i nodi yn Atodiad C. Mewn pedwar achos, dewiswyd prosiectau wrth gefn oherwydd amrywiol broblemau gan gynnwys diffyg ymateb, salwch, a'r ffaith bod swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am y prosiect wedi gadael y sefydliad
- cynnal cyfweliadau ansoddol manwl gydag o leiaf un cynrychiolydd o 30 o brosiectau a ariannwyd (o blith 57 o brosiectau posibl), yr oedd 20 ohonynt wedi'u hariannu yng Nghyfnod 1 a 10 yng Nghyfnodau 2 neu 3.

[1] Lle y gellid dod o hyd i rif ffôn drwy wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o’r cyfweliadau manwl hyn dros Teams, oni bai bod y prosiectau wedi’u dewis fel astudiaethau achos – ac os felly cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb yn y mwyafrif o achosion.

- cynnal rhagor o waith maes gydag wyth o'r prosiectau a samplwyd. Roedd hyn yn cynnwys cyfweld â sefydliadau partner, buddiolwyr, neu gynrychiolwyr cymunedol yn ogystal â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a fu’n ymwneud â’r prosiectau hyn
- cynnal cyfweliad byr ag un ymgeisydd aflwyddiannus am grant ENRaW nad oedd wedi cael unrhyw gyllid. Dywedodd pedwar o'r ymatebwyr i'r arolwg (o blith chwech a gwblhaodd yr arolwg) eu bod yn fodlon rhoi adborth pellach i aelod o'r tîm ymchwil am eu profiad o'r broses ymgeisio a gofynnwyd iddynt am gyfweliad. Fodd bynnag, gwrthododd un o'r rhain wneud hynny pan ofynnwyd iddo am gyfweliad ac nid ymatebodd dau i'n ceisiadau am gyfweliad.

**Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg**

2.3 Cwblhawyd pob un o'r 45 o ymatebion i'r arolwg yn Saesneg. Dengys Tabl 2.1 fod yr ymatebion a ddaeth i law yn cynrychioli 63 o'r ceisiadau a gyflwynwyd i gynllun ENRaW, gan fod wyth o’r rhai a gwblhaodd yr arolwg wedi cyflwyno dau gais yn ystod cyfnodau gwahanol a phedwar wedi cyflwyno o leiaf un cais yn ystod pob un o’r cyfnodau cyllido. Roedd pedwar o'r ymatebwyr wedi cyflwyno mwy nag un cais o fewn yr un cyfnod cyllido ond er hwylustod, nid yw'r rhain wedi'u cyfrif fel achosion ar wahân yn nata'r arolwg.

2.4 O blith y rhai a ymatebodd, roedd 37 wedi bod yn llwyddiannus gyda'u cais, ac roedd 22 wedi bod yn aflwyddiannus tra bod pedwar arall yn aros am y canlyniad.

**Tabl 2.1: Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg**

| | Cais wedi ei gyflwyno | Llwyddiannus | Aflwyddiannus | Aros am y canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| Cyfnod 1 | 36 | 24 | 12 | 0 |
| Cyfnod 2 | 11 | 3 | 8 | 0 |
| Cyfnod 3 | 16 | 10 | 2 | 4 |
| Cyfanswm | 63 | 37 | 22 | 4 |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein gan OB3 (45 o ymatebion)

2.5 O blith y prosiectau llwyddiannus a ariannwyd yn ystod Cyfnod 1 a gymerodd ran yn yr arolwg, dywedodd tua dwy ran o dair (16 o blith 24) fod eu prosiect wedi'i gwblhau.

2.6 Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r arolwg (37 o blith 45) gan sefydliad arweiniol y prosiect neu'r ymgeisydd, a chwblhawyd cyfran fach (6) gan bartner prosiect neu ymgeisydd. Cwblhawyd un arolwg gan fath arall o sefydliad, a nodwyd fel swyddog prosiect, ac ni roddodd un fanylion o'r fath.

**Proffil y prosiectau a gyfwelwyd**

2.7 Cyfrannodd cyfanswm o 91 o unigolion at y gwaith maes ansoddol ar draws y 30 o brosiectau a ddewiswyd. Roedd proffil y rhain fel a ganlyn:

- roedd 67 yn staff cyflawni, wedi'u cyflogi gan y sefydliad arweiniol neu sefydliad partner. Roedd y staff cyflawni hyn yn cynrychioli cyfanswm o 44 o sefydliadau[2]. Ym mhob un o'r 30 o brosiectau a ddewiswyd, cafodd arweinydd y prosiect ei gyfweld. Ymysg y staff cyflawni eraill a gyfwelwyd roedd uwch reolwyr, cydlynwyr prosiectau a staff cyflawni rheng flaen
- roedd 20 yn fuddiolwyr prosiectau, o blith pedwar o brosiectau'r astudiaethau achos a ddewiswyd. Roedd y rhain yn cynnwys gwirfoddolwyr, hyfforddeion yn ogystal â chynrychiolwyr grwpiau cymunedol a oedd wedi cael ymyriad ar ffurf prosiect
- roedd pedwar yn swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a oedd wedi bod yn ymwneud â phedwar o'r prosiectau astudiaeth achos a ddewiswyd.

**Ystyriaethau methodolegol**

2.8 Mae angen ystyried y materion a ganlyn mewn perthynas â'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth hon:

[2] Mae'r ffigur hwn yn cynnwys rhywfaint o gyfrif dwbl lle y byddai'r un sefydliad, ond staff gwahanol e.e. Dŵr Cymru, CNC, wedi bod yn ymwneud â mwy nag un prosiect ENRaW.

- roedd cyfradd ymateb yr arolwg (n=45) ychydig yn is na’r gyfradd ymateb ddisgwyliedig o 50 y cant er gwaethaf ymdrechion y tîm ymchwil a swyddogion Llywodraeth Cymru i annog prosiectau i ymateb. Fodd bynnag, mae'r gyfradd ymateb yn debyg i'r hyn a gafwyd ar draws gwerthusiadau tebyg eraill (e.e. gwerthusiad o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy a ariannwyd gan y Rhaglen Datblygu Gwledig). Mae’r gyfradd ymateb gan ymgeiswyr a ariannwyd yn uwch na’r rhai nad ydynt yn derbyn cyllid, ymatebodd 24 o blith 36 o brosiectau posibl a ariannwyd yng Nghyfnod 1.
- mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng barn yr ymatebwyr i'r arolwg a barn y rhai a gyfwelwyd, gan fod sampl o 21 o blith y 30 o brosiectau a gyfwelwyd hefyd wedi cwblhau arolwg
- gan mai dim ond un ymgeisydd aflwyddiannus a gafodd ei gyfweld fel rhan o'r gwerthusiad, dylid bod yn ofalus wrth ymdrin â'i farn
- mae prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnodau 2 a 3 yn dal i fynd rhagddynt ac felly mae'n rhy gynnar i fesur yr effaith y byddant yn ei chael ar eu cymunedau. Mae'r adroddiad interim hwn felly'n cyfeirio'n helaeth at ganlyniadau ac effaith prosiectau a gwblhawyd yng Nghyfnod 1, gan dderbyn y bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol yn gallu cynnig mwy o dystiolaeth o'r canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer y prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnodau 2 a 3.

## 3. Rhesymeg polisi a rhesymeg strategol ar gyfer ENRaW

3.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r cyd-destun deddfwriaethol a'r cyd-destun polisi ar gyfer ENRaW.

**Y cyd-destun deddfwriaethol**

3.2 Mae ENRaW yn eistedd yn gadarn o fewn y fframwaith deddfwriaethol ehangach sydd bellach ar waith yng Nghymru, yn enwedig Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf Llesiant) (Cymru) 2015, a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

### Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

3.3 Mae Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn amlinellu fframwaith newydd ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae'n amlinellu:

- **diffiniad o reoli adnoddau yn gynaliadwy**: sef gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ddefnyddio dull rheoli adnoddau naturiol ar lefel yr ecosystem. Mae ecosystemau, sy'n cynnwys planhigion, anifeiliaid, aer, dŵr, mwynau a phriddoedd a'r rhyngweithio sy'n digwydd rhyngddynt, yn darparu aer glân, dŵr, bwyd, tanwydd, a chyfleoedd i fwynhau'r awyr agored a chefnogi ein llesiant
- **Polisi Adnoddau Naturiol Cymru**[3] sy'n cynnwys pedwar prif gyfle:
    - cynorthwyo cymunedau cynaliadwy llwyddiannus
    - hyrwyddo twf gwyrdd ac arloesi i greu swyddi cynaliadwy
    - cefnogi economi sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon
    - cynnal cymunedau iach, gweithgar a chysylltiedig.

  Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol hefyd yn nodi tair blaenoriaeth genedlaethol i fynd i'r afael â'r heriau a gwireddu'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag adnoddau naturiol:

    - dod o hyd i atebion sy'n seiliedig ar natur
    - cynyddu effeithlonrwydd adnoddau ac ynni adnewyddadwy

[3] Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru (2017)

- mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le

- **set allweddol o egwyddorion sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy**:
    - rheoli mewn modd ymaddasol, trwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd
    - ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu
    - hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt
    - gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau
    - ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch
    - ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau
    - ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd
    - cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau
    - ystyried cydnerthedd ecosystemau ac yn benodol, yr amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt; y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt; graddfa ecosystemau; cyflwr ecosystemau a gallu ecosystemau i addasu.

- **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol[4],[5]:** Roedd hyn yn un o ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ac mae CNC wedi cyhoeddi dau adroddiad, y naill yn 2016 a'r llall yn 2020. Mae'r ddau yn rhoi trosolwg manwl o adnoddau naturiol Cymru, gan gynnwys anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill, ansawdd aer, adnoddau dŵr,

[4] Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Crynodeb o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru
[5] Cyfoeth Naturiol Cymru /  Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru 2020

priddoedd a mwynau ynghyd â mynyddoedd, glaswelltiroedd, coetiroedd ac amgylcheddau trefol, dŵr croyw a morol

- **Datganiadau Ardal**: bwriad y rhain oedd nodi'r camau sy'n ofynnol i gyflawni'r Polisi Adnoddau Naturiol ar lefel ranbarthol. Cyhoeddwyd y Datganiadau Ardal gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn 2020[6] ac maent yn rhoi trosolwg cychwynnol o flaenoriaethau amgylcheddol rhanbarthol.

3.4 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) hefyd ddyletswydd ychwanegol yn ymwneud â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (dyletswydd Adran 6) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'. Disgwyliwyd y byddai ENRaW yn darparu cymorth i awdurdodau cyhoeddus gyda'u dyletswydd Adran 6 bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau drwy weithgarwch a ariennir â grant.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.5 Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r sector cyhoeddus 'wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy', h.y. sicrhau 'bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'[7].

3.6 Mae'r Ddeddf yn amlinellu saith nod llesiant a phum ffordd o weithio y mae'n rhaid i bob awdurdod cyhoeddus geisio eu cyflawni. Mae'r saith nod llesiant fel a ganlyn:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth

[6] Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru

[7] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion gan lywodraeth Cymru 2il Argraffiad Mai 2015 (t3; t7)

- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

3.7 Mae’r pum ffordd o weithio yn berthnasol i gynllun ENRaW, gan eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried:

- anghenion hirdymor
- dulliau ataliol
- integreiddio rhwng cyrff cyhoeddus
- cydweithio a rhannu adnoddau
- cynnwys pobl.

3.8 ENRaW oedd un o gynlluniau grant cyntaf Llywodraeth Cymru i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a disgwylir iddo wneud cyfraniad uniongyrchol at nodau ac egwyddorion y ddeddfwriaeth.

### Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

3.9 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) hefyd yn berthnasol, yn enwedig y cyhoeddiad diweddar Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae hwn yn nodi strategaeth ofodol ar gyfer datblygu yng Nghymru rhwng 2020 a 2040 ac mae’n cynnwys fframwaith strategol ar gyfer gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Felly mae’n dod â gofynion Deddf yr Amgylchedd a'r Ddeddf Llesiant ynghyd mewn cyd-destun gofodol. Dylai allbynnau a chanlyniadau prosiectau ENRaW gyfrannu at ddatblygiad y polisi gofodol strategol hwn yn y dyfodol.

### Y cyd-destun polisi

3.10 Y bwriad oedd y byddai’r cynllun yn cefnogi'r gwaith o weithredu uchelgeisiau trawsbynciol Llywodraeth Cymru fel y’u hamlinellir yn ei Rhaglen Lywodraethu, yn ogystal â’i pholisïau economaidd ac adnoddau naturiol gan fod ENRaW wedi’i gynllunio i fod yn ddull integredig a fyddai’n

cefnogi camau gweithredu cydweithredol i gyflawni amcanion yn ymwneud â gwella'r amgylchedd, cydnerthedd a llesiant.

### Rhaglen Lywodraethu 2016-2021, Symud Cymru Ymlaen

3.11 Y blaenoriaethau allweddol sy'n berthnasol i ENRaW fel y'u nodir yng nghynllun pum mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-2021, Symud Cymru Ymlaen, oedd:

- datblygu cymunedau gwledig llwyddiannus cynaliadwy drwy (ymysg pethau eraill) gefnogi prosiectau dan arweiniad y gymuned, hyrwyddo datblygiad sgiliau, creu swyddi, entrepreneuriaeth, ac ynni cymunedol
- gwella a diogelu'r amgylchedd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, diogelu a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau lleol, cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy, buddsoddi yn y sgiliau ar gyfer yr economi werdd, a buddsoddi mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd i reoli dŵr yn well yn yr amgylchedd
- gwella iechyd a llesiant i bawb, drwy dreialu cynlluniau presgripsiynu cymdeithasol, datblygu strategaeth drawslywodraethol i roi sylw i unigrwydd ac arwahanrwydd, a gweithio gydag eraill i wella llesiant a hyrwyddo gwell iechyd emosiynol
- gwella ymgysylltiad a chysylltedd drwy weithio gyda chymunedau i ddiogelu cyfleusterau lleol a helpu cymunedau i gymryd perchnogaeth o asedau cymunedol; ac i nodi mwy o gyfleoedd i bobl wirfoddoli.

### Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026

3.12 Y blaenoriaethau allweddol sy'n berthnasol i ENRaW, sydd ar waith tan 2023, fel y nodir yng nghynllun pum mlynedd cyfredol (diwygiedig) Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021 i 2026[8] yw:

- darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel drwy (ymysg pethau eraill) gyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno

[8] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad, [HTML] | LLYW.CYMRU

presgripsiynu cymdeithasol i helpu pobl sy'n teimlo'n ynysig a blaenoriaethu buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl

- adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth ddatgarboneiddio cymaint â phosibl drwy greu system newydd o gymorth ffermio a fydd yn cynyddu pŵer amddiffynnol natur drwy ffermio ac yn cydnabod y broses o gynhyrchu bwyd lleol sy'n ecolegol gynaliadwy
- ymgorffori'r ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhob agwedd ar lywodraeth drwy ehangu trefniadau i greu a gwella mannau gwyrdd, datblygu hybiau gweithio o bell newydd mewn cymunedau, cryfhau'r gwaith o hyrwyddo cerdded a beicio, cefnogi cynlluniau menter gymdeithasol arloesol megis caffis ar gyfer cynnal a chadw beiciau a chynlluniau ailgylchu beiciau, cefnogi cymunedau i greu coetiroedd newydd a chysylltu ardaloedd cynefinoedd, cymunedau cyflogwyr i gael mwy o lais mewn prosiectau adfywio lleol, creu mwy o fannau gwyrdd cymunedol yng nghanol trefi ac ailddefnyddio mannau cyhoeddus ar gyfer digwyddiadau awyr agored, parciau dros dro a pharciau bach
- gwneud dinasoedd, trefi a phentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt drwy gefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned ac ymddiriedolaethau tir cymunedol.

3.13 Disgwyliwyd hefyd y byddai ENRaW yn ymgorffori ymhellach y ffyrdd newydd o weithio a hyrwyddir drwy egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac ystod o bolisïau perthnasol sy'n dod oddi tanynt megis y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio, a Cymru Ddi-dipio.

### Cynllun Gweithredu Adfer Natur

3.14 Disgwyliwyd y byddai cynllun ENRaW yn cefnogi gweithrediad y Cynllun Gweithredu Adfer Natur[9] Cymru mewn sawl ffordd. Cyhoeddwyd strategaeth y Cynllun Gweithredu Adfer Natur ym mis Rhagfyr 2015 ac roedd yn amlinellu cynllun gweithredu a gafodd ei ddiweddaru ar gyfer

[9] Cynllun gweithredu adfer natur | LLYW.CYMRU

2020-21 i ymateb i'r argyfwng ecolegol sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru ac mae cynllun gweithredu 2020-21 yn cynnwys pum thema:

- cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth
- cynyddu gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth
- gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd
- uwchsgilio a'r gallu i gyflawni
- prif ffrydio, llywodraethu, ac adrodd ar gynnydd.

3.15 Mae ENRaW wedi'i amlygu fel un cynllun sydd â'r potensial i gyfrannu at:

- y sylfaen dystiolaeth ofodol ar gyfer dosbarthiad a chyflwr bioamrywiaeth o dan y thema gyntaf o gynnal a gwella rhwydwaith ecolegol gwydn
- gwireddu a chynyddu buddsoddiad preifat o dan y drydedd thema, sef gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd
- cynyddu'r gallu i weithredu dros fioamrywiaeth a gwella gallu a sgiliau bioamrywiaeth o dan y bedwaredd thema, sef uwchsgilio a'r gallu i gyflawni.

### Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio

3.16 Amlinellodd Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio[10] (2013) Llywodraeth Cymru gyfres o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r lleihad mewn pryfed peillio a'r dirywiad yn eu hiechyd ledled Cymru sydd wedi digwydd oherwydd bod tir yn cael ei ddefnyddio'n fwy dwys, bod cynefinoedd yn cael eu dinistrio, clefydau, y defnydd o gemegau amaethyddol a'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Cynllun yn amlinellu gweledigaeth lle mae Cymru'n cefnogi poblogaethau iach o bryfed peillio gwyllt a rhai a reolir er budd pobl, economi ac amgylchedd Cymru. Mae'r cynllun yn nodi pedwar canlyniad allweddol:

[10] Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio | LLYW.CYMRU

- Mae gan Gymru bolisi a threfniadau llywodraethu cydgysylltiedig a sail gadarn o dystiolaeth ar gyfer gweithredu er lles pryfed peillio
- Mae Cymru yn darparu cynefinoedd amrywiol a chysylltiedig i gynnal pryfed peillio
- Mae gan Gymru boblogaethau iach o bryfed peillio
- Mae pobl Cymru yn fwy gwybodus ac ymwybodol o bwysigrwydd pryfed peillio a'r gwaith o'u rheoli.

### Cymru Ddi-dipio

3.17 Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon[11] (2015) yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer dyfodol i Gymru heb y niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol annerbyniol a achosir gan dipio anghyfreithlon. Bwriad y strategaeth yw cyflawni pedwar canlyniad allweddol:

- mae pob sefydliad allweddol yng Nghymru yn ymrwymo i ddileu tipio anghyfreithlon
- ceir dealltwriaeth eang bod tipio anghyfreithlon yn annerbyniol mewn cymdeithas
- mae'n haws i bobl ddelio â'u gwastraff mewn ffordd gyfrifol
- mae unrhyw un sy'n tipio'n anghyfreithlon yn cael ei ddal a'i gosbi'n briodol.

3.18 Mae'r strategaeth hefyd yn nodi tair ffordd drawsbynciol o weithio, sef gwella'r broses o gasglu data, gweithio mewn partneriaeth a chyfathrebu da.

### Ffyniant i Bawb

3.19 Mae'r cynllun pum mlynedd Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd[12] (2019) yn amlinellu cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd ar gyfer y cyfnod 2020-2015. Mae’n pennu gweledigaeth ar

[11] Llywodraeth Cymru (2015) Cymru Ddi-dipio - Ein strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon
[12] Ffyniant i bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd | LLYW.CYMRU

gyfer 2030, lle mae Cymru yn 'wlad sydd â’r adnoddau ac sy’n barod, sydd â’r wybodaeth i ddeall y risgiau a’r heriau sydd o’n blaenau ac sydd â’r capasiti i addasu i effaith hinsawdd sy’n newid’[13]. Mae’r cynllun yn nodi pedwar amcan allweddol, sef:

- dod i wybod mwy
- gwella capasiti
- datblygu cydnerthedd
- ymateb i’r risgiau yng Nghymru.

**Ymyriadau tebyg eraill**

### Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy

3.20 Er bod tebygrwydd â’r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS), mae ENRaW yn wahanol gan mai’r bwriad oedd cefnogi prosiectau a fyddai’n gwneud gwelliannau mewn ardaloedd preswyl ac o’u cwmpas er budd pobl, busnesau, a’u cymunedau. Ar y llaw arall, bwriad SMS, a ariannwyd drwy is-fesur 16.5 y Rhaglen Datblygu Gwledig, oedd cefnogi ymyriadau ar raddfa’r dirwedd a fyddai’n creu manteision i reolwyr tir, busnesau a chymunedau.

3.21 Disgwyliwyd i rai prosiectau gael eu cefnogi gan SMS neu ENRaW. Tir amaethyddol neu dir comin gerllaw amgylcheddau adeiledig fyddai'r rhain yn bennaf. Mae'r canllawiau'n nodi y byddai'n dderbyniol i ddau weithgaredd gwahanol o fewn yr un prosiect gael eu cefnogi gan gyllid SMS ac ENRaW ar yr amod na fyddai unrhyw ddyblygu o ran y cyllid. Gall achosion o'r fath hefyd arwain at raglenni gwaith mwy o faint a mwy strategol.

3.22 Mae nifer o ganfyddiadau yng ngwerthusiad proses yr SMS[14] yn berthnasol i ENRaW, gan gynnwys:

- y gall dull cyllido ar raddfa'r dirwedd greu manteision ehangach ar lefel gymunedol na chyllid a ddarperir ar lefel ffermydd unigol

[13] Ibid., tud.7

[14] Cynllun Rheoli Cynaliadwy: adroddiad gwerthusiad proses a damcaniaeth newid (crynodeb) | LLYW.CYMRU

- fe wnaeth y cynllun SMS ymgorffori egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn gadarn yn ei weithrediad, ac fe wnaeth y gwasanaeth cymorth hwyluso chwarae rhan allweddol wrth helpu prosiectau i ddeall a chroesawu'r rhain
- roedd y diddordeb yn y gronfa a'r gystadleuaeth amdani yn gryf, gan olygu nad oedd llawer o brosiectau o ansawdd da yn cael eu cefnogi
- roedd y prosesau gwneud penderfyniadau yn gadarn ac yn briodol, ond gallai'r broses ymgeisio fod wedi'i symleiddio a byddai mwy o ymwneud â llunwyr polisïau wedi bod yn fuddiol
- byddai Llywodraeth Cymru wedi elwa ar gael rhagor o adnoddau i reoli'r broses asesu o ystyried y problemau'n ymwneud â chapasiti gweinyddol
- roedd problemau niferus ac eang yn ymwneud ag adrodd ar hawliadau ariannol, gan achosi problemau difrifol i nifer o'r partneriaethau a ariannwyd drwy'r SMS, yn enwedig sefydliadau llai yn y trydydd sector neu bartneriaethau wedi'u harwain gan dirfeddianwyr
- canfuwyd bod SMS wedi helpu i gryfhau prosiectau cydweithredol presennol ac wedi ehangu eu heffaith, ond roedd llai o dystiolaeth ei fod wedi ysgogi prosiectau cydweithredol newydd, cynaliadwy
- mae dull cydweithredol llwyddiannus o reoli tir yn cymryd amser - mae angen cyllid hirdymor i helpu i ddatblygu ymddiriedaeth rhwng partneriaid
- mae natur hyblyg yr SMS yn gryfder yn oystal â gwendid, oherwydd er bod prosiectau wedi gallu diffinio a gosod eu targedau eu hunain, mae'n anodd cydgrynhoi allbynnau a chyflawniadau ar lefel cynllun
- dim ond allbynnau uniongyrchol y gellir eu cofnodi ac adrodd arnynt ar gyfer yr SMS, gan fod manteision ehangach, hirdymor i'r ecosystem a chanlyniadau economaidd-gymdeithasol yn cymryd sawl blwyddyn i ddod yn gwbl amlwg.

## 4. Trosolwg o grant ENRaW

4.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg manwl o'r cynllun grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRaW), gan ystyried dogfennau ar lefel y cynllun yn cynnwys canllawiau i ymgeiswyr a phrosiectau.

### Cyflwyniad

4.2 Cynllun grant amgylchedd sengl a sefydlwyd ym mis Ebrill 2018 yw ENRaW. Disgwylir iddo gefnogi prosiectau i wneud gwelliannau mewn ardaloedd preswyl ac o'u cwmpas ac i ddod â manteision i bobl, busnesau a'u cymunedau.

4.3 Fe'i sefydlwyd pan gafodd tri chynllun grant eu cyfuno, sef Grant Craidd yr Amgylchedd, Grant Refeniw Sengl Awdurdodau Lleol, a chyfran o'r cyllid cyfalaf a ddyrannwyd yn flaenorol o dan y Grant Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd.[15]

4.4 Mae'r cynllun, sy'n cwmpasu Cymru gyfan, wedi bod yn gweithredu ar sail flynyddol, gan ddarparu cyllid i brosiectau ar sail tair blynedd gan ddechrau yng ngwanwyn 2019. Cafodd y cynllun gyllid gan y Rhaglen Datblygu Gwledig hanner ffordd drwy'r ddarpariaeth yn 2019, er mwyn cynyddu i'r eithaf yr adnoddau a oedd ar gael iddo.

### Diben y cynllun grant

4.5 Diben ENRaW oedd cyllido prosiectau peilot a phrosiectau arddangos a oedd yn hyrwyddo cydweithredu a chydweithio er mwyn:

- datblygu, adfywio ac ehangu mynediad at seilwaith gwyrdd cynaliadwy
- gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig
- datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth ac atebion sy'n seiliedig ar natur.

---

[15] Parhaodd cyllid cyfalaf o dan y Grant Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd i gyfrannu at gefnogi prosiectau sy'n denu buddsoddiad ychwanegol i Gymru gan gynnwys prosiectau EULIFE Cymru a phrosiectau ar raddfa fwy yng Nghymru a gyflwynwyd i Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

4.6 Roedd disgwyl i brosiectau a ariannwyd drwy ENRaW gyflawni canlyniadau mewn pedwar maes allweddol, fel y nodir yn Ffigur 4.1:

**Ffigur 4.1: Canlyniadau disgwyliedig ENRaW**

**Manteision cymdeithasol**

- Gwella mynediad i fannau gwyrdd lleol a gwella eu hansawdd
- Gwella iechyd a llesiant yn y gymuned
- Cynnwys grwpiau cymunedol lleol, gwirfoddolwyr, a chyfranogiad traws-sector
- Cynyddu cyfrifoldeb cymdeithasol ac ymddygiad cynaliadwy o fewn y gymuned

**Manteision amgylcheddol**

- Creu coetiroedd a gwrychoedd newydd ac ati, neu gynnal y rhai sydd eisoes yn bodoli
- Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol
- Gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol / ecosystem
- Camau penodol i leihau allyriadau carbon

**Manteision economaidd**

- Creu incwm neu elfennau o gynhyrchu refeniw
- Denu buddsoddiad o ffynonellau eraill (heb gynnwys arian cyfatebol)
- Creu neu ddiogelu swyddi presennol
- Cefnogi cymwysterau a/neu sgiliau newydd i'r rhai sy'n cymryd rhan neu i fod o fudd yn y dyfodol

**Manteision diwylliannol**

- Cynyddu rôl y gymuned o ran cyfrifoldebau a rennir ar gyfer cynaliadwyedd tymor hwy yn y dyfodol
- Cynnal gweithgareddau a digwyddiadau hamdden mewn cymunedau lleol a chymunedau ehangach
- Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ar draws cymunedau drwy hyfforddiant neu ddull ymgysylltu arall
- Mynd i'r afael â materion lleol megis atgyweiriadau, gwaith adfer ac ati er mwyn ddiogelu treftadaeth

**Y Rhaglen Datblygu Gwledig**

4.7 Roedd disgwyl i ENRaW gyfrannu at ddwy o chwe blaenoriaeth y Rhaglen Datblygu Gwledig a oedd yn gosod y cyd-destun ar gyfer Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), sef Blaenoriaethau 5 a 6. Roedd disgwyl i brosiectau unigol a ariannwyd fynd

i'r afael ag o leiaf un o'r ddwy flaenoriaeth hyn. Mae’r chwe blaenoriaeth wedi’u rhannu’n 18 maes ffocws, gyda phump ohonynt yn dod o dan Flaenoriaeth 5 a thri yn dod o dan Flaenoriaeth 6:

- **Blaenoriaeth 5**: hyrwyddo defnydd effeithiol o adnoddau a chefnogi'r symudiad tuag at economi carbon isel sy'n medru gwrthsefyll yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth; drwy'r canlynol:

    i. Maes ffocws 5A: y diwydiant amaethyddol yn defnyddio dŵr yn fwy effeithlon
    ii. Maes ffocws 5B: y diwydiant amaethyddol a'r diwydiant prosesu bwyd yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon
    iii. Maes ffocws 5C: hwyluso cyflenwi a defnyddio ynni adnewyddadwy, isgynhyrchion, gwastraff, gweddillion a deunyddiau crai arall nad ydynt yn fwyd at ddibenion y bio-economi
    iv. Maes ffocws 5D: lleihau allyriadau ocsid nitraidd a methan sy'n deillio o amaethyddiaeth
    v. Maes ffocws 5E: meithrin gwaith i ddal a storio carbon ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth

- **Blaenoriaeth 6**: hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig gyda ffocws ar feithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig; drwy'r canlynol:

    i. Maes ffocws 6A: hwyluso arallgyfeirio, creu mentrau bach newydd a chreu swyddi
    ii. Meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig
    iii. Maes ffocws 6C: gwella hygyrchedd, defnydd ac ansawdd technolegau gwybodaeth a chyfathrebu mewn ardaloedd gwledig.

4.8 Nod ENRaW yn wreiddiol oedd ymgorffori dau o is-fesurau'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- is-fesur 7.4 a oedd yn cynnig cymorth ar gyfer buddsoddiadau i sefydlu neu ehangu gwasanaethau sylfaenol lleol ar gyfer y boblogaeth wledig gan gynnwys hamdden, diwylliant a'r seilwaith cysylltiedig, ac
- is-fesur 16.2 a oedd yn ymwneud â chymorth ar gyfer prosiectau peilot, a datblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd.

4.9 Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau mewnol, dim ond o dan fesur 16.2 y cafodd elfennau Rhaglen Datblygu Gwledig ENRaW eu cyllido.

4.10 Gall Mesur 16.2 o'r Rhaglen Datblygu Gwledig ddarparu cyllid refeniw yn ogystal â chyllid cyfalaf i gefnogi:

- prosiectau peilot, a
- datblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth.

4.11 Ni chafodd cyfnod cyntaf cyllid ENRaW ei gyllido drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig fel y bwriadwyd yn wreiddiol (er ei fod yn dal i fod o fewn cwmpas y gwerthusiad hwn) oherwydd penderfyniad a wnaed, yn dilyn adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru o'r Rhaglen Datblygu Gwledig[16], i eithrio'r holl brosiectau y cytunwyd i'w cyllido yn rownd gyntaf ENRaW o'r Rhaglen Datblygu Gwledig (er bod saith prosiect wedi'u clustnodi'n flaenorol i gael cyllid drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig). Roedd y penderfyniad hwn yn gysylltiedig â'r penderfyniad i roi'r gorau i ddefnyddio model rheoli'r Corff Cyfryngol y cytunwyd arno'n wreiddiol ac a ddefnyddiwyd i ddatblygu a gweithredu rownd gyntaf y cynllun, a'i ddisodli gyda dull canolog o reoli'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Ceisiodd Llywodraeth Cymru, yn ôl-weithredol, efelychu proses ymgeisio'r Rhaglen Datblygu Gwledig drwy ofyn i ymgeiswyr llwyddiannus Cyfnod 1 baratoi cynlluniau cyflawni (yn debyg i gam cais llawn y Rhaglen Datblygu Gwledig).

### Gwaith cyd-ddylunio cychwynnol gyda rhanddeiliaid

[16] Sicrhau Bod Grantiau Datblygu Gwledig a Ddyfarnwyd Heb Gystadleuaeth yn Rhoi Gwerth am Arian – Adroddiad Drafft (archwilio.cymru)

4.12 Rhoddwyd pwyslais cryf gan Lywodraeth Cymru ar ddylunio cynllun grant ENRaW ar y cyd â rhanddeiliaid. Wrth ddatblygu'r cynllun newydd, cynhaliwyd digwyddiadau cyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid o'r trydydd sector ac awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth o'r bwriad i roi'r gorau i ddefnyddio'r modelau cyllido presennol, i'w hysbysu y byddai llai o adnoddau ar gael ac i drafod y bwriad i sefydlu rhaglen gyllido newydd. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd unigol gydag amrywiol sefydliadau rhanddeiliaid i gasglu barn a thrafod pryderon a oedd gan sefydliadau a ariannwyd ar y pryd. Defnyddiwyd adborth a gasglwyd gan randdeiliaid i lunio'r cynllun grant newydd. Cafwyd adborth gan randdeiliaid na allent fynychu'r digwyddiadau hyn hefyd drwy[17] offeryn ymgysylltu Yammer ar blatfform ar-lein, gan ddefnyddio dull a oedd yn efelychu'r hyn a ddefnyddiwyd yn y digwyddiadau. Defnyddiwyd y platfform hefyd gan randdeiliaid i rannu syniadau am brosiectau ac i ymchwilio i ddarpar gydweithredwyr.

4.13 Canfu adolygiad o ymatebion cynrychiolwyr o ddau ddigwyddiad cyd-ddylunio a gynhaliwyd yn ystod mis Mehefin 2018 fod cyfranwyr wedi rhoi adborth ar bum thema allweddol:

- cydweithio a chefnogaeth
- diffiniadau, meini prawf a chanllawiau
- dulliau cyllido, cyllid, a buddion ehangach
- gwerthuso a chanlyniadau
- amserlenni a phwysoliad.

4.14 Ar gyfer pob thema, darparodd Llywodraeth Cymru ymateb i'r adborth a gasglwyd, a ddefnyddiwyd wedyn fel sail i ddyluniad y cynllun.

### Y sail resymegol dros gyflwyno ENRaW

4.15 Mae canllawiau cychwynnol ar gyfer cronfa Cyfnod Domestig 1 ENRaW yn nodi y byddai cyflwyno ENRaW yn caniatáu i weithgarwch gael ei gyflawni'n gliriach yn erbyn blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, er mwyn

---

[17] Gwasanaeth rhwydweithio cymdeithasol

gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer buddsoddi, a chyflawni trawsnewidiad yn y tymor hwy.

4.16 Mae'r canllawiau'n dadlau y byddai cyflwyno grant sengl yn helpu i gyfuno grantiau blaenorol yn un cynllun ac felly'n rhoi ffocws cliriach ar gyflawni amcanion y Rhaglen Lywodraethu a'r Polisi Adnoddau Naturiol.

4.17 Mae'r ddogfennaeth hefyd yn pwysleisio natur gydweithredol a chydweithiol y prosiectau yr oedd yn disgwyl i ENRaW eu cyllido. Dim ond i gefnogi gweithgareddau cydweithredol a oedd yn cynnwys y trydydd sector, y sector statudol, a sefydliadau eraill megis grwpiau cymunedol lleol, y sector preifat, a sefydliadau cenedlaethol y byddai cyllid ar gael. I gynorthwyo gyda hyn, sicrhawyd bod un elfen o'r cyllid grant ar gael i ddatblygu prosiectau ar y cyd neu brosiectau cydweithredol strategol, traws-sector. Roedd hyn yn cynnwys cyllid refeniw o hyd at uchafswm o £40,000 dros gyfnod o 12 mis. Fe'i cyflwynwyd ar gais rhanddeiliaid a gyflwynodd yr achos dros gyllid sbarduno i gefnogi datblygu partneriaethau newydd, yn debyg i'r hyn a oedd ar gael drwy raglen Crewch Eich Man Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.[18]. O ran diffinio prosiect cydweithredol, dywedodd canllawiau Cyfnod 1:

- rhaid i bartneriaeth gynnwys o leiaf ddau sefydliad o sectorau gwahanol
- y disgwyliad oedd y byddai partneriaid lluosog a oedd yn rhychwantu ystod o ddiddordebau, mathau o wasanaethau a sectorau yn cymryd rhan mewn prosiectau
- bod yn rhaid i o leiaf un aelod fod yn BBaCh fel un o ofynion cyllido y Rhaglen Datblygu Gwledig.

4.18 Er nad yw canllawiau Cyfnod 1 yn diystyru cyllido partneriaethau a phrosiectau cydweithredol presennol, mae'n nodi, fel un o ofynion amodau cyllido'r Rhaglen Datblygu Gwledig, y bydd angen i unrhyw bartneriaeth neu brosiect cydweithredol sy'n bodoli sy'n gwneud cais am gyllid yn y dyfodol drwy'r cynllun hwn ddangos bod elfen newydd i'r gwaith

[18] Ynglŷn â - Crewch Eich Man

arfaethedig, er enghraifft, cynnwys partneriaid newydd, prosesau/dulliau cyflawni neu arferion newydd, neu gynhyrchion newydd.

4.19 Roedd natur y gweithgareddau y disgwyliwyd i ENRaW eu cyllido yn eang iawn, a disgwylir i brosiectau bennu eu canlyniadau a'u dangosyddion eu hunain ar draws y pedwar maes allweddol o effeithiau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol gan ddefnyddio set eang o fesurau posibl a gynhwyswyd yn y canllawiau gan Lywodraeth Cymru.

**Gwersi o gynlluniau blaenorol**

4.20 Cynhaliwyd adolygiad o ddau gynllun Grant amgylcheddol (Grant Refeniw Sengl yr Amgylchedd ar gyfer Awdurdodau Lleol a Grant Craidd Sengl yr Amgylchedd ar gyfer sefydliadau'r Trydydd Sector) yn ystod 2015. Yn ogystal â hynny, sefydlwyd y Grant Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd yn 2017/18. Datblygwyd achos busnes[19] yn nodi'r achos dros gynllun grant sengl newydd a fyddai'n cyd-fynd yn agosach ag agenda bolisi Llywodraeth Cymru ac yn gallu ei chyflawni.

4.21 Roedd yr achos busnes yn crynhoi'r prif ysgogiadau ar gyfer newid o dan dair thema allweddol sef cyllid, polisi a phrofiad. Nodir y rhain yn Ffigur 4.2.

**Ffigur 4.2: Sbardunau allweddol ar gyfer sefydlu ENRaW**

**Cyllid**

- datgysylltu adnoddau Gwastraff a Llifogydd o Gyllid Grant yr Amgylchedd (gan leihau'r cyllid gwreiddiol a oedd ar gael i gefnogi'r cynlluniau grant yn sylweddol)
- pwysau ychwanegol ar adnoddau a gostyngiad mewn gwaelodlinau cyllidebau
- yr angen i ymchwilio i opsiynau sy'n gwneud y mwyaf o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

**Polisi**

- gwelliant parhaus i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd

[19] Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru Llywodraeth Cymru 2018 – 2023 Achos Busnes (Gorffennaf 2018) heb ei gyhoeddi

- ffocws cliriach ar gyd-destun a chanlyniadau a bennwyd gan Symud Cymru Ymlaen, Ffyniant i Bawb, Cynllun Gweithredu Economaidd a Pholisi Adnoddau Naturiol
- symudiad oddi wrth grantiau a ddiffinnir gan sectorau i annog cydweithredu mwy effeithiol.

**Profiad**

- adborth gan Archwiliad Peilot Deddf Llesiant o'r Grant Refeniw Sengl a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru
- adborth cychwynnol o werthusiad o gyllid craidd presennol y Trydydd Sector
- adborth a gwersi a ddysgwyd gan dimau polisi a grantiau Llywodraeth Cymru.

Ffynhonnell: Dogfen Achos Busnes ENRaW

4.22 Cafodd dwy wers allweddol o gynlluniau grant blaenorol eu hystyried yng nghynllun ENRaW, sef yr angen am:

- well dulliau o nodi canlyniadau ac adrodd arnynt – datryswyd hyn drwy sicrhau bod ENRaW yn darparu cyllid i gyflawni canlyniadau a nodir ym mholisïau Llywodraeth Cymru
- mwy o ffocws ar weithgarwch cydweithredol ac ar gryfhau hynny ar draws sectorau er mwyn mynd i'r afael â materion amgylcheddol i roi'r gorau i ddefnyddio dull seilo amgylcheddol – datryswyd hyn drwy feini prawf cyllido ENRaW.

4.23 Wrth fabwysiadu model newydd, cydnabuwyd y byddai cyllid ar gael mewn modd cystadleuol ac na fyddai hynny o reidrwydd yn cael ei groesawu gan y trydydd sector ac awdurdodau lleol o ystyried eu bod, hyd yma, wedi gallu cael mynediad at gyllid wedi'i neilltuo ar gyfer eu sector.

**Cyllid refeniw a chyllid cyfalaf**

4.24 Mae dogfen achos busnes fewnol Llywodraeth Cymru yn nodi cyllidebau cyfalaf a refeniw ar gyfer ENRaW hyd at fis Mawrth 2023.

4.25 Rhagwelwyd y byddai tair ffrwd gyllido ar gael drwy'r cynllun i gefnogi:

- prosiectau refeniw ar raddfa fach drwy is-fesur 16.2 y Rhaglen Datblygu Gwledig a fyddai'n darparu cyllid o hyd at £40,000 am gyfnod o 12 mis i gefnogi datblygiad partneriaethau newydd
- prosiectau cyfalaf ar raddfa fach drwy is-fesur 7.4 y Rhaglen Datblygu Gwledig a fyddai'n cael eu cyflawni dros gyfnod o hyd at dair blynedd
- prosiectau cyfalaf mawr a/neu brosiectau refeniw o dan is-fesur 16.2 y Rhaglen Datblygu Gwledig a fyddai'n cael eu cyflawni dros gyfnod o hyd at dair blynedd.

4.26 Rhagwelwyd y dadansoddiad canlynol o gyllid ar gyfer costau prosiectau cyfalaf:

**Tabl 4.1: Cyllid cyfalaf arfaethedig ENRaW**

| Ffynhonnell Gyllido | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Seilwaith Gwyrdd Llywodraeth Cymru | 1,451,034 | 4,601,100 | 3,500,000 | 3,500,000 | **13,052,134** |
| Cyfraniad Posibl y Rhaglen Datblygu Gwledig | 1,636,272 | 5,188,474 | 3,946,809 | 3,946,809 | **14,718,363** |
| Cyfraniad yr ymgeisydd (20% o gostau'r prosiect) | 617,461 | 1,957,915 | 1,489,362 | 1,489,362 | **5,554,100** |
| **Cyfanswm** | **3,704,767** | **11,747,489** | **8,936,171** | **8,936,171** | **33,324,598** |

Ffynhonnell: Dogfen Achos Busnes ENRaW

4.27 Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru uchod ym mhob blwyddyn ariannol yn seiliedig ar ymrwymo tua 70 y cant o'r gyllideb i elfen y Rhaglen Datblygu Gwledig. Byddai'r 30 y cant sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgarwch grant arfaethedig y tu allan i ardaloedd y Rhaglen Datblygu Gwledig a darparu cyfraniad cyd-ariannu ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol a oedd yn cael eu datblygu i ddenu cyllid ychwanegol i Gymru (e.e. EU LIFE[20] a cheisiadau Cronfa Treftadaeth y Loteri o Gymru).

[20] Rhaglen yr Offeryn Cyllido ar gyfer Gweithredu ar yr Amgylchedd a'r Hinsawdd

4.28 Nodir isod y cyllid refeniw arfaethedig ar gyfer ENRaW:

**Tabl 4.2: Cyllid refeniw arfaethedig ENRaW**

| Ffynhonnell Gyllido | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd Domestig[21] | 3,418,800 | 3,418,800 | 3,418,800 | 3,418,800 | 13,675,200 |
| Cyfraniad Rhaglen Datblygu Gwledig | 3,855,243 | 3,855,243 | 3,855,243 | 3,855,243 | 15,420,970 |
| Cyfanswm | 7,274,043 | 7,274,043 | 7,274,043 | 7,274,043 | 29,096,170 |

Ffynhonnell: Dogfen Achos Busnes ENRaW

4.29 Mae'r gyllideb ddomestig uchod yn seiliedig ar ymrwymo 80 y cant o'r gyllideb bresennol i feysydd y Rhaglen Datblygu Gwledig, gyda'r 20 y cant sy'n weddill yn cael ei gadw i gefnogi gweithgareddau ehangach y mae angen cymorth refeniw arnynt a gweithgarwch nad yw'n ymwneud â'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

**Gweinyddu cylchoedd cyllido**

4.30 Gweinyddwyd tri chyfnod gwneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynllun ENRaW. Ni ddisgwylir y bydd unrhyw gylchoedd cyllido pellach yn cael eu gweinyddu.

**Ceisiadau Cyfnod 1**

4.31 Gweinyddwyd y cyfnod cyntaf gan Gangen Rheoli a Chyflawni Rhaglenni Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2018 gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru yn unig. Cyflwynwyd cynigion erbyn mis Rhagfyr 2018, gan ganiatáu 12 wythnos i'w paratoi a'u cyflwyno.

4.32 Paratowyd pecyn manwl o ganllawiau ar gyfer staff Llywodraeth Cymru (o'r enw Cyfarwyddiadau Grant Domestig ENRaW ar gyfer Rownd 1) yn amlinellu'r gweithdrefnau ac yn cynnwys canllawiau ar gyfer asesu ceisiadau. Adolygwyd y ceisiadau am grant gan dri aseswr, gan gynnwys

[21] Mae'r cyllid domestig a nodwyd yn defnyddio amrywiaeth o gyllidebau polisi cyfrannol o fewn Llywodraeth Cymru i gefnogi'r cynlluniau grant presennol a'r rhai a ddarperir yn y dyfodol drwy Dîm Grantiau'r Amgylchedd, wedi'u cyfuno mewn un gyllideb.

aelod o'r Gangen Rheoli Rhaglenni a Chyflwyno, swyddog polisi penodol a swyddog polisi trawsbynciol arall. Cynhaliwyd paneli safoni i adolygu a graddio ceisiadau ac roedd swyddogion polisi yn ogystal ag aelodau'r Gangen Rheoli a Chyflawni Rhaglenni yn bresennol.

4.33 Yn dilyn y broses asesu, gwiriadau diwydrwydd dyladwy a gwiriadau cymorth gwladwriaethol, hysbyswyd yr ymgeiswyr o ganlyniad y cyllid yn ystod Chwefror – Mawrth 2019 a dechreuodd y prosiectau yng ngwanwyn 2019.

4.34 Darparwyd tri math o gyllid grant yn ystod Cyfnod 1:

- cyllid refeniw i gefnogi datblygu trefniadau cydweithio/cydweithredu strategol, traws-sector newydd (hyd at £40,000 dros gyfnod o 12 mis ar y mwyaf)
- cyfalaf ar gyfer seilwaith ar raddfa fach sy'n canolbwyntio ar seilwaith amgylcheddol a gwyrdd (sy’n darparu hyd at uchafswm o £128,000, sef 80 y cant o gyfanswm costau’r prosiect o £160,000 dros dair blynedd) a
- cyfuniad o gyllid refeniw a chyfalaf i gefnogi prosiectau peilot a phrosiectau arddangos ar y raddfa gywir (costau prosiect cyfartalog o £750,000-£1 filiwn dros dair blynedd).

4.35 Nododd y canllawiau y dylai’r grant gefnogi:

- creu trefniadau cydweithredol newydd ar gyfer cyflawni gweithgarwch, seilwaith amgylcheddol, neu brosiectau
- prosiectau ar raddfa a all ddwyn ynghyd nifer o weithgareddau ar raddfa lai neu weithgareddau a arweinir yn lleol ar draws ardal neu ranbarth mewn ffordd strategol
- datblygu ymhellach brosiectau ar y cyd, prosiectau cydweithredol, neu bartneriaethau, gan gynnwys rhai'nymwneud â phartneriaid newydd y tu allan i’r sector amgylchedd traddodiadol (e.e., sefydliadau iechyd, twristiaeth, busnesau/sector preifat etc.)

- cyflawni buddion lluosog yn rhychwantu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol
- gweithredu prosesau/dulliau cyflawni neu arferion newydd (e.e., cryfhau'r ffocws ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy neu'r Ddyletswydd Adran 6 Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau newydd); a
- datblygu a darparu cynhyrchion newydd.

4.36 Roedd yn ofynnol i brosiectau mawr llwyddiannus Cyfnod 1 gwblhau templed cynllun cyflawni, a oedd yn adeiladu ar eu cais gwreiddiol, ac a fyddai'n sail i gyfarfodydd cynnydd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae Atodiad A y templed cynllun cyflawni hefyd yn cynnig rhestr hir o'r mathau o allbynnau, canlyniadau a metrigau y gallai prosiectau eu mabwysiadu.

**Hawliadau ac adroddiadau Cyfnod 1**

4.37 Cyflwynodd y prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnod 1 hawliadau ac adroddiadau chwarterol i'r Gangen Rheoli Rhaglenni a Chyflwyno, yn nodi cyflawniadau (allbynnau a chanlyniadau) yn ogystal â chofrestr risgiau wedi'i diweddaru ac astudiaethau achos (lle y bo'n briodol). Roedd prosiectau Cyfnod 1 a gwblhawyd hefyd wedi cyflwyno adroddiadau diwedd prosiect gan ddefnyddio templed safonol.

4.38 Neilltuwyd swyddog arweiniol Cangen Rheoli Rhaglenni a Chyflwyno a swyddog arweiniol polisi i brosiectau Cyfnod 1. Cyfarfu cynrychiolwyr y prosiectau â swyddogion Llywodraeth Cymru ar y cyd yn rheolaidd i drafod cynnydd a materion dan 'ddull rheoli allweddol deuol'. Trefnwyd ymweliadau â phrosiectau ond cawsant eu canslo oherwydd cyfyngiadau'n ymwneud â'r pandemig.

4.39 I ddechrau, rhannwyd y cyfrifoldeb am brosiectau Cyfnod 1 rhwng dau swyddog grant y Gangen Rheoli Rhaglenni a Chyflwyno cyn i un swyddog ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn o ganol mis Tachwedd 2019 ymlaen. Roedd y swyddogion hyn yn cynnal taenlen ar lefel cynllun yn nodi manylion megis statws prosiect, taliadau a wnaed, tanwariant a sgôr risg gyffredinol.

Cynhaliodd y swyddogion hefyd adolygiad cyffredinol o sefyllfa ariannol ENRaW.

**Ceisiadau Cyfnodau 2 a 3**

4.40 Mae cronfeydd Cyfnodau 2 a 3 yn cael eu gweithredu drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig o dan fesur 16.2. Roedd y broses ymgeisio yn ddeublyg ac roedd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno datganiad o ddiddordeb ac yna ail gais llawn:

- proses gystadleuol oedd y cam Datgan Diddordeb. Aseswyd y Datganiadau o Ddiddordeb gan Gangen Rheoli Rhaglenni a Chyflwyno ac un swyddog polisi yn erbyn meini prawf cyhoeddedig a chafodd y cynigion am brosiectau eu rhoi yn nhrefn teilyngdod yn ôl eu sgôr. Disgwyliwyd y byddai Datganiadau o Ddiddordeb yn cael eu harfarnu o fewn 60 diwrnod i'r dyddiad cau ar gyfer y cyfnod Datgan Diddordeb
- gwahoddwyd y rhai a fu'n llwyddiannus yn y cam Datgan Diddordeb i ail gam, sef cyflwyno cais llawn, drwy borth Ar-lein Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Disgwyliwyd i geisiadau llawn ail gam gael eu cyflwyno o fewn 12 mis i dderbyn hysbysiad i gyflwyno cais llawn. Arfarnwyd y ceisiadau hyn a buont yn destun proses diwydrwydd dyladwy lawn ac asesiad gwerth am arian gan y gwasanaeth Taliadau Gwledig Cymru (RPW). Disgwyliwyd i geisiadau llawn gael eu harfarnu o fewn 90 diwrnod gwaith i dderbyn y cais llawn ond gallai gymryd mwy o amser i arfarnu ceisiadau cymhleth.

4.41 Mae cyllid ar draws Cyfnodau 2 a 3 wedi'i gyfyngu i brosiectau mawr sy'n cael eu cyllido drwy gyfuniad o gyllid refeniw a chyllid cyfalaf, i fodloni gofynion is-fesur 16.2 y Rhaglen Datblygu Gwledig. Sicrhawyd bod cyllid o rhwng £500,000 a £10 miliwn ar gael i brosiectau llwyddiannus[22].

4.42 Caeodd Cyfnod 2 i geisiadau ym mis Tachwedd 2019 ac aseswyd y Datganiadau o Ddiddordeb ym mis Rhagfyr 2019. Caeodd Cyfnod 3 ym mis Mawrth 2020. Y bwriad oedd y byddai'r Datganiadau o Ddiddordeb yn cael

[22] Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020: Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW) Nodiadau Cyfarwyddyd

eu hasesu ym mis Ebrill 2020, ond cafodd hyn ei ohirio tan fis Mehefin/Gorffennaf 2020 oherwydd effaith y pandemig COVID-19.

4.43 Darparodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i ymgeiswyr a oedd yn gwneud cais am gyllid ENRaW o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig yn ystod Cyfnodau 2 a 3[23]. Mae Nodiadau Cyfarwyddyd y Rhaglen Datblygu Gwledig yn nodi y gellid defnyddio cyllid i gefnogi:

- prosiectau peilot[24] a datblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth
- prosiectau sy'n dangos bod o leiaf dri endid ynghlwm â nhw, a dylai un o'r rheini fod yn BBaCh
- prosiectau sy'n cynnwys amrywiaeth o sefydliadau traws-sector gan gynnwys y sectorau iechyd, twristiaeth, y sector preifat, ac addysg
- darparu gweithgareddau fel:
    - gwella ansawdd yr amgylchedd lleol
    - mynd ati'n weithredol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
    - datblygu a gwella mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy, a
    - gwella cydnerthedd ecosystemau
    - cyfleoedd i gefnogi presgripsiynu gwyrdd (cymdeithasol), atebion sy'n seiliedig ar natur, cysylltiadau clir rhwng adnoddau naturiol a llesiant, gwirfoddoli, hyfforddiant ac addysg, a newid ymddygiad.

4.44 Roedd y canllawiau'n nodi na ellid defnyddio cyllid i gefnogi ymchwil annibynnol ond bod gweithgareddau cymwys yn cynnwys arddangos technegau newydd, costau rhedeg y prosiect (e.e. costau cyflogau); mapio a dadansoddi bylchau; costau gweithgareddau prosiectau a hyrwyddo.

---

[23] ibid

[24] Wedi'u diffinio fel prosiectau prawf a allai fod yn rhan o broses ddatblygu fawr heb fod yn gyfyngedig i unrhyw sector penodol

4.45 Mae costau anghymwys yn cynnwys prynu tir sy'n fwy na 10 y cant o gyfanswm gwerth y prosiect, prynu cerbydau, gwaith a wnaed cyn dyddiad dechrau'r prosiect a chostau cynnal a chadw ar gyfer adeiladau, peiriannau neu gyfarpar.

4.46 Roedd disgwyl hefyd i brosiectau integreiddio Themâu Trawsbynciol, sef Cyfle Cyfartal a Prif Ffrydio Rhywedd a Datblygu Cynaliadwy.

4.47 Nid oedd diffiniad o'r term 'preswyl' ar gyfer grant ENRaW – nid oedd Llywodraeth Cymru am fod yn rhy ragnodol ac roedd yn dymuno caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd wrth ddehongli'r term. Fodd bynnag, ni fwriadwyd ei gyfyngu i ardaloedd trefol yn unig.

**Hawliadau ac adroddiadau yng Nghyfnodau 2 a 3**

4.48 Roedd disgwyl i brosiectau a ariannwyd wneud eu hawliad cyntaf heb fod yn hwyrach na chwe mis o ddyddiad eu llythyr cymeradwyo. Mae hefyd yn ofynnol i brosiectau a ariannwyd yng Nghyfnodau 2 a 3 gyflwyno hawliadau ariannol rheolaidd i RPW. Gall prosiectau benderfynu a ydynt am wneud cais bob chwarter neu bob chwe mis. Gall prosiectau a ariennir gyflwyno hawliadau interim yn ystod eu cyfnod cyllido a disgwylir hawliad terfynol erbyn diwedd mis Mehefin 2023 fan bellaf.

4.49 Disgwylir i brosiectau a ariennir ddarparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd a, thri mis ar ôl iddynt gael eu cwblhau, adroddiad terfynol ar eu perfformiad. Disgwylir i brosiectau ddefnyddio templed Adroddiad Cynnydd RPW[25] fel sail i'w hadroddiad terfynol. Mae'n ofynnol i brosiectau Cyfnodau 2 a 3 gysylltu ag RPW drwy eu porth ar-lein, gan gyflwyno hawliadau ac adroddiadau cynnydd drwy'r porth hwn.

**Y dull o reoli'r rhaglen**

4.50 Rhagwelwyd yn wreiddiol mai'r Gangen Rheoli Rhaglenni a Chyflwyno o fewn Is-adran yr Amgylchedd a Chymunedau o fewn Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru fyddai'n rheoli'r cynllun. Byddai'r tîm yn gyfrifol am weinyddu'r broses ymgeisio a dyfarnu grantiau

[25] Templed Adroddiad Cynnydd Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020 RPW

yn ogystal â monitro cynnydd, cyfathrebu â phrosiectau a lledaenu arferion da. Dim ond ar gyfer Cyfnod 1 yr oedd hyn yn wir.

4.51 Sefydlwyd grŵp llywio i oruchwylio'r cynllun. Caiff ei gadeirio gan Bennaeth y Corff Cyfryngol ac mae'n cyfarfod bob chwarter.

4.52 Sefydlwyd panel sicrwydd grantiau gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau i roi cyngor ac argymhellion ymarferol a sicrhau y byddai'r cynllun yn cael ei gyflawni mewn modd a oedd yn gyson â pholisi grantiau ehangach Llywodraeth Cymru.

4.53 Sefydlodd Llywodraeth Cymru blatfform Yammer ar-lein i rannu syniadau am brosiectau a chwilio am bartneriaid. Defnyddiwyd hwn hefyd fel llwyfan ymgysylltu wrth ddylunio'r cynllun.

4.54 Roedd y canllawiau hefyd yn nodi ar gyfer Cyfnod 1 y byddai Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i fecanweithiau cymorth ehangach fel rhan o'r rhaglen er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau, y profiad a'r arbenigedd sy'n bodoli ar draws y sectorau

4.55 Disgwyliwyd y byddai'r gost ar gyfer gweinyddu'r cynllun yn cael ei thalu gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio adnoddau staff presennol.

**Cyllid ENRaW a ddyfarnwyd**

4.56 Mae Tabl 4.3 yn nodi nifer y ceisiadau a'r prosiectau a gymeradwywyd ym mis Ionawr 2022 ar draws y tri chyfnod cyllido. Cyflwynwyd cyfanswm o 134 o geisiadau ar draws Cyfnodau 1, 2 a 3 ac mae cyfanswm o 60 o brosiectau wedi cael eu rhoi ar waith.

**Tabl 4.3: Ceisiadau ENRaW a gafwyd ac a gymeradwywyd**

| Cyfnod | Ceisiadau a gafwyd | Grant domestig y gofynnwyd amdano | Ceisiadau llwyddiannus | Buddsoddiad domestig a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 85 | £54.4m | 36[26] | £14.4m |
| Cyfnod | Datganiadau o ddiddordeb a gafwyd | | Gwahoddwyd i gyflwyno cais llawn | |
| 2 | 20 | | 5 (2 ohonynt wedi'u cymeradwyo) | £14.4m |
| 3 | 29 | | 19[27] (14 ohonynt wedi'u cymeradwyo a'u harfarnu, 6 yn aros am arfarniad a 9 yn aflwyddiannus) | £16.5m |
| Cyfanswm | 134 | | 60 | £45.3m |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Ionawr 2022)

4.57 Mae dadansoddiad o gronfeydd data Llywodraeth Cymru yn dangos bod y corff arweiniol wedi gwneud cais am gyllid ENRaW ar fwy nag un achlysur mewn 12 achos. Mewn tri achos, gwnaeth y corff arweiniol gais deirgwaith am gyllid ar gyfer yr un prosiect.

4.58 Adeg drafftio'r adroddiad hwn, mae proffil prosiectau Cyfnod 1 fel a ganlyn:

- mae chwe phrosiect mawr a gafodd gyfuniad o grant cyfalaf a refeniw gwerth £3 miliwn wedi'u cwblhau
- mae 10 prosiect mawr a gafodd gyfuniad o grant cyfalaf a refeniw gwerth £9.3 miliwn wedi'u cwblhau
- mae 22 yn brosiectau grant ar raddfa fach. O blith y rhain mae 8 yn brosiectau grant cyfalaf gwerth £0.513 miliwn - tri ohonynt ar y gweill a

[26] Bu 38 o geisiadau yn llwyddiannus i ddechrau ac o'r rhain mae 36 wedi cael eu rhoi ar waith.

[27] Bu 20 cais yn llwyddiannus ond mae un wedi tynnu'n ôl ers hynny

phump wedi'u cwblhau. Mae 14 yn brosiectau grant refeniw ar raddfa fach gwerth £0.5 miliwn sydd wedi'u cwblhau.

## 5. Nodau ac amcanion ENRaW

5.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r adborth a gasglwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â dylunio, datblygu a gweithredu ENRaW, gan gynnwys eu barn ynghylch yr hyn y bwriadwyd i'r cynllun ei gyflawni, sut y bwriadwyd ei weithredu a'r canlyniadau a ddisgwyliwyd. Mae hefyd yn ystyried barn prosiectau a ariannwyd ac a gyfwelwyd ar sut y mae eu prosiect yn cyd-fynd ag amcanion y cynllun.

**Pam y cyflwynwyd ENRaW a pha faterion y mae'n ceisio mynd i'r afael â nhw?**

5.2 Bwriad swyddogion Llywodraeth Cymru oedd i ENRaW fod yn gynllun cyllid grant traws-sector. Gan fod ENRaW yn cael ei sefydlu gyda chyllid o sawl maes polisi roedd angen iddo sicrhau y gellid cyflawni canlyniadau ar draws amcanion polisi amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol, economaidd, twristiaeth yn ogystal ag iechyd a llesiant. Roedd llunwyr polisïau yn rhagweld y byddai prosiectau a ariennir, gyda'i gilydd, yn cyflawni'r canlyniadau traws-bolisi hyn er nad oedd unrhyw ddisgwyliad y byddai unrhyw brosiect unigol yn eu cyflawni i gyd. Ystyriaeth allweddol felly wrth wneud penderfyniadau cyllido oedd sicrhau y byddai ystod eang o brosiectau yn cael eu cefnogi er mwyn cyflawni ystod eang o amcanion polisi. Er ei fod yn cefnogi'r bwriad hwn yn gyffredinol, rhybuddiodd un swyddog y gallai ei gwneud yn anodd mesur effaith y cynllun, gan y gallai'r gweithgareddau a ariennir fod yn rhy eang ac amwys i'w mesur.

5.3 Mae adborth gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i ehangu cylch gorchwyl eu prosiectau gwreiddiol fel rhan o'r broses ymgeisio fel y gallent gyflawni set ehangach o ganlyniadau. Er bod y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn meddwl bod eu prosiect arfaethedig eisoes yn ddigon eang i fodloni amcanion ENRaW, canfu'r gwaith maes sawl enghraifft lle roedd ymgeiswyr wedi cael eu hannog i ymestyn eu prosiect arfaethedig mewn rhyw ffordd. Mewn llawer o achosion, roedd hyn yn golygu ymestyn partneriaeth y prosiect ac roedd hyn yn cynnwys annog un ymgeisydd i weithio gyda phartner newydd

ychwanegol (Anabledd Cymru yn yr achoso hwn) i sicrhau bod anghenion defnyddwyr anabl yn cael eu diwallu.

5.4 Mewn achosion eraill, anogwyd prosiectau tair blynedd arfaethedig i fod yn fwy uchelgeisiol. Anogwyd un prosiect i ehangu ei waith gyda sefydliadau partner a arweiniodd yn ei dro at gyflwyno ac ariannu rôl Rheolwr Partneriaeth sydd ers hynny wedi galluogi'r prosiect i ymgysylltu â rhyw 30 o sefydliadau ychwanegol. Anogwyd prosiect arall gan Lywodraeth Cymru i ymestyn ei gylch gwaith i'r maes iechyd a llesiant. Yn yr achos hwn, cysylltodd y prosiect â phartner ychwanegol a oedd yn gweithredu yn y sector gofal iechyd cynaliadwy er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar lesiant. Yn yr achos hwn, cymerodd y bartneriaeth newydd beth amser i ddatblygu ac roedd y sefydliad arweiniol o'r farn ei bod yn debycach i berthynas rhwng contractwr a chyflenwyr yn hytrach na phartneriaeth.

5.5 Er bod anogaeth Llywodraeth Cymru i ehangu cylch gwaith prosiectau wedi cael ei chroesawu ar y cyfan, creodd hyn heriau i brosiectau ambell waith. Er enghraifft, nododd un prosiect o'r fath fod llawer o swyddogion polisi yn ceisio gwneud y prosiect yn fwy swmpus yn ystod y cam ymgeisio ac er y gellid ymgorffori'r rhan fwyaf o'r ceisiadau hyn yn weddol hawdd, nid oedd modd gwneud hynny gydag eraill megis ymgysylltu â thwristiaeth yn eu hachos nhw.

5.6 Credai swyddogion Llywodraeth Cymru fod dau ddatblygiad deddfwriaethol allweddol yn gosod y cyd-destun a’r angen sylfaenol am ENRaW, sef Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru). Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod cyflwyno’r deddfwriaethau newydd hyn yn golygu na fyddai’r dull ‘busnes fel arfer’ a fabwysiadwyd yn flaenorol, lle roedd cyllid grant a chyllid wedi’i neilltuo ar gael drwy dri chynllun cyllido ar wahân, yn helpu i gyflawni’r amcanion a nodir yn y ddeddfwriaeth newydd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ENRaW gyflawni egwyddorion Deddf yr Amgylchedd (Cymru), a’i Dyletswydd Adran 6 yn benodol, gan fod prosiectau a ariennir yn cefnogi gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth.

5.7 Disgwylir i ENRaW hefyd helpu i gyflawni nodau'r Ddeddf Llesiant gan i geisiadau gael eu hasesu yn erbyn eu cyfraniad disgwyliedig at y nodau hyn, yn enwedig y tri nod Cymru Ffyniannus, Cymru Gydnerth, a Chymru o Gymunedau Cydlynus. Dadleuodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru mai agenda'r Ddeddf Llesiant oedd 'prif flaenoriaeth' ENRaW, ac mai cynyddu maint ac ansawdd camau gweithredu amgylcheddol a arweinir gan y gymuned ddylai fyd yn brif amcan y gronfa.

5.8 Sbardun allweddol arall sydd i'w gyfrif am gyflwyno ENRaW oedd penderfyniad Gweinidogol i roi'r gorau i ddefnyddio cyllid craidd a newid i fodel cyllid grant, gan fod y dull newydd yn cynnig model cyllido mwy integredig i gefnogi darpariaeth arloesol, cyflawni amcanion traws-bolisi a chadw at ddeddfwriaeth newydd. O'r herwydd, cynlluniwyd ENRaW fel dull cyllido sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac roedd swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn ei fod yn cyfateb yn dda â'r dyheadau newid yn yr hinsawdd a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, Ffyniant i Bawb a'r egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

5.9 O ran cyfraniad ENRaW at safonau'r Gymraeg a'r strategaeth Cymraeg 2050, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod asesiad o'r effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal yn ystod y gwaith o ddatblygu'r cynllun. Adroddwyd hefyd bod ENRaW yn cadw at safonau'r Gymraeg yn yr ystyr:

- bod yr holl ddogfennau ymgeisio, canllawiau a gwybodaeth am y grant ar gael yn ddwyieithog
- cynhaliwyd digwyddiadau cyd-ddylunio yn ddwyieithog gan ddefnyddio cyfieithwyr ar y pryd
- gofynnwyd i ymgeiswyr ddisgrifio sut y byddai eu prosiect yn hyrwyddo'r Gymraeg. Mae ymgeiswyr yn nodi eu cynigion ar gyfer datblygu taflenni a byrddau dehongli dwyieithog ac annog cymunedau ac ymwelwyr i ddysgu am ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg.

5.10 Mae adborth ar y graddau y mae prosiectau a ariannwyd wedi mynd y tu hwnt i gydymffurfio â gofynion rheoleiddio'r Gymraeg ac wedi gwneud cyfraniad ystyrlon i rai o amcanion Cymraeg 2050 yn cael eu hystyried yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, ym Mhennod 7.

### Nodau ac amcanion cynllun ENRaW

5.11 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried ENRaW yn gynllun cyllido a fwriadwyd i dreialu arferion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae'r ffaith mai cynllun peilot ydyw yn golygu mai un canlyniad pwysig fydd dysgu am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio cystal, a bod angen rhannu gwersi'n agored yn hytrach na'u gweld fel gwendidau'r cynllun.

5.12 Disgrifiodd swyddogion Llywodraeth Cymru ENRaW hefyd fel cynllun cyllido y bwriedir iddo ysgogi gweithio mewn partneriaeth a chefnogi prosiectau cydweithredol, gan fod hwn yn un o ofynion allweddol egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Nodwyd bod y cynllun yn bwriadu hwyluso gweithio mewn partneriaeth ar draws awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector, a thrwy hynny wneud defnydd effeithiol o sgiliau a chapasiti. Disgwylir i brosiectau a ariennir ddangos dulliau gweithredu cryf sy'n seiliedig ar dirwedd ac ar le a chynnwys ystod eang o wahanol bartneriaid a grwpiau cymunedol. O ran dyluniad y cynllun, credai swyddogion Llywodraeth Cymru ei bod yn bwysig bod elfen o gronfa ENRaW ar gael ar gyfer cydweithredu a meithrin gallu partneriaethau yn ystod y flwyddyn gyntaf gan y byddai hyn yn caniatáu i sefydliadau llai gael eu cynnwys yn y cynllun. Ystyriwyd bod argaeledd cyllid i ddatblygu capasiti yn bwysig ac roedd hyn yn seiliedig ar adroddiad blaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru a oedd wedi tynnu sylw at y diffyg cydweithredu ar draws cynlluniau cyllid grant blaenorol.

5.13 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried bod y cynllun yn darparu cyllid i brosiectau fel y gallant wella'r adnoddau naturiol yn y mannau ble mae pobl yn byw ac annog cymunedau lleol i gymryd mwy o berchnogaeth dros yr adnoddau hyn. Mae'r rhain yn ddeilliannau disgwyliedig pwysig ar gyfer y cynllun sydd wedi'u hadlewyrchu ym model rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid.

5.14 Un o amcanion allweddol eraill ENRaW a godwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfweliadau cwmpasu oedd y dylai prosiectau a ariennir ganolbwyntio'n gryf ar ganlyniadau iechyd a llesiant.

Roedd disgwyl i'r rhain gael eu cyflawni drwy'r canlyniadau 'cymdeithasol' a ddisgwylir gan y cynllun (mae'r canllawiau'n nodi pedwar maes canlyniadau, sef canlyniadau economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol). Nodwyd bod rhai prosiectau a ariannwyd yn cynnig darparu gweithgareddau a fyddai'n cyflawni canlyniadau llesiant yn uniongyrchol e.e., darparu gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol neu bresgripsiynu gwyrdd ar gyfer cymunedau lleol neu greu neu wella llwybrau troed a llwybrau y gellid eu defnyddio gan aelodau'r gymuned leol. Roedd prosiectau eraill yn fwy amwys o ran y canlyniadau llesiant y byddent yn eu cyflawni.

5.15 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru o’r farn mai un o brif gryfderau'r broses a fabwysiadwyd i ddylunio’r cynllun grant oedd cyd-ddylunio ENRaW â’r sector ehangach. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n eang ar ddatblygiad y cynllun grant gan ei fod yn cael ei gyflwyno i ddisodli tair rhaglen gyllido. Credai'r swyddogion fod Llywodraeth Cymru wedi ystyried safbwyntiau ac adborth y sector yn effeithiol. O ganlyniad, credwyd bod y cynllun wedi'i ddylunio fel cynllun grant hyblyg a allai gefnogi prosiectau cyfalaf ar raddfa fach a mawr yn ogystal â phrosiectau a ariennir gan refeniw gyda'r nod o ddatblygu partneriaethau a phrosiectau cydweithredol newydd.

5.16 Teimlai'r prosiectau a gyfwelwyd fod nodau ac amcanion ENRaW yn cyd-fynd yn arbennig o dda â'r hyn yr oeddent am ei gyflawni, ac roeddent yn hoff iawn o'r dull cyfannol a fabwysiadwyd. Mae'r prosiectau a ariannwyd yn llwyr werthfawrogi mai cynllun cyllido sy'n canolbwyntio ar egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw ENRaW, a chafwyd cefnogaeth eang i hyn o ystyried nad oes cronfa arall debyg ar gael. Roedd y prosiectau a ariannwyd yn credu bod egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a nodau'r Ddeddf Llesiant yn hynod berthnasol a phriodol i'r gweithgareddau a ariannwyd gan y cynllun. Mae ENRaW yn apelio at brosiectau a ariennir gan ei fod yn gynllun traws-bolisi sy’n dod â phobl a natur ynghyd i gyflawni amcanion economaidd, cymdeithasol a llesiant.

5.17 Nododd y prosiectau a gyfwelwyd mai cryfderau cynllun ENRaW oedd:

- ei ddull cyllido cymharol hirdymor dros gyfnod o dair blynedd sy'n caniatáu ar gyfer trawsnewidiad
- y ffaith ei fod yn cynnig cyllid refeniw a chyllid cyfalaf, sy'n galluogi prosiectau i benodi staff i oruchwylio gweithrediad prosiectau cyfalaf
- ei fodel cyllido adennill costau llawn, sy'n galluogi prosiectau i gyflawni prosiectau yn eu cyfanrwydd heb fod angen sicrhau ffynonellau cyllid eraill
- ei ffocws ar gydweithio, er mwyn sicrhau y gall y canlyniadau a gyflawnir fod yn fwy na'u helfennau unigol.

**Rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r cynllun grant a sut y disgwylir i ENRaW greu newid**

5.18 Wrth ddylunio’r cynllun, rhagdybiwyd y byddai ENRaW yn gallu gwneud y mwyaf o’r adnoddau ariannol sydd ar gael i brosiectau pe gallai Llywodraeth Cymru sicrhau cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig i roi arian cyfatebol ar gyfer y cyllid domestig sydd ar gael, gan gyflawni mwy o allbynnau a chanlyniadau.

5.19 Rhagdybiwyd hefyd y byddai cyflawni allbynnau prosiectau tymor byr yn rhoi syniad o'r canlyniadau tymor hwy a fyddai'n cael eu cyflawni drwy ENRaW yn y pen draw. Mae llawer o'r canlyniadau y disgwylir i'r cynllun eu cyflawni yn rhai hirdymor eu natur ac ni ddisgwylir iddynt gael eu cyflawni dros gyfnod y prosiectau. Rhagdybiwyd felly y gellid defnyddio allbynnau megis cynnydd mewn coed a gwrychoedd a blannwyd fel dangosyddion procsi i ddangos y byddai canlyniadau tymor hwy, megis gwelliant mewn amodau amgylcheddol, yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, nid yw rhagdybiaethau o'r fath bob amser yn cael eu gwireddu. Er enghraifft, gall gweithgareddau fel casglu sbwriel arwain at welliant byrdymor ar unwaith ond nid ydynt o reidrwydd yn newid ymddygiad pobl, felly efallai na fydd gostyngiad tymor hwy mewn sbwriel. O ganlyniad, mae nifer o'r canlyniadau a nodir ym model rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid yn ymwneud â newid ymddygiad cymunedau (e.e., mwy o gyfrifoldeb ceidwad am y mannau gwyrdd newydd sy'n cael eu creu a'u gwella) gan y bydd y rhain yn caniatáu i ganlyniadau tymor byr gael eu cynnal yn barhaus.

5.20 Rhagdybiaeth allweddol arall yw y byddai digon o ddiddordeb gan sefydliadau i wneud cais am gyllid drwy gynllun cyllido cystadleuol. Roedd disgwyl i natur gystadleuol y gronfa arwain at gefnogi prosiectau o'r ansawdd gorau, a oedd yn cyd-fynd orau â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

5.21 Rhagdybiwyd hefyd y byddai dulliau cydweithredol a gweithio mewn partneriaeth yn fwy effeithiol na chamau gweithredu unigol o ran gwneud gwahaniaeth a sicrhau cynaliadwyedd tymor hwy. Er mwyn cyflawni prosiectau cydweithredol effeithiol, rhagdybiodd Llywodraeth Cymru fod angen cyllid i feithrin capasiti a gallu ar draws y sector.

5.22 Rhagdybiaeth arall a wnaed gan swyddogion Llywodraeth Cymru oedd na fyddai pob prosiect ENRaW yn llwyddiannus. O ystyried mai bwriad y cynllun oedd cefnogi dulliau arloesol peilot, roedd yn dilyn y byddai rhai prosiectau'n llwyddo ac y byddai eraill yn methu.

5.23 Rhagdybiaeth derfynol o ran ENRaW yw y dylai cyllido ystod eang o brosiectau arwain at gyflawni ystod eang o ganlyniadau. Byddai'r canlyniadau a gyflawnir gan bob prosiect yn unigryw ond serch hynny dylent gael eu llywio gan y gyfres o allbynnau a chanlyniadau a nodir yn nogfennau cyfarwyddyd y cynllun.

**Effaith ffactorau allanol ar gyflawni canlyniadau llwyddiannus**

5.24 Yn y cyfweliadau cwmpasu gyda Llywodraeth Cymru, nodwyd tri ffactor allanol allweddol sydd wedi effeithio ar gynllun ENRaW, a chaiff y rhain eu hystyried yn eu tro ym Mhennod 7 yn yr adroddiad hwn. Ystyriwyd mai'r ffactorau allanol allweddol oedd y pandemig COVID-19; trosglwyddo gweinyddiaeth y cynllun o broses grantiau domestig Llywodraeth Cymru i Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â manylebau'r Comisiwn Ewropeaidd a ffactorau unigryw ar lefel prosiect a fydd wedi effeithio ar sefyllfaoedd prosiectau unigol.

5.25 Ystyriwyd bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar weinyddu ENRaW mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, gofynnodd Llywodraeth Cymru i brosiectau Cyfnod 1 nodi unrhyw arbedion ariannol y gellid eu mabwysiadu yn ystod

2020/21, oherwydd eu hanallu i gyflawni yn unol â'r bwriad oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru ailddyrannu arian i'r ymateb brys rheng flaen i'r pandemig. O ganlyniad, gostyngwyd gwariant ENRaW yn ystod 2020/21. Llwyddodd rhai prosiectau Cyfnod 1 i ailbroffilio eu gwariant dros y blynyddoedd a oedd yn weddill ond nid oedd eraill yn gallu gwneud hynny ac roedd yn rhaid iddynt leihau eu gwariant cyffredinol. Yn ail, effeithiwyd ar linell amser ymgeisio Cyfnod 2 gan oedi oherwydd y pandemig.

5.26 Credwyd hefyd bod y pandemig wedi cael effaith ar allu prosiect Cyfnod 1 i gyflawni eu rhaglenni gwaith arfaethedig, ac y byddai hyn wedi cael effaith negyddol ar eu cyflawniadau a'u canlyniadau. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod llawer o brosiectau wedi gorfod rhoi'r gorau i'w gweithgareddau arfaethedig a diwygio eu cynlluniau cyflawni, eu hamserlenni a'u cyllidebau yn unol â hynny. Dywedwyd hefyd bod y pandemig wedi lleihau gallu rhai o'r sefydliadau i ddatblygu partneriaethau effeithiol ac ymgysylltu ag eraill.

5.27 Yn olaf, dywedwyd y byddai'r pandemig wedi effeithio ar ymddygiad pobl o ran gwneud mwy o ddefnydd o'u mannau gwyrdd lleol ar gyfer hamdden ac ymarfer corff yn ystod y cyfnod clo ac mae mwy o dueddiadau gweithio gartref wedi golygu bod pobl yn cael mwy o fynediad i'w hardaloedd lleol yn ystod y dydd.

5.28 Yr ail ffactor allanol allweddol yr oedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn credu ei fod wedi effeithio ar y cynllun oedd y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r cynllun gwreiddiol i sefydlu Cangen Rheoli Rhaglenni a Chyflwyno Llywodraeth Cymru fel Corff Cyfryngol ond yn hytrach i weinyddu'r cynllun drwy RPW ar ôl derbyn cronfeydd y Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer Cyfnodau 2 a 3. Mae adborth gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod y broses o weinyddu grantiau Cyfnod 1 wedi bod yn ddidrafferth ond bod llawer o heriau wedi codi yng Nghyfnodau 2 a 3. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod proses ymgeisio Cyfnod 1 wedi'i chwblhau o fewn yr amserlen a osodwyd, gyda llythyrau dyfarnu grant yn cael eu hanfon cyn diwedd mis Mawrth 2019 yn unol â'r bwriad.

5.29 Mae'r amser a gymerir i gymeradwyo ceisiadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi lleihau'r amser sydd ar gael ar gyfer cyflawni prosiectau, gan greu risg na fydd prosiectau Cyfnodau 2 a 3 yn gallu gwario'r arian a ddyrannwyd iddynt. Awgrymodd swyddogion Llywodraeth Cymru nad oedd ymgeiswyr llwyddiannus yn barod i fwrw ymlaen a chymryd risg, er iddynt gael eu hysbysu yn gynharach y gallent wneud hynny. Roedd pryder allweddol a godwyd yn ystod y cyfweliadau cwmpasu yn ymwneud â'r tanwariant ar draws prosiectau Cyfnodau 2 a 3 oherwydd yr oedi hwn.

5.30 Teimlwyd bod materion yn ymwneud â chaniatâd cynllunio, y tywydd, materion yn ymwneud â thymhorau, oedi gyda chontractwyr, ac anghydfodau rhwng partneriaid prosiectau ymysg y ffactorau allanol cyffredin eraill a fyddai wedi effeithio ar brosiectau unigol.

## 6. Gweinyddu'r grantiau

6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried trefniadau gweinyddu'r grantiau ar gyfer gweithredu ENRaW. Yn gyntaf mae'n ystyried goblygiadau trosglwyddo trefniadau gweinyddu'r cynllun o broses grantiau domestig Llywodraeth Cymru (a oedd ar waith ar gyfer Cyfnod 1) i Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru (a oedd ar waith ar gyfer Cyfnodau 2 i 3), gan gyfeirio at gyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru. Yna mae'n ystyried barn ymgeiswyr a ymatebodd i'r arolwg a'r prosiectau a gyfwelwyd ynghylch y ffordd y gweinyddwyd y grant gan gynnwys y dulliau o glywed am ENRaW, y broses ymgeisio, y broses asesu a dyfarnu, adrodd, a monitro a gwerthuso.

**Newidiadau yn y broses weinyddol**

6.2 Roedd adborth gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod newid trefniadau gweinyddu'r cynllun o broses grantiau domestig Llywodraeth Cymru i'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi creu nifer o broblemau, gan gynnwys y canlynol:

- bu'n rhaid i bum ymgeisydd llwyddiannus a gyflwynodd eu ceisiadau o dan alwad am gynigion ar gyfer cyllid domestig Cyfnod 1 i ddechrau ailymgeisio drwy RPW er mwyn bodloni gofynion cyllido'r UE a chael gafael ar gyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig
- dyfarnwyd cyllid i rai o geisiadau mwy Cyfnodau 2 a 3 ar gyfer eu cyfnod cychwynnol yn unig (blwyddyn fel arfer), a oedd yn aml yn cynnwys astudiaeth ddichonoldeb, gyda'r cyllid a oedd yn weddill yn cael ei ryddhau ar yr amod bod y cam cyflawni cychwynnol yn dangos yr angen am y prosiect.
- awgrymwyd nad oedd gan RPW ddigon o adnoddau i weinyddu Cyfnodau 2 a 3 y cynllun ac nad oedd yn gweithredu mewn modd a oedd yn diwallu anghenion prosiectau a ariannwyd yn y ffordd orau. Er mwyn diwallu'n well anghenion prosiectau a ariannwyd, pan gynhaliwyd ein gwaith maes roedd RPW yn bwriadu cyflwyno rheolwr perthynas i'r tîm er mwyn rheoli cyfrifon prosiectau ENRaW a helpu i

ddatrys unrhyw broblemau'n ymwneud â hawliadau a wynebwyd gan y prosiectau

- cafodd ceisiadau dros £1 miliwn ar gyfer Cyfnodau 2 a 3 dros eu hadolygu gan bwyllgor craffu annibynnol. Ystyriwyd bod hyn wedi ychwanegu at yr amserlenni ar gyfer cymeradwyo ceisiadau. Nododd rhai o swyddogion Llywodraeth Cymru nad oedd gan aelodau'r panel arbenigedd yn y meysydd amgylcheddol a bioamrywiaeth. Mewn ymgais i ddatrys y diffyg arbenigedd, gwnaed trefniadau i un o swyddogion polisi Llywodraeth Cymru fynychu'r pwyllgor craffu i roi cyngor ac arweiniad arbenigol ar geisiadau ENRaW ac ymateb i ymholiadau gan aelodau'r pwyllgor ynghylch ceisiadau unigol
- mae prosesau gweinyddu grantiau'r Rhaglen Datblygu Gwledig a weinyddir gan RPW yn fwy addas i ddiwallu anghenion hawliadau am daliadau sengl gan ffermydd ac nid ydynt wedi'u cynllunio i gynnwys prosiectau mwy cymhleth sydd ag allbynnau llai pendant a chanlyniadau ehangach. Mae asesu gwerth posibl am arian ceisiadau ENRaW wedi bod yn her i RPW oherwydd eu hallbynnau ehangach, 'meddalach' a llai pendant. Awgrymwyd nad oedd ENRaW yn cyd-fynd yn dda â gofynion a phrosesau cyllido y Rhaglen Datblygu Gwledig oherwydd ei amcanion ehangach, megis meithrin gallu a datblygu partneriaethau newydd, ac oherwydd y nifer fawr o bartneriaid sy'n ymwneud â phob prosiect. Rhaid i bob partner prosiect ystyried unrhyw ymholiadau neu gais am newid gan RPW er enghraifft, sy'n ychwanegu at gymhlethdod y broses.
- dywedwyd yn gyffredinol nad yw prosiectau yn hoff o gysylltu ag RPW drwy'r porth ar-lein, gan ei fod yn ddull amhersonol. Fodd bynnag, mae'r porth yn galluogi RPW i gofnodi pob ymholiad a sicrhau bod ymholiadau'n cael eu cyfeirio at yr aelod mwyaf priodol o'r tîm.

6.3 Awgryma'r adborth gan swyddogion Llywodraeth Cymru fod ymgeiswyr Cyfnodau 2 a 3 wedi:

- wynebu oedi hir cyn cael hysbysiad ffurfiol o gyllid. Ar ôl i'r Datganiadau o Ddiddordeb gael eu cymeradwyo, roedd yn ofynnol i

ymgeiswyr gyflwyno cais llawn o fewn cyfnod o chwe mis. Roedd disgwyl i brosiectau Cyfnod 2 gael cymeradwyaeth ffurfiol ym mis Mawrth 2020 (a oedd, yn anffodus, yn cyd-daro â'r brigiad o COVID-19 a'r cyfnod clo cyntaf), felly ni wnaethpwyd hynny tan ganol i ddiwedd 2021

- wynebu mwy o ofynion i'w bodloni drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig mewn perthynas â cheisiadau
- gorfod ailbroffilio eu gwariant er mwyn ystyried yr oedi cyn iddynt allu dechrau ar eu gweithgaredd
- bod yn destun archwiliad ôl-weithredol diweddar, a weinyddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd drwy RPW ar draws yr holl weithgareddau a ariannwyd gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, sydd wedi rhoi baich ychwanegol ar bob prosiect a ariannwyd gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, gan gynnwys prosiectau ENRaW. Bellach disgwylir i brosiectau gyflwyno tystiolaeth gaffael cyn gwneud hawliad ariannol i RPW.

6.4 Prif oblygiad yr oedi sy'n gysylltiedig â chymeradwyo prosiectau Cyfnodau 2 a 3 yw bod y prosiectau mewn perygl o fethu â chyflawni eu hamcanion hirdymor ac roedd awgrym cryf bod prosiectau:

'ddim bellach yn rhaglenni tair blynedd sy'n ysgogi newid hirdymor - maent yn weithgareddau gorchwyl a gorffen mwy traddodiadol. Rhai o'r pethau y bu'n rhaid eu hepgor yw'r pethau a fyddai'n ysgogi pobl i newid eu hymddygiad'.


6.5 Nid oedd swyddogion Llywodraeth Cymru ychwaith yn gallu rhoi digwyddiadau a gynlluniwyd ar waith i alluogi prosiectau i rannu profiadau ac arfer da, yn debyg i gynlluniau grant eraill fel yr SMS. Roedd hyn oherwydd cyfyngiadau COVID-19 ond hefyd yn ddiweddarach oherwydd diffyg adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru i gynnal y digwyddiadau hyn.

**Dod i glywed am ENRaW a chael gwybodaeth am y cynllun**

6.6 Roedd ymgeiswyr ENRaW wedi ei chael hi'n hawdd cael gafael ar wybodaeth am y cynllun. Roedd y rhan fwyaf o'r 45 o ymatebwyr i'r arolwg

wedi ei chael hi’n hawdd iawn (pump) neu’n weddol hawdd (33) cael gafael ar wybodaeth a dim ond chwech oedd wedi’i chael hi’n anodd[28]. Y dull mwyaf cyffredin o ddod i glywed am ENRaW oedd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, er bod sefydliadau eraill neu gydweithwyr a ffrindiau hefyd yn ffynonellau pwysig, fel y dangosir yn Ffigur 6.1. Ystyriwyd bod 'gweithdai' Llywodraeth Cymru yn 'ddefnyddiol iawn' o ran ddarparu briff manwl am yr hyn a ystyriwyd yn 'brosiect eithaf dwys a chymhleth'.

**Ffigur 6.1: Dulliau o ddod i glywed am ENRaW**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein gan OB3 (45 o ymatebion) Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn

6.7 Roedd yr awgrymiadau a gynigiwyd gan yr ymgeiswyr a ymatebodd i'r arolwg a phrosiectau a gyfwelwyd i wella'r wybodaeth i ddarpar ymgeiswyr yn cynnwys:

- sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd y rhai nad oeddent yn derbyn cyllid drwy gynlluniau blaenorol Llywodraeth Cymru
- symleiddio'r iaith a ddefnyddir gan y credwyd bod y wybodaeth yn cynnwys 'llawer o jargon ac yn amleiriog' oherwydd bod y cynllun yn cael ei ariannu drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig a oedd yn golygu bod 'cael gafael ar gyllid yn eithaf elitaidd'

[28] Nid oedd un ymatebwr i'r arolwg yn gwybod.

- sicrhau bod darpar ymgeiswyr yn cael mwy o wybodaeth am y trothwyon ariannol ar gyfer cyllid grant domestig Cyfnod 1 (gan fod ceisiadau uwchlaw'r trothwy hwn yn dod yn gymwys ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig) fel bod modd sicrhau bod syniadau prosiectau yn haws eu trin.

**Canllawiau a chyngor ENRaW**

6.8 Mae'r canllawiau ysgrifenedig a chyhoeddedig am ENRaW wedi cael eu croesawu'n frwd gan yr ymgeiswyr. Roedd tri chwarter yr ymgeiswyr yng Nghyfnod 1 a gymerodd ran yn yr arolwg (27 o blith 36) o’r farn bod canllawiau Cyfnod 1 Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol iawn neu’n weddol ddefnyddiol a dim ond llond llaw (chwech) a ddywedodd nad oeddent yn ddefnyddiol. Roedd cyfran debyg (tri chwarter) o ymgeiswyr Cyfnodau 2 a 3 a ymatebodd i'r arolwg (17 o blith 27) o'r farn bod y canllawiau ymgeisio yn 'weddol ddefnyddiol' neu'n 'ddefnyddiol iawn'. O ran y sylwadau a wnaed am y canllawiau gan yr ymgeiswyr a gymerodd ran yn yr arolwg a'r prosiectau a gyfwelwyd, ar draws yr holl gyfnodau cyllido, dywedwyd eu bod yn 'ddarllenadwy a hygyrch', 'cynhwysfawr' a 'hawdd eu deall'.

6.9 Ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o blatfform Yammer ar y cam ymgieisio gan y prosiectau a gyfwelwyd, ond gallai rhai gofio bod hwn ar gael a'u bod wedi ceisio ei ddefnyddio, ac ar y cyfan nid oedd y prosiectau a gyfwelwyd yn gweld llawer o werth i'r ddarpariaeth hon. Un ffactor posibl sy’n gyfrifol am y diffyg defnydd fyddai cyfyngiadau TG mewnol ar draws sefydliadau ac felly awgrymwyd efallai y dylai unrhyw fecanwaith cyllid grant yn y dyfodol ystyried platfform digidol mwy cyffredin.

6.10 Roedd ychydig yn llai na hanner yr ymgeiswyr Cyfnod 1 a gymerodd ran yn yr arolwg (15 o blith 36) o’r farn bod y cyngor neu’r adborth a ddarparwyd gan dîm Cangen Rheoli Rhaglenni a Chyflwyno Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol iawn neu’n weddol ddefnyddiol. Roedd cyfran debyg (14 o blith 36) o’r farn bod y cyngor a ddarparwyd gan swyddogion polisi sector Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol iawn neu’n weddol ddefnyddiol hefyd. Roedd chwarter neu lai o’r farn bod y cyngor a ddarparwyd gan bob un o’r ddau dîm gwahanol hyn yn llai defnyddiol iddynt (naw yn achos y Gangen

Rheoli Rhaglenni a Chyflwyno a saith yn achos swyddogion polisi sector y llywodraeth). Nid oedd gweddill yr ymatebwyr i'r arolwg mewn sefyllfa i wneud sylwadau ar unrhyw gyngor a ddarparwyd.

6.11 Gofynnwyd yr un cwestiwn i ymgeiswyr Cyfnodau 2 a 3 a gymerodd ran yn yr arolwg. Roedd ychydig yn llai na hanner yr ymgeiswyr Cyfnodau 2 a 3 a ymatebodd i'r arolwg (12 o blith 27) o’r farn bod y cyngor neu’r adborth a ddarparwyd gan dîm Cangen Rheoli Rhaglenni a Chyflwyno Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol iawn neu’n weddol ddefnyddiol. Fodd bynnag, roedd cyfran lai o'r farn bod y cyngor gan swyddogion polisi'r sector (8 o blith 27) neu Daliadau Gwledig Cymru (7 o blith 27) yn ddefnyddiol iawn neu'n weddol ddefnyddiol. Yn wir, mae’n werth nodi nad oedd dros chwarter (8 o blith 27) yn credu bod y cyngor gan Daliadau Gwledig Cymru yn ddefnyddiol.


6.12 Mae’r adborth yn awgrymu bod y cyngor a ddarparwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwahaniaeth i ymgeiswyr. Roedd hanner (18 o blith 36) yr ymatebwyr i'r arolwg ar gyfer Cyfnod 1 a dwy ran o bump (11 o blith 27) o'r ymatebwyr i'r arolwg ar gyfer Cyfnodau 2 a 3 o'r farn ei fod wedi gwneud ychydig o wahaniaeth neu wahaniaeth sylweddol i'w cais.

**Y broses ymgeisio**

6.13 Cymysg yw'r adborth a gafwyd am broses ymgeisio ENRaW, gyda’r rhai a ymgeisiodd yn ystod Cyfnod 1 yn rhoi adborth llawer mwy cadarnhaol yn gyffredinol na’r rhai a ymgeisiodd yn ystod Cyfnodau 2 a 3. Disgrifiodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr Cyfnodau 2 a 3 eu proses ymgeisio mewn termau negyddol, gan ddefnyddio geiriau fel 'hunllef', 'erchyll' a 'llanast' i ddisgrifio eu profiadau.

6.14 Mae adborth gan 36 o ymgeiswyr Cyfnod 1 a gymerodd ran yn yr arrolwg yn dangos, er bod rhai yn ystyrired bod y broses ymgeisio gychwynnol wedi bod yn gymharol hawdd, roedd eraill wedi ei chael hi'n anodd. Dywedodd y prosiectau a gyfwelwyd fod y profiad o wneud cais wedi bod yn eithaf syml yn gyffredinol yn ystod Cyfnod 1.


**Ffigur 6.2: Barn ymgeiswyr Cyfnod 1, a gymerodd ran yn yr arolwg, ynghylch y broses ymgeisio**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (36 o ymgeiswyr Cyfnod 1)

6.15 Dengys adborth gan 27 o ymgeiswyr Cyfnodau 2 a 3 a gymerodd ran yn yr arolwg a 10 o brosiectau Cyfnod 2 a 3 a gyfwelwyd[29] fod tua'u hanner yn ystyried bod y broses Datgan Diddordeb yn hawdd iawn neu'n weddol hawdd. Roedd dros eu hanner o'r farn fod porth ar-lein WEFO yn anodd ei ddefnyddio.

**Ffigur 6.3: Barn ymgeiswyr Cyfnodau 2 a 3, a gymerodd ran yn yr arolwg, ynghylch y broses ymgeisio**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (27 o ymgeiswyr Cyfnodau 2 a 3)

### Adborth ar broses ymgeisio Cyfnod 1

[29] Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y ddwy ffynhonnell dystiolaeth hyn gan fod 21 o brosiectau a gyfwelwyd hefyd wedi cwblhau'r arolwg ar-lein.

6.16 Nodwyd prif gryfderau’r broses ymgeisio fel a ganlyn:

- gallu cyfarfod a siarad â swyddogion Llywodraeth Cymru. Soniodd ymgeiswyr Cyfnod 1 am fanteision cael 'cysylltiad uniongyrchol â swyddogion prosiect' wyneb yn wyneb i 'egluro un neu ddau o bethau ynghylch y cais' a 'chael aseswr cynllun enwebedig y gallwn ei ffonio neu anfon e-bost yn uniongyrchol ato gydag unrhyw gwestiynau neu i ofyn am eglurder'. Dywedodd rhai ymgeiswyr o Gyfnodau 2 a 3, er bod cael swyddog achos penodedig yn ystod eu proses ymgeisio wedi bod yn ddefnyddiol, roedd y ffaith y bu'n rhaid iddynt weithredu o fewn 'system hynod rwystredig a hirfaith' a'r ffaith nad oedd gan y swyddogion yr oeddent yn delio â nhw ddealltwriaeth fanwl o'r gofynion, roedd hyn wedi eu gwneud yn llai defnyddiol:

  'roedd gennym enw cyswllt yn ystod y broses gymeradwyo, ond nid oedd bob amser yn gwybod popeth yr oedd angen i ni ei wybod a daeth yn ôl atom ar sawl achlysur i gael rhagor o wybodaeth y gofynnwyd amdani yn ddiweddarach gan gydweithiwr arall'.

- ffurflen gais syml fel rhan o Gyfnod 1 a fabwysiadodd ddull pragmatig o ddangos ei fod yn cyd-fynd â strategaethau cenedlaethol a lleol:

  'Roedd y dull ticio blychau o ymdrin â Strategaethau a Chynlluniau Cenedlaethol a Lleol yn llawer cyflymach na fersiynau diweddarach o'r ffurflenni ac yn ymddangos yn fwy synhwyrol na'r dull a fabwysiadwyd mewn cyfnodau diweddarach a arweiniodd at ailadrodd a dyblygu'.

6.17 Roedd y prif awgrymiadau a gyflwynwyd i wella proses ymgeisio Cyfnod 1 yn cynnwys:

- cael un pwynt cyswllt drwy gydol y broses ymgeisio a fyddai wedi sicrhau bod ymgeiswyr wedi cael 'cyngor mwy cyson gan [yr un] swyddog achos penodedig'

- cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb syml a byr a gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu'r manylion yn ystod y cam ymgeisio llawn, a fyddai'n caniatáu i ymgeiswyr ddarparu mwy o fanylion am gyflawniad

gweithredol a llai ar ganlyniadau a 'threulio amser yn cyfiawnhau pethau yn erbyn polisïau'

- ymatebion mwy amserol gan staff Llywodraeth Cymru yn ystod y broses o ailgyflwyno cynlluniau cyflawni a lleihau'r amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau a fyddai'n helpu i ddileu'r angen i ailbroffilio amserlenni a chyllidebau prosiectau:

  'roedd yn rhaid i ni wedyn ddatblygu cynllun cyflawni - a gymerodd 5 mis a 6 drafft oherwydd bob tro y cafodd ei anfon yn ôl at Lywodraeth Cymru, mae'n debyg bod rhywun gwahanol yn edrych arno a oedd â barn wahanol ynghylch yr hyn yr oedd angen i ni ei wneud cyn ei fod yn dderbyniol a faint o allbynnau a pharamedrau y byddai angen i ni eu cynnwys. Dwi ddim yn siŵr a oedd hyn oherwydd mai dyma oedd y cyfnod cyntaf ac nad oedd Llywodraeth Cymru yn siŵr am beth roedd yn chwilio, ond nid oedd yn hawdd o bell ffordd a chafodd effaith ariannol arnom gan nad oeddem yn gallu hawlio unrhyw gyllid tan 6 mis ar ôl i'r prosiect ddechrau ac erbyn hynny roeddem wedi gwario ein holl gronfeydd wrth gefn fwy neu lai, a mwy'.

**Adborth am broses ymgeisio Cyfnodau 2 a 3**

6.18 Ar y cyfan, croesawyd yr egwyddor o gyflwyno'r cam Datgan Diddordeb fel rhan o Gyfnodau 2 a 3, ynghyd â'r cyfle i'r holl ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus gyda'u Datganiad o Ddiddordeb fynychu cyfarfod briffio yn ystod y cam ymgeisio llawn. Dadleuodd un ymgeisydd fod cael Datganiad o Ddiddordeb llwyddiannus:

'wedi ein helpu i gadw diddordeb y bartneriaeth yn ystod proses gymeradwyo hirfaith… gan ein bod yn gwybod ein bod yn eithaf sicr o gael yr arian bryd hynny'.

6.19 Fodd bynnag, roedd sawl prosiect a gyfwelwyd wedi ei chael hi'n anodd cwblhau'r Datganiad o Ddiddordeb ei hun gan fod angen iddo ddangos bod y prosiect yn cyd-fynd ag amcanion polisi yn hytrach na bod yn gyfle i rannu'r hyn y bwriadwyd i'r prosiect ei gyflawni. Nid oedd gan rai o'r bobl a oedd yn ysgrifennu cynigion brofiad blaenorol o hyn:

'Pe bawn i wedi cyflwyno'r cais a ysgrifennais yn wreiddiol, fydden ni ddim wedi llwyddo. Fe wnes i ei roi i rywun...a oedd wedi bod drwy'r broses hon...ac fe wnaethon nhw sylweddoli nad oedd yn addas. Roeddwn i wedi ysgrifennu am y prosiect. Roedd Llywodraeth Cymru am i mi gyfeirio at bolisïau. Roedd yn rhaid i mi ailstrwythuro'r cais yn llwyr'.

6.20 Cynigiwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer gwella prosesau ymgeisio Cyfnodau 2 a 3, gan gynnwys:

- gallu delio'n uniongyrchol â swyddogion achos unigol sydd â dealltwriaeth o'r cynllun, heb y 'broses astrus o ofyn cwestiynau drwy RPW a WEFO'
- yr angen am fwy o adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru i ymateb i geisiadau a'u cymeradwyo'n gynt gan fod barn gyffredin bod adnoddau staff yn brin
- ei gwneud yn haws i ymgeiswyr ddisgrifio eu prosiect yn ystod y cam Datgan Diddordeb yn hytrach na dangos eu cyfatebiaeth â pholisïau a dangosyddion cyfeirio. Ymhlith y sylwadau a wnaed roedd y canlynol:

  'roedd y cwestiynau wedi'u geirio mewn ffordd nad oedd yn ei gwneud yn hawdd disgrifio'r prosiect'


  'roedd y ffurflen gais [h.y., y Datganiad o Ddiddordeb] yn ymwneud â sut roedd eich prosiect yn cyd-fynd â'r polisïau ac nid yr hyn yr oedd y prosiect yn mynd i'w wneud a'i gyflawni. Yn y bôn, roedd yn rhaid i chi gyflwyno'r pethau'n ymwneud â pholisi er mwyn llwyddo felly os nad oeddech chi'n gyfarwydd â'r hyn oedd ei angen, doedd [gennych chi] ddim siawns o sgorio'n ddigon uchel. Does ryfedd bod staff Llywodraeth Cymru wedi gorfod siarad â ni er mwyn ei ddeall yn ddiweddarach yn y broses.'

**Asesu ceisiadau**

6.21 O ran yr amser a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i asesu ceisiadau, mae'r adborth a nodir yn Ffigur 6.4 yn awgrymu mai ychydig dros draean o ymgeiswyr Cyfnod 1 (13 o ymatebwyr) a dim ond tri ymgeisydd o Gyfnodau 2 a 3 oedd yn credu bod yr amserlenni'n dderbyniol. Yn wir, roedd dros dri

chwarter ymgeiswyr Cyfnodau 2 a 3 (17 o blith 27 o ymgeiswyr) yn ystyried bod yr amser a gymerwyd i asesu ceisiadau wedi bod yn rhy hir.

**Ffigur 6.4: Barn ymgeiswyr ynghylch yr amser a gymerwyd i asesu ceisiadau**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (36 ymgeisydd Cyfnod 1 a 27 o ymgeiswyr Cyfnodau 2 neu 3)

6.22 O ran yr adborth a ddarparwyd ar y broses asesu, roedd y materion a godwyd yn berthnasol i Gyfnodau 2 a 3 yn bennaf ac yn cynnwys y canlynol:

- oedi wrth gymeradwyo ceisiadau llawn: roedd sawl prosiect Cyfnodau 2 a 3 wedi profi oedi hir iawn cyn clywed canlyniad eu cais ac wedi cael caniatâd i fwrw ymlaen a chymryd risg, ac yna oedi pellach cyn derbyn llythyr cynnig ffurfiol. Nid oedd yn anarferol i brosiectau ddweud:

  'roedd y broses gymeradwyo yn hirfaith'

  'cymerodd bron i 12 mis i gymeradwyo'r Datganiad o Ddiddordeb'

  'roedd y bwlch rhwng cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb, cael gwybod am ei lwyddiant, a'n gwahodd i wneud cais llawn yn rhy hir – tua chwe mis os cofiaf yn iawn. Fe wnaeth y broses o asesu'r cais llawn gymryd gormod o amser hefyd. Roedd y cyfuniad o'r ddau yn golygu ein bod wedi colli bron i flwyddyn gyfan o gyfnod y prosiect a gynigiwyd gennym yn y Datganiad o Ddiddordeb'.

'yn ein hachos ni fe gymerodd dair blynedd i wneud cais, gan orfodi prosiect a gynlluniwyd i barhau am dair blynedd i gael ei gyflawni mewn blwyddyn a hanner'

- heb dderbyn yr holl ymholiadau ar eu cais ar yr un pryd: ond yn hytrach roeddent yn cael eu rhannu gyda'r ymgeisydd fesul dipyn. Byddai’n well gan ymgeiswyr ymdrin ag un set gynhwysfawr o sylwadau ar eu ceisiadau:

  'ymateb i bob mater ar yr un pryd yn hytrach nag ymatebion fesul dipyn y bu'n rhaid eu hailgyflwyno sawl gwaith yn aml oherwydd newidiadau yn y staff a oedd yn ymateb'

- nid oedd cyfiawnhad dros lefel y manylion yr oedd eu hangen ar gyfer y cais llawn: roedd llawer yn cwestiynu gwerth y manylion 'gormodol ac eithaf dibwrpas' ynghylch costau o ystyried natur amlflwydd fawr eu prosiect a'r newidiadau tebygol a fyddai'n digwydd beth bynnag. Awgrymodd sawl cyfrannwr y byddai’n well darparu gwybodaeth fanwl am gostau ar ôl i gymeradwyaeth gael ei rhoi, gan y byddai hyn yn rhoi adlewyrchiad mwy cywir o’r gwariant arfaethedig yng ngoleuni’r oedi a gafwyd:

  'roedd yr oedi cyn cymeradwyo'r prosiect yn golygu bod angen i ni wneud newidiadau i'r gyllideb ac roedd angen i'r rheini gael eu cymeradwyo wedyn'

  'roedd yna ddisgwyliad y gallem ragweld cost pob ymyriad, er bod y prosiect yn gwahodd ceisiadau gan gymunedau.'

6.23 Soniodd llawer o brosiectau am gael cymeradwyaeth i 'fwrw ymlaen a chymryd risg' gyda'u prosiect. Ymatebodd sefydliadau arweiniol mewn gwahanol ffyrdd i hyn: roedd rhai yn barod, ac mewn sefyllfa ariannol fwy cadarn, i gymryd risgiau o’r fath ond nid oedd eraill yn gallu gwneud hynny oherwydd eu bod yn fwy cyndyn o gymryd risg neu oherwydd nad oedd ganddynt sicrwydd ariannol i wneud hynny. Roedd rhai o'r prosiectau a gyfwelwyd yn barod i gymryd risgiau, megis cyflogi eu staff prosiect eu hunain ond nid oeddent yn barod i dalu costau staff sefydliadau partner. Soniodd un prosiect ei fod wedi recriwtio a phenodi pedwar aelod newydd o

staff ond nad oedd ganddo'r hyder i gytuno ar eu dyddiadau dechrau nes iddo gael cymeradwyaeth ffurfiol. Gan fod y gymeradwyaeth ffurfiol hon wedi cymryd misoedd lawer, roedd y staff a benodwyd wedi cael eu gadael yn 'wynebu ansicrwydd' a bu'n gyfnod heriol i bawb.


6.24 Arweiniodd yr oedi wrth gymeradwyo prosiectau Cyfnodau 2 a 3 at nifer o faterion, a drafodwyd yn fanwl yn ddiweddarach. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- nid oedd costau prosiectau arfaethedig bellach yn gywir nac yn realistig
- lleihawyd amserlenni cyflawni, yn aml o dair i ddwy flynedd, neu hyd yn oed 18 mis mewn rhai achosion.

**Hawliadau, taliadau a threfniadau adrodd**

6.25 Roedd y prosiectau a ariannwyd yn ystyried bod y ceisiadau, y taliadau a'r trefniadau adrodd a oedd ar waith ar gyfer Cyfnod 1 yn rhesymol ac yn syml. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn ac fel y dangosir yn Ffigur 6.5, adroddodd y rhai a ariannwyd yng Nghyfnodau 2 a 3 brofiadau llawer mwy heriol a negyddol. Er enghraifft, er bod dros bedair rhan o bump o brosiectau Cyfnod 1 a gymerodd ran yr arolwg o'r farn bod y broses o gyflwyno hawliadau ariannol yn un syml, roedd hyn yn wir am lai nag un rhan o bump o brosiectau Cyfnodau 2 a 3. Yn yr un modd, canfu tua thri chwarter y prosiectau Cyfnod 1 a ymatebodd i'r arolwg fod y broses o dderbyn taliadau yn syml o gymharu â llai na dwy ran o bump o sampl Cyfnodau 2 a 3.

**Ffigur 6.5: Barn prosiectau a ariannwyd, ac a gymerodd ran yn yr arolwg, ynghylch hawliadau, taliadau, a gofynion adrodd ENRaW**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (36 ymgeisydd Cyfnod 1 a 27 o ymgeiswyr Cyfnodau 2 neu 3)

### Adborth ar brosesau gweinyddu grantiau Cyfnod 1

6.26 Roedd y rhan fwyaf o'r adborth ansoddol ar weinyddu grantiau Cyfnod 1 yn awgrymu bod y prosesau hawlio, taliadau ac adrodd yn rhesymol. Mae'r adborth yn awgrymu bod y broses o gyflwyno hawliadau wedi bod yn syml a bod y taliadau wedi cael eu gwneud yn brydlon. Nododd un prosiect fod cael taliadau ymlaen llaw wedi bod yn ddefnyddiol. Ymhlith y sylwadau a gynigiwyd roedd y canlynol:

- 'mae'r staff yn yr uned amgylchedd a chymunedau wedi bod yn barod iawn eu cymwynas…mae wedi bod yn hawdd cysylltu â nhw ac maen nhw wedi bod yn hyblyg a chefnogol drwy gydol y broses… sy'n wahanol i fy mhrofiad mewn cyfnodau diweddarach'
- 'roedd y cyfarfodydd cynnydd gyda staff Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol iawn; roedd y prif gyswllt yn hynod gefnogol'

- 'roedd grant domestig ENRaW yn broses symlach o lawer na system y Rhaglen Datblygu Gwledig'
- 'Roedd Cyfnod 1 yn debycach i brosiectau Cronfa Treftadaeth y Loteri lle y defnyddir allbynnau ac anfonebau i seilio hawliadau arnynt, yn hytrach na'u seilio ar dystiolaeth o daliadau hefyd, sy'n gallu bod yn weinyddol feichus'.

6.27 Nododd y prosiectau a gyfwelwyd hefyd fod staff Llywodraeth Cymru wedi bod yn barod iawn eu cymwynas ac yn hyblyg iawn pan effeithiodd y pandemig ar eu gwaith. Eglurodd un cynrychiolydd prosiect o’r fath a gyfwelwyd:

- 'roedd y ddeialog yn wych. Roedden nhw'n llawn cydymdeimlad. Fe wnaethon nhw ddweud wrthym am adrodd ar beth bynnag y galln ni – gyda dealltwriaeth y byddai adroddiad ar ddiwedd y prosiect yn dod yn ddiweddarach. Roedden nhw'n help mawr. Roedden ni'n teimlo'n ofnadwy ein bod ni ar ei hôl hi gyda'r prosiect, ond roedden nhw'n ymarferol iawn o ran eu hagwedd.'

6.28 Roedd y prif bwyntiau a godwyd mewn perthynas â phrosesau Cyfnod 1 fel a ganlyn:

- bu'n rhaid i brosiectau ddelio â nifer o newidiadau o ran staff Llywodraeth Cymru a oedd yn lleihau cysondeb ac mewn rhai achosion yn arwain at brosiectau'n gorfod 'diwygio adroddiadau'n ôl-weithredol' i ymdrin â gwahanol geisiadau. Roedd rhywfaint o awgrym y byddai 'neilltuo aelod o staff penodedig ar gyfer prosiectau' wedi bod yn ddefnyddiol
- roedd yr amser a gymerwyd i gytuno ar dempled adroddiad terfynol yn hir a byddai wedi bod yn fuddiol cytuno ar ofynion adrodd ymlaen llaw. Awgrymodd un prosiect a ariannwyd y dylid cyfuno adroddiad diwedd y prosiect gyda’r gwaith papur ar gyfer yr hawliad terfynol er mwyn osgoi cael dwy set o ddogfennau ar wahân
- bu’n rhaid i brosiectau newid i gynnal cyfarfodydd ar-lein gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod y prosiectau ac er y credwyd

bod y rhain yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd nag y byddent fel arall, roeddent yn llai defnyddiol o ran datblygu perthynas glos ac nid oeddent yn rhoi cyfle i brosiectau arddangos eu gweithgareddau yn bersonol.

**Adborth ar brosesau gweinyddu grantiau Cyfnodau 2 a 3**

6.29 Fel y crybwyllwyd, mae profiad prosiectau a ariannwyd yn ystod Cyfnodau 2 a 3 o ran hawliadau, taliadau ac adrodd yn llawer mwy heriol. Yn hynny o beth, rydym yn ystyried pob mater a godwyd yn unigol:

*Byddai prosiectau a ariannwyd yn gwerthfawrogi cael cyswllt penodol o fewn RPW er mwyn datrys problemau.*

6.30 Hwn oedd y cais a godwyd amlaf o bell ffordd gan brosiectau a ymatebodd i'r arolwg a'r rhai a gafodd eu cyfweld. Ymhlith y sylwadau a gynigiwyd roedd y canlynol:

'y brif feirniadaeth yw'r diffyg pwynt cyswllt penodol sydd â gwybodaeth am y prosiect i siarad ag ef ac i ofyn am gyngor'

'rydym wedi gofyn am gyfarfod cynnydd gyda'r staff a hyd yma nid ydym wedi cael un ers i'r prosiect ddechrau'

'pwynt cyswllt penodol...i gyfarfod yn rheolaidd â ni a chadw golwg ar ein prosiect. Cael rhywun rydyn ni'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo i roi cyngor i ni… byddai Llywodraeth Cymru yn gallu llywio'r prosiect yn fwy effeithiol a byddem yn cael mwy o sicrwydd ein bod yn cyflawni nodau ENRaW'

*Nid yw system RPW ar-lein yn cael ei hystyried yn briodol ar gyfer ENRaW*

6.31 Teimlwyd yn gyffredinol nad oedd system RPW ar-lein yn addas ar gyfer cynllun cymhleth fel ENRaW, ac felly nid oedd yn anarferol clywed sylwadau fel:

'Nid yw platfform cyfathrebu RPW yn addas at y diben'

'Mae RPW yn ofnadwy, bob amser ar ei hôl hi ac maen nhw'n codi cwestiynau disynnwyr. Mae'r system talu a phrosesu bob amser ymhell ar ei

hôl hi. Mae'r system hawlio ar-lein yn warthus. Nid yw'n hawdd ei defnyddio o gwbl.'

'Mae [enw'r sefydliad] wedi cael cannoedd o grantiau dros y blynyddoedd ac nid ydym erioed wedi gweld unrhyw beth mor fiwrocrataidd neu anodd ei ddefnyddio â system RPW. Nid yw'r system yn gweithio ar gyfer prosiect o'r maint hwn. Byddai'n llawer gwell gennym weld y trefniadau gweinyddol a oedd ar waith yng Nghyfnod 1'.

6.32 Nododd y prosiectau sawl problem ymarferol gyda phorth RPW – yr un mwyaf dybryd oedd na all sefydliadau arweiniol gyflwyno hawliad nes bod hawliad blaenorol wedi'i brosesu. Mae hyn yn achosi problemau mawr i lawer o brosiectau gan fod hawliadau a gyflwynir yn cymryd amser hir i'w prosesu a'u talu. Roedd materion eraill a godwyd gan brosiectau yn cynnwys methu â dileu neu ddiwygio cofnodion, fformat trafferthus y daenlen, a gorfod ailenwi pob eitem sy'n cymryd amser.

*Mae defnyddio dwy system, sef porth RPW a phorth ar-lein WEFO, yn creu mwy o ddryswch i brosiectau a ariennir*

6.33 Roedd rhai prosiectau a ariannwyd yn dadlau bod yn rhaid iddynt ymgyfarwyddo â dau borth ar-lein gwahanol, sef porth RPW ar gyfer cyflwyno hawliadau ariannol a phorth ar-lein WEFO ar gyfer cyflwyno adroddiadau chwarterol, a bod hyn wedi bod yn heriol. Roedd rhai o'r farn bod porth ar-lein WEFO yn fwy addas ar gyfer prosiectau seilwaith mwy ac roeddent yn rhwystredig nad oeddent yn gallu adrodd am unrhyw gyflawniadau a oedd yn rhagori ar eu dangosyddion drwy'r offeryn hwn. Byddai llawer yn croesawu cael un porth gwe a allai ddarparu ar gyfer y ddau ofyniad hyn, er bod rhai wedi ychwanegu eu bod wedi ymgyfarwyddo â phorth ar-lein WEFO ers hynny a'u bod yn gweld hwn yn gymharol hawdd ei ddefnyddio.

*Ystyrir bod y manylion sydd eu hangen i gefnogi hawliad yn feichus, gan arwain at oedi sylweddol o ran awdurdodi taliadau a dryswch ynghylch faint o gyllid sy'n weddill.*

6.34 Cyfeiriodd llawer o brosiectau am oedi gyda hawliadau a’r effaith negyddol yr oedd hyn yn ei chael ar eu sefydlogrwydd ariannol ac ar gyflawni'r prosiect. Er enghraifft, dywedodd y prosiectau:

'rydym yn bartner ar brosiect ENRaW a ddechreuodd dros flwyddyn yn ôl a chymerodd dros flwyddyn i ni gael ein talu am yr hawliad cyntaf. Roedd ein holl waith papur yn gywir. Mae hyn yn annerbyniol'.

'mae hawliadau'n cymryd cymaint o amser i'w prosesu nes fy mod i wedi colli golwg ar ble rydyn ni arni. Mae'n fis Mehefin 2022 ac rydym ond wedi cael ein talu hyd at fis Medi 2021. Rwyf bellach wedi rhoi'r gorau i gyflwyno mwy o hawliadau.'

'rydym yn dal i aros am ein taliad ar gyfer Ionawr-Mawrth 2022 ac mae ein helusen eisoes wedi gwario'n sylweddol. Mae hi bellach yn fis Mehefin'.

6.35 Byddai’r rhan fwyaf o brosiectau’n croesawu dull mwy syml o ymdrin â’r broses hawlio a lleihad yn swm y dystiolaeth sydd ei hangen arnynt.

*Mae cael awdurdodiad ymlaen llaw ar gyfer unrhyw wariant dros £500 yn creu heriau mawr i brosiectau*

6.36 Mynegodd y rhan fwyaf o brosiectau eu rhwystredigaeth ynghylch yr angen i gael awdurdodiad ymlaen llaw i brynu unrhyw eitem dros £500, gan ddweud bod hyn yn cael effaith negyddol ar gyflawni prosiectau:

'Mae'r prosesau sy'n golygu bod angen cael cytundeb ar gyfer gwariant a gwaith prosiect penodol cyn talu am eitem neu wneud hawliad yn ychwanegu baich ac oedi ychwanegol wrth gyflawni'r prosiect gan ei gwneud bron yn amhosibl ei gyflawni o fewn yr amserlenni heb i bartneriaid gymryd y risg i fwrw ymlaen heb gytundeb. Mae hefyd wedi arwain at oedi sylweddol i hawliadau, o ran y prosiect presennol, sydd wedi arwain at oblygiadau ariannol difrifol i rai partneriaid.'

6.37 Roedd llawer o gostau'r prosiectau a ddarparwyd pan wnaed y ceisiadau yn seiliedig ar ddyfynbrisiau, ond ni chafwyd unrhyw hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer chwyddiant.

**Goblygiadau oedi cyn cymeradwyo ceisiadau Cyfnodau 2 a 3 a materion yn gysylltiedig â hawliadau a thaliadau**

6.38 Nododd y rhan fwyaf o'r prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnodau 2 a 3 fod yn rhaid ailddylunio eu prosiect mewn rhyw ffordd er mwyn ystyried cyfnod cyflawni byrrach, oherwydd yr oedi cyn cael cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer cyllid. Nid oedd yn anarferol i brosiectau gael rhwng 12 a 18 mis yn llai na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol i gyflawni eu prosiect. Mewn un achos bu'n rhaid i'r partner arweiniol ailbenodi contractwr i gynnal ymchwil archwiliadol am yr eildro er mwyn llunio cynllun gweithredu y gellid ei gyflawni o fewn cyfnod llawer byrrach. Roedd y newid yn yr amserlenni yn arbennig o broblematig oherwydd natur llawer o brosiectau ENRaW. Dywedodd sawl prosiect fod yr amserlen lai yn golygu eu bod yn colli tymor o weithgarwch megis plannu coed neu gynnal a chadw tir, gan mai dim ond ar adegau penodol o'r flwyddyn y gellid gwneud gwaith o'r fath.

6.39 Mae goblygiadau'r problemau'n ymwneud â hawliadau a thaliadau a brofir gan brosiectau a ariannwyd yn ystod Cyfnodau 2 a 3 yn ddifrifol ac yn cael effaith negyddol ar y canlyniadau a gyflawnir yn ogystal ag effaith negyddol ar staff prosiectau. Er enghraifft, dywedodd un prosiect fod ei brosiect:

'wedi gorfod benthyca arian rhwng sefydliadau er mwyn gallu talu cyflogau'.

6.40 Cyfaddefodd nifer o brosiectau a gyfwelwyd eu bod mewn sefyllfa ariannol annioddefol a'u bod yn hynod bryderus am fod yn agored i risg ariannol. Roedd nifer o brosiectau hefyd yn ddryslyd ynghylch lefel y gyllideb a oedd yn weddill pan gynhaliwyd y gwaith maes ac yn teimlo eu bod yn 'chwysu dros daenlenni' i ddatrys y materion hyn ar draul cyflawni'r prosiect.

6.41 Mae'r straen sy'n gysylltiedig â rheoli prosiectau ENRaW parhaus yn amlwg yn effeithio ar swyddogion arweiniol y prosiectau, fel y dangoswyd yn yr achos penodol hwn:

'rwy'n credu bod gan [y prosiect] gymaint o botensial i sicrhau newid mawr i bobl a'r byd naturiol ond rwy'n siomedig iawn fy mod i wir yn teimlo mai'r cyllidwr yw'r unig beth sy'n dal hyn yn ôl. Rwy’n wirioneddol bryderus na fyddwn ni'n cael yr arian yr ydym wedi’i wario yn ôl ac mae hynny'n rhoi llawer o elusennau (a bywoliaeth pobl) mewn perygl…rwy’n cael trafferth mawr i gadw’r prosiect hwn ar y trywydd iawn oherwydd gofynion y cyllidwr a'r diffyg cefnogaeth lwyr i fodloni'r gofynion eithafol hyn.'

6.42 Dywedodd nifer o brosiectau y bu'n ofynnol iddynt neilltuo mwy o amser staff i'r dasg o reoli grantiau nag a ragwelwyd, gan leihau'r adnoddau y gallent eu dyrannu i dasgau cyflawni prosiectau.

**Pontio o Gyfnod 1 i Gyfnodau 2 a 3**

6.43 Cynghorwyd tri phrosiect a gyfwelwyd i rannu eu prosiect gwreiddiol yn ddau gam ac i wneud ail gais i Raglen Datblygu Gwledig ENRaW i gefnogi gweithredu'r ail gam. Mae'r adborth gan y sefydliadau hyn yn awgrymu eu bod wedi wynebu nifer o heriau penodol.

6.44 Mewn un achos, gwrthodwyd y Datganiad o Ddiddordeb a gyflwynwyd yn ystod Cyfnod 2 ac yn dilyn adborth gwnaed cais llwyddiannus yn ystod Cyfnod 3. Fodd bynnag, roedd yr oedi cyn dyfarnu cyllid ffurfiol ar gyfer y cais Cyfnod 3 hwn (roedd y sefydliad yn amharod i fwrw ymlaen a chymryd risg) yn golygu na chynigiwyd contract ffurfiol tan fis Hydref 2021. Roedd yr amserlen gyflwyno fyrrach ynghyd â'r amodau cyllido ychwanegol a gyflwynwyd (yn enwedig yr angen i gael cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer gwariant dros £500) yn golygu bod y sefydliad wedi penderfynu tynnu ei gais yn ôl gan nad oedd yn meddwl ei bod yn ymarferol cyflawni'r prosiect yn llwyddiannus:

'Cafodd cam cychwynnol y grant (2019) ei gwtogi oherwydd nad oedd tîm ENRaW wedi dilyn prosesau'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn gywir (yn ôl yr hyn a ddeallaf) ac felly cynigiwyd cyllid i ni ar gyfer 6 mis cyntaf y prosiect o gronfa ddomestig Llywodraeth Cymru. Yna fe wnaethom gais am yr 2il Gyfnod - a chawsom ein gwrthod. Yna fe wnaethom gais ar gyfer 3ydd Cyfnod y gaeaf (2020) a buom yn llwyddiannus, er nad oeddem yn gallu bwrw ymlaen yn llawn tan Hydref 2021 oherwydd y datganiad 'bwrw ymlaen a chymryd risg' sy'n golygu na allem ddechrau cyflawni'r prosiect tan i ni gael cynnig grant ffurfiol gan Lywodraeth Cymru. Pan gyrhaeddodd hwn o'r diwedd yn ystod Hydref 2021, roedd nifer o amodau newydd ynghlwm ag ef a oedd yn golygu nad oedd modd i ni dderbyn y grant. Rhoddodd y broses gyfan bwysau sylweddol ar adnoddau ein sefydliad elusennol.'

6.45 Mewn achos arall dyfarnwyd cyllid blwyddyn yn ystod Cyfnod 1 ond bu cais y prosiect yn ystod Cyfnod 2 yn aflwyddiannus, a dim ond yn ystod Cyfnod 3 y

llwyddodd y sefydliad i sicrhau cyllid. Llwyddodd y sefydliad i grafu arian at ei gilydd yn y cyfamser, ond mae canlyniad y broses hon wedi arwain at golli ewyllys da a diddordeb ymhlith sefydliadau partner. Mae hefyd wedi golygu bod yn rhaid cyflawni prosiect tair blynedd o fewn dwy flynedd.

**Monitro, gwerthuso a rhannu gwybodaeth**

6.46 Yn gyffredinol, canfu prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnod 1 fod gofynion adrodd y cynllun yn gymesur a bod y gofynion monitro a gwerthuso, megis paratoi adroddiad diwedd prosiect, yn briodol ac yn syml. Nid oedd nifer o'r prosiectau Cyfnod 1, a ariannwyd am flwyddyn yn unig, yn cynnwys elfen o gyflawni ac felly byddai cynnal unrhyw weithgaredd gwerthuso wedi bod yn amhriodol.

6.47 Dywedodd prosiectau a ariannwyd am gyfnod hwy eu bod yn cael eu hannog gan Lywodraeth Cymru i fonitro eu gweithgareddau ac i fabwysiadu dangosyddion monitro a oedd yn adlewyrchu eu gwaith. Gwers allweddol i rai prosiectau yw eu bod wedi dyrannu cyllideb rhy fach i gomisiynu gwerthusiad annibynnol o'u prosiect. Dywedodd sawl prosiect y bu'n ddefnyddiol cael gwerthuswyr allanol. Er enghraifft, nododd un prosiect fod eu gwerthuswyr yn aelodau o'i grŵp llywio ac yn cyflwyno lefel ychwanegol o oruchwyliaeth a chraffu.

6.48 Roedd un mater allweddol a godwyd yn ddigymell yn ystod y gwaith maes yn ymwneud â’r ffaith nad oes rhwydwaith wedi’i hwyluso ar waith er mwyn i brosiectau a ariennir gan ENRaW gyfarfod a rhannu profiadau, yn wahanol i'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy lle mae rhai prosiectau a ariannwyd wedi dod ynghyd i rannu profiadau. Dywedodd sawl prosiect, yn enwedig y rhai a fu'n ymwneud â'r cyfarfodydd SMS hyn, y byddent wedi elwa o rwydwaith o'r fath ac o gwrdd â phrosiectau eraill a ariannwyd.

# 7. Cynnydd a chyflawniadau

7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried cyflawniadau grant ENRaW hyd yma ac yn seiliedig ar arolygon a gwaith maes ansoddol, yn ogystal ag adroddiadau allbwn ar lefel cynllun. Yn gyntaf mae'n ystyried y cynnydd a wnaed gan brosiectau a ariannwyd a gyfrannodd at y gwerthusiad cyn trafod allbynnau a gyflawnwyd hyd yma ar lefel cynllun. Yna mae'n adrodd ar rai o'r heriau y mae prosiectau wedi'u hwynebu, a chyflawniadau ar draws meysydd ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig ac amcanion trawsbynciol. Yn olaf, mae’n ystyried i ba raddau y mae'r prosiectau a ariannwyd yn cyflawni'r amcanion yn ymwneud â'r Gymraeg.

**Cynnydd y prosiectau**

7.2 O ran y cynnydd a wnaed gan brosiectau a ariannwyd yn ystod Cyfnod 1, roedd 16 o'r prosiectau Cyfnod 1 a ymatebodd i'r arolwg wedi'u cwblhau ar yr adeg y gwnaethant ymateb i'r arolwg. Roedd yr holl ymatebwyr o'r farn bod eu prosiect wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion i raddau helaeth (14 o blith 16) neu i ryw raddau (2 o blith 16). Roedd adborth o'r 20 o brosiectau Cyfnod 1 a gyfrannodd at y gwaith maes ansoddol yn atgyfnerthu'r canfyddiad hwn ac roedd cynrychiolwyr y prosiect yn credu bod eu prosiect wedi gwneud cynnydd da neu'n parhau i wneud hynny.

7.3 Dywedodd y mwyafrif helaeth o brosiectau Cyfnod 1 a gwblhawyd eu bod wedi cyflawni eu hallbynnau a chyflawni'r hyn a fwriadwyd ganddynt. Mewn nifer o achosion adroddwyd bod y prosiect wedi rhagori ar ei dargedau er nad oedd elfennau o'r prosiect wedi cael eu gwireddu yn unol â'r disgwyl. Dywedodd un prosiect cyfalaf a gwblhawyd ei fod wedi rhagori gryn dipyn ar ei allbynnau a’i ddisgwyliadau:

'Rydym wedi rhagori gryn dipyn ar yr allbynnau y bwriadwyd i'r prosiect eu cyflawni. Mae’n llwyddiant ysgubol. Mae wedi cyflawni popeth yr oeddem wedi'i ddychmygu a mwy. Mae'r gymuned yn parhau ag ef nawr. Mae wedi cymryd yr awenau a'r cyfrifoldeb am y prosiect. Mae'n uchelgeisiol.'

7.4 Roedd un neu ddau o'r prosiectau sampl Cyfnod 1 a oedd eisoes wedi'u cwblhau yn canolbwyntio ar baratoi a datblygu yn hytrach na gwaith cyflawni, ac roedd allbwn clir o'u gwaith megis cynllun gweithredu. Er

enghraifft, cyflawnodd prosiect Cynllun Gweithredu Gogledd Ynys Môn, sy'n gymharol fach ac a gafodd gyllid refeniw, ei amcan o greu cynllun gweithredu amgylcheddol ar gyfer yr ardal er mwyn gwella'r asedau naturiol, hanesyddol a diwylliannol er budd yr economi a thwristiaeth. Yn yr un modd, cyflawnodd prosiect mawr blwyddyn o hyd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sef Tir Afon yn Uwch Conwy, ei amcan o nodi cyfleoedd, ymgysylltu â thirfeddianwyr ac awdurdodau eraill i gael y caniatâd angenrheidiol ar gyfer mynediad, yn ogystal â datblygu perthynas â chynrychiolwyr cymunedol er mwyn bod yn sail i brosiect cyflawni dilynol.

7.5 Roedd rhai o brosiectau blwyddyn o hyd Cyfnod 1 wedi defnyddio cyllid ENRaW fel cam datblygu er mwyn gwneud cais am ragor o gyllid, megis yn achos prosiectau bach Buglife Cymru a Biosffer Dyfi a gafodd gyllid refeniw, a ymgeisiodd am gyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri.

7.6 Datgelodd y gwaith maes hefyd fod digon o brosiectau cyllid cyfalaf blwyddyn o hyd Cyfnod 1 wedi'u cwblhau ac wedi cyflawni'r hyn yr oeddent wedi bwriadu ei gyflawni. Er enghraifft, cwblhaodd prosiect Tir Afon yn Uwch Conwy welliannau i 1.5km o lwybr troed glan yr afon yng Nghwm Penmachno gan osod byrddau gwybodaeth i'r cyhoedd, arwyddbyst, a dodrefn a adeiladwyd yn lleol i greu llwybr sy’n addas i deuluoedd. Yn yr un modd, mae’r prosiect Seilwaith Gwyrdd yng Nghorsydd Teifi wedi cwblhau gwaith ar adfer llwybr cerdded hanesyddol o Gilgerran i Aberteifi sydd wedi cynnwys adeiladu 600 metr o lwybr pren o amgylch corsydd Teifi.

7.7 Ychydig iawn o brosiectau Cyfnod 1 a gwblhawyd a ddywedodd nad oeddent wedi gallu cyflawni'r hyn yr oeddent wedi bwriadu ei gyflawni'n wreiddiol. Efallai fod prosiect cyfalaf Traciau a Llwybrau Rhondda Cynon Taf yn un enghraifft o’r fath, lle nad oedd y prosiect yn gallu sicrhau’r cytundebau a’r caniatâd angenrheidiol i gyflawni’r prosiect arfaethedig ar dir sy’n eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn lle hynny bu’n rhaid diwygio'r cynlluniau i wneud gwelliannau i’r traciau a llwybrau ar dir sy'n eiddo i'r awdurdod lleol. Dywedodd un arall ei fod wedi rhagori ar rai targedau ond heb gyrraedd targedau eraill oherwydd problemau'n ymwneud â chapasiti staff, a chafodd targedau'r prosiect eu hailwampio o ganlyniad.

7.8 O ran chwech o brosiectau Cyfnod 1 a gymerodd ran yn y gwaith maes ansoddol, roedd y gwaith yn parhau gan eu bod wedi'u hariannu fel prosiectau tair blynedd. Yn ogystal â hynny, roedd pedwar arall wedi cael cyllid Cyfnod 1 a hefyd wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid Cyfnod 2 neu 3 ac roeddent yn brosiectau parhaus.

7.9 Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod prosiectau parhaus yn gwneud cynnydd da ond gwelwyd yn aml fod darpariaeth Cyfnodau 2 a 3 yn cael ei llesteirio gan broblemau gweinyddu grantiau ENRaW. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd yn aml fod adnoddau staff yn cael eu dyrannu i ymdrin â materion gweinyddu grantiau megis cadw at ofynion caffael yn hytrach na chyflawni prosiectau a bod oedi cyn cael cymeradwyaeth i benodi cyflenwyr yn cael effaith negyddol ar eu cynnydd. Er enghraifft, dywedodd un prosiect Cyfnod 2 o'r fath, er ei fod wedi gallu cyflawni ei dargedau a'i amcanion yn ystod Cyfnod 1, y byddai'n annhebygol o wneud hynny yn ystod Cyfnod 2 oherwydd diffyg brwdfrydedd ymhlith staff yn sgil yr oedi cyn cymeradwyo'r cyllid, colli staff â phrofiad blaenorol a sgiliau ac anawsterau recriwtio staff i gontractau cyflogaeth tymor byr:

'Mae cyllid fel ENRaW yn brin, mae'n cynnig cymysgedd o gyllid cyfalaf a refeniw a dylai wneud gwahaniaeth mawr, ond mae'r ffordd y mae'r cynllun wedi cael ei weinyddu wedi llesteirio cynnydd ac wedi dadrithio pawb.'

7.10 Roedd y prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnodau 2 a 3 hefyd yn llai optimistaidd ynghylch y gwahaniaeth posibl y gallent ei wneud oherwydd y lleihad yn yr amserlenni cyflawni. Er bod y rhan fwyaf yn teimlo y gallent barhau i gyrraedd eu targedau o fewn cyfnod cyflawni byrrach, roeddent yn fwy gochelgar ynghylch effaith  yr ymyrraeth a gwaddol y prosiectau. Roedd llawer o'r prosiectau sydd ond wedi dechrau ers diwedd 2021 a dechrau 2022 yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i ddweud a fyddent yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Er enghraifft, penododd un prosiect swyddog prosiect ym mis Ionawr 2022 ac mae ei waith hyd yma wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned, ymchwilio i dir a datblygu gwefan. Nid yw'r prosiect wedi penodi contractwr eto i wneud gwaith ar ei ran gan fod yr unig dendr a dderbyniwyd yn fwy na'r gyllideb. Yn yr un modd, penododd prosiect arall staff ym mis Ebrill 2022 ac mae ffocws y gwaith

hyd yma wedi bod ar ymgysylltu â thirfeddianwyr. Mae gan y prosiectau hyn nodau uchelgeisiol iawn i'w cyflawni o fewn amserlen o 18 mis i ddwy flynedd.

7.11 Er gwaethaf y materion hyn, canfu'r gwaith maes lawer o enghreifftiau o gynnydd da yn cael ei wneud gan brosiectau parhaus. Mae dau o'r prosiectau hyn (Menter Môn a Chadwyn Clwyd y Rhaglen Datblygu Gwledig) yn ymwneud â gweinyddu cyllid grant i grwpiau cymunedol lleol. Mewn un achos dyfarnwyd cyllid i 13 o grwpiau cymunedol ac yn yr achos arall, dyfarnwyd cyllid i gefnogi ystod eang o weithgareddau cymunedol megis gwelliannau i barciau lleol a choetiroedd cymunedol, creu rhandiroedd a gerddi cymunedol, yn ogystal â gweithgareddau plannu coed.

7.12 Adroddodd rhai prosiectau fod elfennau o'u gweithgareddau yn mynd yn dda, ond bod agweddau eraill yn fwy heriol. Er enghraifft, dywedodd prosiect Llwybrau i Lesiant Ramblers Cymru o Gyfnod 3 fod ei waith o ymgysylltu â gwirfoddolwyr a threfnu digwyddiadau yn mynd rhagddo'n dda iawn oherwydd bod gan y sefydliad brofiad helaeth o waith ymgysylltu o'r math hwn, ond mae'r broses o gael caniatâd gan dirfeddianwyr i wneud gwelliannau ffisegol i'r seilwaith, megis gosod arwyddion cyfeirio a chlirio llwybrau, yn arafach oherwydd yr angen i awdurdodau lleol gyd-drafod a sicrhau'r cytundebau hyn gyda thirfeddianwyr. Yn yr un modd, mae prosiect Dalgylch Dyfi Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru o Gyfnod 3 wedi gwneud cynnydd da o ran ymgysylltu â'r gymuned a gwirfoddolwyr a darparu hyfforddiant ond nid yw eto wedi cael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru i alluogi'r prosiect i gyflawni ei brif amcan o ryddhau afancod i'r gwyllt ar afon Dyfi.

**Allbynnau'r cynllun hyd yma**

7.13 Rhannwyd cronfa ddata o allbynnau'r cynllun ar gyfer prosiectau Cyfnod 1 gyda thîm ymchwil OB3. Caiff yr allbynnau eu grwpio'n bum thema allweddol, fel y nodir yn Ffigur 7.1. Mae'r data'n seiliedig ar wybodaeth a adroddwyd gan 33 o brosiectau a ariannwyd. Trafodir diffiniadau a

chyfyngiadau'r allbynnau, yn ogystal â pherfformiad yn erbyn y targedau a osodwyd, o baragraff 7.14 ymlaen.

**Ffigur 7.1: Allbynnau Cyfnod 1 a gyflawnwyd yn erbyn y targedau hyd yma**

| Dangosyddion | Targed[30] | Allbynnau a nodwyd | % a gyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| **Mannau gwyrdd** | | | |
| Nifer y coridorau gwyrdd/glas wedi'u gwella | 17 | 19 | 112% |
| Nifer y mannau gwyrdd wedi'u gwella | 636 | 6,997 | 1,100% |
| Nifer y gweirgloddiau a grëwyd neu a adferwyd | 100 | 121 | 121% |
| Nifer y gwlyptiroedd a grëwyd | 6 | 6 | 100% |
| Rhywogaethau targed a warchodwyd | 20 | 44 | 220% |
| Pobl yr ymgysylltwyd â nhw | 32,357[31] | 98,323 | 304% |
| Gwirfoddoli | 8,572[32] | 29,347 | 342% |
| **Presgripsiynu cymdeithasol a llesiant** | | | |
| Cyfranogwyr presgripsiynu cymdeithasol | 104 | 192 | 185% |
| Adroddwyd bod llesiant wedi gwella | 3,014 | 1,579 | 52% |
| **Coed a gwrychoedd** | | | |
| Coed a blannwyd | 7,166 | 19,175 | 268% |
| Gwrychoedd wedi'u creu neu eu cynnal a'u cadw | 706 | 1,445 | 205% |
| **Prosiectau bwyd a thyfu cymunedol** | | | |

[30] Wrth benderfynu ar y targed a osodwyd ar gyfer pob dangosydd, lle na osodwyd targed penodol ond bod disgwyl i'r prosiect gyflawni o leiaf un allbwn yn erbyn y dangosydd, rhagdybir targed o '1'.

[31] Roedd y targed a bennwyd ar gyfer pob prosiect yn amrywio o ddim targedau allbwn i dros 10,000 o gyfranogwyr. Lle na phennwyd unrhyw rif ar gyfer allbwn ar gyfer prosiectau oherwydd diffyg unrhyw ddata gwaelodlin, rhagdybiwyd targed o '1' fel arwydd bod y prosiect yn bwriadu cyflawni allbynnau ar gyfer y dangosydd hwn. Mewn sawl achos, mae'r targed a osodwyd ar gyfer prosiect yr un fath â'r allbwn a adroddwyd, sy'n awgrymu bod allbynnau wedi'u pennu'n ôl-weithredol yn yr achosion hyn.

[32] Roedd y targed a bennwyd ar gyfer pob prosiect yn amrywio o ddim targedau allbwn i dros 19,000 o gyfranogwyr. Lle na phennwyd unrhyw rif ar gyfer allbwn ar gyfer prosiectau oherwydd diffyg unrhyw ddata gwaelodlin, rhagdybiwyd targed o '1' fel arwydd bod y prosiect yn bwriadu cyflawni allbynnau ar gyfer y dangosydd hwn. Mewn sawl achos, mae'r targed a osodwyd ar gyfer prosiect yr un fath â'r allbwn a adroddwyd, sy'n awgrymu bod allbynnau wedi'u pennu'n ôl-weithredol yn yr achosion hyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer y prosiectau sy'n darparu bwyd cymunedol a gweithgareddau tyfu | 24 | 29 | 121% |

Ffynhonnell: Cronfa ddata Llywodraeth Cymru, Medi 2022

7.14 Nodir rhai sylwadau am y data monitro isod:

*Mannau gwyrdd*

7.15 Mae ENRaW wedi adrodd bod bron i 7,000 o fannau gwyrdd unigol ac 19 o ardaloedd coridor gwyrdd/glas wedi'u gwella hyd yma, gan ragori felly ar y ddau darged a osodwyd ar gyfer y dangosyddion hyn. Mae mannau gwyrdd yn cynnwys gwelliannau o ran mynediad i safleoedd, gwelliannau i dir ysgol, gwell arwyddion, llwybrau cerdded a llwybrau beicio, coetiroedd, clirio llystyfiant, a safleoedd bywyd gwyllt lleol yn ogystal â gweithgareddau megis casglu sbwriel a glanhau cymunedau. Gwelliannau i'r coridorau gwyrdd/glas yw'r rhai a gwblhawyd ochr yn ochr â gwelliannau i goridorau arfordirol ac afonydd ac maent yn cynnwys gwelliannau i lwybrau troed, adfer twyni tywod, plannu glaswellt, atgyweirio pontydd sydd wedi'u difrodi, gwella arwyddion a gwybodaeth ddehongli a gwell mynediad. Yn ddealladwy, mae maint yr allbynnau yn amrywio o un man gwyrdd neu goridor gwyrdd/glas i'r llall ac maent yn cynnwys sawl hectar neu sawl cilomedr o lwybrau/llwybrau i safleoedd llawer llai gan ei gwneud yn anodd cydgrynhoi cyflawniadau ystyrlon.

7.16 Mae ENRaW wedi rhagori ar ei darged ar gyfer gweirgloddiau a grëwyd neu a adferwyd. Ceir diffiniad cyson o'r dangosydd hwn ac adroddir yn gyson yn ei erbyn, yn yr ystyr bod rhai prosiectau yn adrodd ar allbwn o un safle waeth beth fo maint y weirglodd sy'n cael ei chreu neu ei hadfer (dros 100 hectar mewn rhai achosion), tra bod eraill yn adrodd ar nifer uwch o safleoedd unigol, megis nifer y gwelyau blodau sy'n cael eu creu, er bod yr ardaloedd hyn yn llai o ran maint. Fodd bynnag, byddai'n werth diffinio'r dangosydd hwn fesul ardal a gwmpesir gan y byddai hyn yn darparu allbwn mwy ystyrlon.

7.17 Gwlyptiroedd a grëwyd: mae'r targed a osodwyd ar gyfer y dangosydd hwn wedi'i gyflawni. Heblaw am un prosiect a oedd yn cyfrif am dri o'r chwe allbwn hyn, adroddodd pob prosiect arall un allbwn yn erbyn y dangosydd

hwn. Nid yw maint y gwlypdir a grëwyd yn cael ei adlewyrchu yn y data a adroddwyd a gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.

7.18 Rhywogaethau targed a warchodwyd: heblaw am un prosiect a oedd yn cyfrif am 29 o'r 44 allbwn a adroddwyd ar gyfer y dangosydd hwn ac sydd o bosibl wedi gorchwyddo'r cyflawniadau, adroddodd pob prosiect arall un allbwn gan awgrymu rhywfaint o gysondeb wrth ddehongli'r dangosydd hwn.

7.19 Pobl yr ymgysylltwyd â nhw: caiff yr allbwn hwn ei ddiffinio'n wahanol gan brosiectau a ariannwyd. Mae'r rhan fwyaf yn adrodd am fuddiolwyr unigol (boed yn drigolion lleol, plant ysgol, ffermwyr, BBaChau[33] etc) tra bod eraill yn adrodd ar nifer y grwpiau megis ysgolion neu ddigwyddiadau a fu'n ymwneud â'r prosiect. Ambell waith, mae rhai prosiectau'n defnyddio diffiniadau eraill e.e. cynnydd mewn defnydd cymunedol. O ystyried bod y rhan fwyaf o brosiectau yn adrodd yn erbyn y targed hwn fel y bwriadwyd, mae'n wir i ddweud bod ENRaW wedi ymgysylltu ag o leiaf 98,323 o bobl, deirgwaith yn fwy na'i darged gwreiddiol, gan dderbyn bod cyfanswm y buddiolwyr yr ymgysylltwyd â nhw yn fwy na hynny.

7.20 Gwirfoddoli: nid yw diffiniad y cynllun (nifer yr oriau gwirfoddoli) a fabwysiadwyd ar gyfer y dangosydd hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws y prosiectau a ariannwyd ac felly mae'n anodd rhoi barn ar berfformiad ENRaW yn erbyn y dangosydd hwn. Mae rhai prosiectau yn adrodd ar nifer yr oriau gwirfoddoli neu ddiwrnodau gwirfoddoli a sicrhawyd gan y prosiect, tra bod eraill yn adrodd ar nifer yr unigolion sy'n gwirfoddoli. Nid yw'r allbwn a adroddir yn Ffigur 7.1 yn gynrychioliad cywir o'r allbwn, gan ei fod yn seiliedig ar fetrigau gwahanol.

*Presgripsiynu cymdeithasol a llesiant*

7.21 Ceir problemau gyda'r data cyfanredol ar gyfer y ddau ddangosydd hyn. Mae ENRaW wedi adrodd bod 192 o bobl wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol, sy'n llawer uwch na'r targed o 104 a osodwyd gan brosiectau a ariannwyd. Mae'r cynllun wedi cyflawni

[33] Busnesau Bach a Chanolig

tua hanner ei dargedau llesiant, sef 1,579 yn erbyn targed o 3,014 a osodwyd gan y prosiectau.

7.22 Fodd bynnag, nid yw'n glir beth yn union yw'r data neu'r mesuriad a adroddir yn erbyn y targedau hyn ac mae'n ymddangos mewn rhai achosion ei fod yn cynnwys cyfranogwyr unigol sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol. Byddai prosiectau sy'n adrodd ar nifer y cyfranogwyr sy'n dweud bod eu llesiant wedi gwella drwy offer fel Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin a'r Outcomes Star yn cael eu nodi fel allbynnau priodol yn erbyn y dangosydd hwn.

*Plannu coed a gwrychoedd*

7.23 Mae tuag wyth prosiect wedi adrodd ar allbynnau plannu coed, sy'n golygu bod cyfanswm o 19,175 o goed wedi'u plannu hyd yma. Mae hyn yn erbyn targed o 7,166 ond nid oedd nifer o brosiectau sydd wedi adrodd ar allbynnau o'r fath ers hynny wedi eu cynnwys yn benodol fel rhan o'u cais. Ym mhob achos ac eithrio un, mae prosiectau wedi adrodd ar union nifer y coed a blannwyd gan gyflwyno data cyson a defnyddiol.

7.24 Mae wyth prosiect wedi adrodd ar allbynnau plannu gwrychoedd. Mae rhai o'r rhain wedi adrodd ar y metrau llinol a blannwyd, mae eraill wedi adrodd ar nifer y glasbrennau a blannwyd, mae eraill wedi adrodd ar nifer y safleoedd lle mae gwaith wedi'i wneud ac eraill wedi adrodd ar nifer y diwrnodau a dreuliwyd yn plannu gwrychoedd. Felly mae'n amhosibl dehongli'n gywir gyfanswm allbynnau cyfanredol ENRaW hyd yma yn erbyn y dangosydd hwn.

*Bwyd cymunedol a thyfu*

7.25 Mae tri phrosiect wedi adrodd ar 29 o allbynnau bwyd a thyfu cymunedol, a rhagorwyd ar y targed a osodwyd (sef 24). Mae'r rhain wedi cynnwys safleoedd rhandir newydd a chreu lleiniau rhandir yn ogystal â pherllannau a sefydlu ceginau cymunedol.

**Ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni prosiectau**

7.26 Mae tri prif ffactor wedi effeithio ar gyflawni'r prosiectau. Yn benodol, effaith y pandemig COVID-19; trosglwyddo trefniadau gweinyddol y cynllun o

Gangen Rheoli Rhaglenni a Chyflwyno Llywodraeth Cymru i RPW, a ffactorau lleol ar lefel prosiectau unigol. Crynhoir effeithiau'r tri ffactor hyn isod, ond maent hefyd yn cael eu hystyried drwy'r adroddiad cyfan fel y bo'n briodol.

7.27 Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar brosesau ENRaW ac mae i'w gyfrif am rywfaint o'r oedi yn ystod y camau asesu a chymeradwyo. Cafodd y pandemig effaith negyddol hefyd ar brosiectau a oedd yn weithredol yn ystod y cyfyngiadau ac roedd yr effeithiau hyn yn cynnwys y canlynol:

- gorfod rhoi staff a ariannwyd ar ffyrlo
- methu â recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr
- cyfyngiadau ar ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned, a phrosiectau'n gorfod troi at ddarpariaeth ar-lein
- cau safleoedd a mannau yr oedd y cyhoedd yn eu defnyddio fel arfer
- ni allai prosiectau ymgymryd â gweithgareddau a gynlluniwyd mewn ysgolion a/neu gyda grwpiau o blant ysgol
- cynnydd yng nghostau prosiectau oherwydd y cynnydd mewn costau cyflenwadau a chontractwyr yn ogystal â phrosiectau'n gorfod troi at ddefnyddio contractwyr yn lle gwirfoddolwyr i wneud rhywfaint o'r gwaith
- prosiectau'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i rai cyflenwadau a gorfod goresgyn problemau gyda chadwyni cyflenwi.

7.28 Mae trosglwyddo trefniadau gweinyddol y cynllun wedi effeithio ar brosiectau unigol mewn sawl ffordd, ond y prif oblygiadau oedd bod prosiectau a ariannwyd yn ystod y ddau Gyfnod cyllido olaf:

- yn llai tebygol o allu cyflawni eu huchelgeisiau yn llawn oherwydd bod ganddynt gyfnod cyflawni llawer byrrach
- wedi gorfod dyrannu llawer mwy o adnoddau i dasgau gweinyddol nag a ragwelwyd
- yn cael eu llesteirio gan ofynion caffael ac felly'n symud yn arafach na'r disgwyl

- â charfan o staff sydd wedi digalonni ac sy'n wirioneddol bryderus am faterion fel adfachu cyllid i'r graddau ei fod yn effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant.

7.29 Ymysg y prif ffactorau lleol ac unigol sydd wedi effeithio ar gyflawni'r prosiect mae:

- heriau sy'n gysylltiedig â chael caniatâd gan dirfeddianwyr i gael mynediad i safleoedd a gwneud gwaith arnynt
- anawsterau o ran cael trwyddedau a chaniatâd
- tywydd garw fel llifogydd yn effeithio ar waith paratoi tir.

**Cyflawni arloesedd drwy gynhyrchion, arferion, partneriaethau, prosesau a thechnolegau newydd**

7.30 Mae tystiolaeth eang o'r gwaith maes bod ENRaW wedi cyllido dulliau arloesol, arferion newydd, a phartneriaethau newydd.

7.31 Dywedodd llawer o'r prosiectau a gyfrannodd at y gwerthusiad fod cyllid ENRaW wedi'u galluogi i weithredu ar raddfa fwy, boed hynny ar raddfa ranbarthol neu ddalgylch. Roedd Llywodraeth Cymru wedi annog sawl un o'r rhain i ehangu eu cwmpas daearyddol a'r nifer neu'r math o bartneriaid a gymerodd ran yn ystod y cam ymgeisio. Un prosiect o'r fath sydd wedi manteisio ar amcan ENRaW o gyflawni ar lefel tirwedd yw'r prosiect Cysylltiadau Gwyrdd a ariannwyd yn ystod Cyfnod 3:

> Mae'r prosiect Cysylltiadau Gwyrdd ym Mhowys yn cael ei gyflawni gan dair Ymddiriedolaeth Natur sy'n gweithredu o fewn y sir. Mae'r Ymddiriedolaethau'n cydweithio am y tro cyntaf o ganlyniad i ENRaW ac wrth wneud hynny yn mabwysiadu dull tirwedd o ymdrin ag afon Gwy. Mae'r prosiect wedi chwarae rhan allweddol wrth gefnogi grwpiau cymunedol bach, gan gynnwys grŵp Cyfeillion Gwy Uchaf a sefydlwyd yn ddiweddar, gan roi hyfforddiant a chyngor iddynt yn ogystal ag arweiniad ar wneud cais am eu ffynonellau cyllid eu hunain. Mae'r prosiect wedi gallu ymestyn allan i grwpiau cymunedol newydd nad oedd gan bartneriaid y capasiti i wneud hynny o'r blaen. Mae'r prosiect hefyd yn sefydlu grwpiau cefnogi tirfeddianwyr a fydd yn darparu rhwydwaith parhaus i dirfeddianwyr i barhau â'r gweithgareddau ar ôl i'r cyllid ddod i ben.

7.32 Nid yw ehangu ardaloedd daearyddol a gwmpesir gan brosiectau bob amser wedi bod yn hawdd nac yn syml, ac adroddodd rhai prosiectau a ariannwyd ar yr heriau o weithio ar y raddfa hon gyda phartneriaid niferus:

> Mae prosiect y Bartneriaeth Grid Gwyrdd sy'n cwmpasu de-ddwyrain Cymru yn cynnwys chwe phartner awdurdod lleol, gyda Sir Fynwy yn bartner arweiniol. Roedd hanes cryf o gydweithio ar draws awdurdodau lleol y de-ddwyrain, gan gynnwys ar brosiectau fel Parc Rhanbarthol y Cymoedd a phrosiect Ucheldir de-ddwyrain Cymru ac felly mae partneriaeth ENRaW yn adeiladu ar hyn. Fodd bynnag, mae maint y prosiect ENRaW a'r ffaith bod cymaint o bartneriaid yn rhan ohono wedi creu heriau o ran cyflawni'r prosiect ond derbynnir y gellir cyflawni mwy drwy gydweithio. Mae'r bartneriaeth yn gweithio i ddatblygu dull mwy cyson o gynllunio seilwaith gwyrdd ar draws y rhanbarth ac mae wedi cydweithio ar ymgyrch sengl ar y cyd o dan y brand 'Natur Wyllt' i newid ymddygiad pobl mewn perthynas â thorri gwair.

7.33 Adroddodd prosiectau eraill a gyfrannodd at y gwerthusiad fod ENRaW wedi eu galluogi i sefydlu partneriaethau newydd, megis prosiect tair blynedd Cyfnod 1 Llanisien a Llys-faen dan arweiniad Dŵr Cymru, sydd bellach yn cael ei efelychu fel dull llwyddiannus mewn meysydd eraill yn ogystal â phrosiect Cyfnod 2 Llethrau Llon:

> Ystyriwyd bod ffurfio a chryfhau partneriaeth newydd yn gyflawniad allweddol ar gyfer prosiect cronfa ddŵr Llanisien a Llys-faen. Mae’r cyllid wedi eu galluogi i ffurfio partneriaeth graidd gref gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Caerdydd, a Grŵp Gweithredu Lleol. Mae'r cyllid hefyd wedi eu galluogi i ddatblygu a sefydlu ail garfan ehangach o dros 30 o sefydliadau sy'n cefnogi'r gwaith. Heb gyllid ENRaW, ni fyddai'r bartneriaeth wedi gallu bwrw ymlaen â'u cynlluniau a symud yn gyflym. Mae Dŵr Cymru yn bwriadu rheoli'r safle ar ôl cael cyllid ENRaW drwy benodi Rheolwr Asedau newydd a dau Barcmon a fydd yn gweithio gyda chyfeillion y grŵp. Ymchwilir hefyd i gyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol mewn partneriaeth â’r Bwrdd Iechyd.
>
> Mae'r dull a fabwysiadwyd yn Llanisien a Llys-faen yn dechrau dylanwadu ar bolisïau Dŵr Cymru ar gyfer cronfeydd dŵr eraill ledled Cymru, lle y gellir sicrhau mwy o ymgysylltiad â'r gymuned i helpu i nodi ffyrdd o wella mynediad, dehongliad, ac agweddau addysgol pob safle. Bydd rheolwr prosiect ENRaW hefyd yn cael ei ddyrchafu i rôl rheolwr

Cymru gyfan i helpu i gydlynu mewnbwn gwirfoddolwyr ar draws safleoedd cronfeydd dŵr eraill.

Mae'r prosiect Llethrau Llon yn bartneriaeth arloesol rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a’r Gwasanaethau Tân ac Achub, yn ogystal â phartneriaid eraill, i fynd i’r afael â phroblemau fel cynnau tanau'n fwriadol a thanau damweiniol ar lethrau bryniau. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar dde Cymru ond mae ganddo'r potensial i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi cenedlaethol a chyllid ar gyfer y materion hyn.

7.34 Roedd nifer o'r prosiectau a gyfrannodd at y gwerthusiad o'r farn bod cyllid ENRaW wedi'u galluogi i gryfhau dulliau presennol o weithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, mae prosiect Llwybrau i Lesiant Ramblers Cymru a ariannwyd yng Nghyfnod 3 yn galluogi’r partner arweiniol i weithio gyda’r holl awdurdodau lleol ledled Cymru ac mae prosiect Rhwydwaith Natur Cwm Taf Cyfnod 3 wedi dod â nifer o dimau cefn gwlad ynghyd o sawl awdurdod lleol i weithio'n agosach â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn gwella mynediad i gefn gwlad ac i warchod natur. Yn yr un modd, mae prosiect Caru Cymru Cadwch Gymru'n Daclus o Gyfnod 1 wedi galluogi’r partner arweiniol i hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid awdurdodau lleol am yr hyn sy’n gweithio a’r hyn nad yw’n gweithio o ran newid ymddygiad a sicrhau mwy o gyfatebiaeth rhwng gweithgareddau lleol ac ymgyrchoedd cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar leihau tipio anghyfreithlon, sbwriel a materion yn ymwneud â baw ci. Yn yr un modd, mae cyllid Cyfnod 3 ENRaW wedi galluogi'r Bartneriaeth Awyr Agored i ehangu ei darpariaeth i rannau o Gymru nad oedd yn gweithredu ynddynt o'r blaen, gan gynnwys canolbarth Cymru, de canol Gwent, a Bae Abertawe.

7.35 Nododd prosiectau ystod eang o gynhyrchion, technolegau a phrosesau arloesol yr oeddent yn eu mabwysiadu. Ymhlith yr enghreifftiau a nodwyd roedd y canlynol:

- adroddodd prosiect Tir Afon yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol o Gyfnod 1 ei fod yn defnyddio prosesau naturiol fel ail-ddolennu’r

afon, cyflwyno malurion coed, a lleihau effaith coredau a rhwystrau annaturiol yn hytrach na datrysiadau peirianyddol caled

- adroddodd prosiectau Afon Teifi a Chorsydd Teifi o Gyfnod 1 eu bod wedi defnyddio deunyddiau plastig wedi'u hailgylchu i adeiladu eu llwybrau pren
- adroddodd prosiect Afon Teifi o Gyfnod 1 ei fod wedi darparu codau QR i ddefnyddwyr ar hyd y llwybr er mwyn iddynt gael gwybodaeth a gwneud rhodd ariannol i gynnal a chadw'r llwybr
- adroddodd prosiect Llais y Goedwig o Gyfnod 1 ei fod wedi mabwysiadu dulliau arloesol yn ymwneud â'r celfyddydau a'r amgylchedd (e.e. ioga, ffotograffiaeth) fel ffordd newydd o ddenu carfan wahanol o bobl i ddefnyddio mannau awyr agored
- adroddodd y prosiect Dalgylch Dyfi mai dyma'r unig ardal yng Nghymru i gyflwyno afancod i'r gwyllt ar ôl cael trwydded.

**Cyflawni amcanion Meysydd Ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig**

7.36 Ymchwiliodd gwaith maes y gwerthusiad i'r graddau yr oedd prosiectau Cyfnodau 2 a 3, a ariannwyd drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig, yn cyflawni amcanion y Meysydd Ffocws. Mae'n ofynnol i brosiectau gyflawni chwe blaenoriaeth Meysydd Ffocws i gyd ac mae'r adborth yn awgrymu bod y rhain yn cael eu cyflawni yn y ffyrdd canlynol:

- mae trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig yn cael ei hwyluso gan nifer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar ddod â phartneriaid ynghyd, boed yn dirfeddianwyr o'r sector cyhoeddus neu'r sector preifat, i rannu profiadau ac arferion da. Mae rhai o'r prosiectau'n canolbwyntio'n benodol ar rannu arfer gorau ym maes rheoli tir, fel y prosiect Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog o Gyfnod 1.
- mae cystadleurwydd amaethyddiaeth a hyfywedd fferm yn cael ei wella'n bennaf gan y prosiectau hynny sy'n ymgysylltu â thirfeddianwyr fferm, er nad yw'n ymddangos bod hyn wedi bod yn ffocws sylweddol i'r prosiectau a gyfrannodd at y gwerthusiad hwn

- cymharol ychydig o dystiolaeth sydd wedi’i chasglu ynghylch sut y mae prosiectau ENRaW yn hyrwyddo trefnu'r gadwyn fwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth, a bydd angen mynd i’r afael â hyn yn ystod gwaith maes y gwerthusiad terfynol, er bod sawl enghraifft o fentrau tyfu bwyd cymunedol yn cael eu hariannu drwy’r cynllun
- mae llawer o brosiectau ENRaW yn canolbwyntio ar adfer, cadw a gwella ecosystemau - er nad yw'r rhain o reidrwydd yn rhai sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth. Ymhlith yr enghreifftiau a nodwyd mae plannu gweirgloddiau blodeuog a gerddi cymunedol i annog bioamrywiaeth, mynd i’r afael â llygredd a rhywogaethau anfrodorol ymledol i leihau’r effaith negyddol ar ecosystemau, cyflawni prosiectau peillwyr a rheoli nifer yr ymwelwyr mewn ardaloedd lle ceir cynefinoedd bywyd gwyllt hollbwysig.
- mae nifer o'r prosiectau ENRaW sydd wedi'u cynnwys yn y gwerthusiad yn cefnogi symud tuag at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Mae llawer o brosiectau wedi cynnwys gwneud gwelliannau i lwybrau cerdded a beicio ac mae un prosiect wedi prynu e-feiciau i'w defnyddio gan y gymuned. Mae sawl prosiect hefyd wedi bod yn ymwneud â phlannu coed ac adfer gweirgloddiau fel dulliau o atafaelu carbon a chyflawni niwtraliaeth o ran carbon
- mae llawer o'r prosiectau wedi'u hanelu at leihau effaith tlodi ac ysgogi datblygiad economaidd mewn ardaloedd gwledig, ac mae nifer o'r prosiectau a gefnogir yn ehangach gan ENRaW wedi'u lleoli mewn ardaloedd â lefel uchel o amddifadedd. Mae sawl prosiect yn annog cymunedau i gymryd perchnogaeth o adnoddau gwyrdd lleol ac yn mynd ati i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth, waeth beth fo'u problemau symudedd. Mae llawer o brosiectau sydd â lwfans cyfalaf wedi cymryd camau gweithredol i wneud eu safleoedd a'u gofod yn fwy hygyrch i bobl anabl a'r rhai â phroblemau symudedd megis pobl hŷn a theuluoedd â phlant ifanc.

**Cyflawni themâu ac amcanion trawsbynciol**

7.37 O ran tri amcan trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig (sef Arloesedd, yr Amgylchedd, ac addasu a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd) canfu'r gwaith maes dystiolaeth helaeth fod prosiectau a ariannwyd yn cynnig darpariaethau a gweithgareddau a fydd yn cyfrannu at yr amcanion hyn. Canfuwyd bod y prosiectau a ariannwyd:

- yn arloesol o ran y ffordd y maent yn gweithio, yn yr ystyr eu bod yn chwilio am atebion cydweithredol sydd â'r potensial i gael eu cynnal gan gymunedau a sefydliadau partner yn yr hirdymor; yn ogystal ag o ran y math o atebion yr ymchwilir iddynt. Nodir enghreifftiau o'r cynhyrchion a'r dulliau arloesol hyn ym mharagraff 3.5
- ag ystyriaethau amgylcheddol wrth eu gwraidd, yn yr ystyr eu bod wedi cael eu cyllido i ddiogelu a gwella amgylcheddau naturiol megis mannau gwyrdd, gweirgloddiau, coetiroedd, a llwybrau afonydd er budd bywyd gwyllt, natur a chymunedau lleol. Nid yw'n fwriad gennym ailadrodd yr enghreifftiau hyn yma gan eu bod yn cael eu trafod yn helaeth drwy'r adroddiad cyfan
- yn cymryd camau cadarnhaol helaeth a fydd yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae prosiectau a ariannwyd yn ymwneud â gwella cynefinoedd bywyd gwyllt, creu coridorau bioamrywiaeth, cael gwared ar rywogaethau anfrodorol ymledol, adfer gweirgloddiau a mawndiroedd, a chynyddu gorchudd coed a phlanhigion eraill.

7.38 O ran themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru (sef Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd, Datblygu Cynaliadwy a Threchu Tlodi) canfu'r gwaith maes dystiolaeth fod prosiectau a ariannwyd:

- yn cadw at bolisïau eu sefydliad mewn perthynas â chyfle cyfartal o ran arferion cyflogaeth ac yn mynd ati i sicrhau bod darpariaethau a oedd ar gael e.e. i wirfoddolwyr a buddiolwy, ar gael i bawb. Nododd llawer o brosiectau mai eu prif amcan oedd gwella mynediad i fannau a safleoedd gwyrdd er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch i aelodau o'u cymunedau na fyddent wedi'u defnyddio o'r

blaen. Amlygwyd sawl enghraifft o arfer da megis targedu grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r gymuned LHDTC+[34] gan brosiect Agor Drysau i'r Awyr Agored o Gyfnod 3 a sicrhau bod cyfleoedd gwirfoddoli ar gael i'r rhai ag anghenion addysgol arbennig (yn y prosiect Gwarchod Cymunedau o Gyfnod 1). Adroddodd prosiect Great Meadow Parc yr Esgob o Gyfnod 1 fod defnyddwyr y mannau hyn bellach yn llawer mwy amrywiol ac yn cynnwys teuluoedd â phlant ifanc yn ogystal â defnyddwyr cadeiriau olwyn. Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg ynghylch sut yr oedd prosiectau'n cynnwys prif ffrydio rhywedd yn eu gwaith

- yn rhoi datblygu cynaliadwy wrth eu gwraidd ac amcanion trosfwaol sy'n cyd-fynd â'r nod hwn. Nid yw'n fwriad gennym ailadrodd yr enghreifftiau hyn yma gan eu bod yn cael eu trafod drwy'r adroddiad cyfan
- soniodd llawer o brosiectau a gyfrannodd at y gwerthusiad hwn eu bod eisiau mynd i'r afael â'r rhwystrau ariannol a allai atal aelodau o'u cymuned rhag cael mynediad i fannau gwyrdd a chefn gwlad. Mae sawl prosiect wedi gwella mannau gwyrdd lleol y gall trigolion gael mynediad iddynt yn rhad ac am ddim, ac mae rhai yn cynnwys prosiectau tyfu bwyd y gall aelodau'r gymuned fod yn berchen arnynt.

**Y defnydd o'r Gymraeg**

7.39 Adroddodd prosiectau eu bod yn gwneud defnydd cyson o weithgareddau hyrwyddo a marchnata dwyieithog, gan gynnwys ar eu gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol. Dywedwyd hefyd bod yr holl arwyddion, paneli dehongli ac arwyddbyst a gynhyrchir yn cael eu paratoi'n ddwyieithog, yn unol â gofynion cyllido Llywodraeth Cymru.

7.40 Y tu hwnt i hyn, nododd nifer o brosiectau a gyfrannodd at y gwerthusiad arfer da o ran defnyddio'r Gymraeg a chefnogi seilwaith economaidd-

[34] Pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawryweddol a cwiar, pobl sy'n cwestiynau, ac eraill.

gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith. Ymhlith yr enghreifftiau a nodwyd roedd y canlynol:

- mae llawer o brosiectau yn cyflogi siaradwyr Cymraeg sy'n gallu hwyluso digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yn ddwyieithog a chyflwyno hyfforddiant neu ddigwyddiadau yn Gymraeg
- gall ysgolion gymryd rhan mewn prosiectau yn yr iaith o'u dewis
- mae un prosiect yn dathlu diwylliant Cymru, gan gynnwys mythau a chwedlau Cymreig, fel rhan o'i waith hyrwyddo i ymwelwyr
- mae un prosiect wedi gosod DPA[35] ar gyfer nifer y digwyddiadau Cymraeg a gynhelir ac ymholiadau yr ymdrinnir â nhw yn Gymraeg
- mae un prosiect wedi darparu gwersi Cymraeg am ddim i aelodau o'r gymuned sy'n ymwneud â'r prosiect ac mae un arall yn cynnal cwrs awyr agored yn benodol ar gyfer dysgwyr Cymraeg sy'n cael eu cefnogi i siarad Cymraeg yn ystod yr hyfforddiant
- mae un prosiect wedi mabwysiadu cynnig rhagweithiol, sef bod y cyfathrebu yn dechrau yn Gymraeg ac yn cael ei gynnig i gyfranogwyr
- mae un prosiect wedi cydweithio gyda'r Fenter Iaith leol i ddarganfod sut y gall wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn ei ddarpariaeth ac ers hynny mae wedi sicrhau bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o derminoleg Gymraeg, megis enwau Cymraeg ar blanhigion. [36]

[35] Dangosydd Perfformiad Allweddol

[36] Menter Iaith Gymunedol

## 8. Manteision a chanlyniadau a gyflawnwyd

8.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y manteision a'r canlyniadau a ddeilliodd o'r holl brosiectau ENRaW a gwblhawyd. Mae hefyd yn ystyried yr adborth a gasglwyd ar y gwerth am arian a gyflawnwyd hyd yma a chanfyddiadau'r prosiectau a ariannwyd o'r hyn a fyddai wedi digwydd yn absenoldeb cymorth ENRaW, yn ogystal â chyfeirio at adborth gan ymgeiswyr aflwyddiannus. Yn olaf, mae'n ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad ynghylch cynaliadwyedd prosiectau a phartneriaethau ar ôl i gyllid ENRaW ddod i ben.

**Cyflawni canlyniadau traws-sector**

8.2 Mae'r adborth a gasglwyd gan brosiectau sydd wedi'u cwblhau a phrosiectau sy'n mynd rhagddynt yn awgrymu'n gryf eu bod yn cyflawni canlyniadau sy'n berthnasol i wahanol bolisïau a sectorau. Adroddodd un prosiect o'r fath eu bod yn cyflawni hyn gan fod rhywfaint o'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd iechyd a llesiant ynghyd â gwelliannau amgylcheddol e.e. gweithgareddau nofio gwyllt sy'n cael eu cyfuno â sesiynau glanhau traethau.

8.3 Roedd gan y prosiectau a gyfwelwyd hefyd farn gref eu bod yn gallu cyflawni llawer mwy drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill na'r hyn a gyflawnwyd ganddynt ar eu pen eu hunain. Roedd hefyd yn wir:

- bod bron i ddwy ran o dair o brosiectau Cyfnod 1 a gwblhawyd (10 o blith 16) yn meddwl bod cyllid ENRaW wedi eu helpu i gryfhau partneriaeth a oedd eisoes yn bodoli
- bod hanner y prosiectau Cyfnod 1 a gwblhawyd (8 o 16) o’r farn bod cyllid ENRaW wedi’u helpu i ehangu nifer yr aelodau o fewn partneriaeth a oedd eisoes yn bodoli
- bod ychydig yn llai na hanner y prosiectau Cyfnod 1 a gwblhawyd (7 o blith 16) yn meddwl bod cyllid ENRaW wedi eu helpu i sefydlu partneriaeth newydd


- roedd traean o brosiectau Cyfnod 1 a gwblhawyd (6 o blith 16) yn meddwl bod cyllid ENRaW wedi eu helpu i ehangu ystod yr aelodau o fewn partneriaeth a oedd eisoes yn bodoli

8.4 O ran y gwahaniaeth sy’n cael ei wneud yn y cyfnod canol tymor hwn, rydym yn cyfeirio'n bennaf at gyflawniadau ac effaith prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnod 1 (gan gynnwys y rhai sydd wedi cael rhagor o gyllid ers hynny) ar y sail bod llawer o’r adborth gan brosiectau mwy newydd wedi’u cyllido yn ystod Cyfnodau 2 a 3 yn awgrymu ei bod yn rhy gynnar iddynt adrodd ar y gwahaniaeth yr oeddent wedi'i wneud. Dywedwyd bod casglu tystiolaeth am y canlyniadau a gyflawnwyd yn fwy heriol i rai prosiectau, yn enwedig y rhai a oedd yn dibynnu ar sefydliadau partner i gasglu data o'r fath iddynt ac adrodd ar y data hyn fel sefydliadau arweiniol. Mewn un achos er enghraifft, dywedodd y sefydliad arweiniol ei fod yn treulio llawer o amser yn ffonio partneriaid a gwirfoddolwyr i gasglu gwybodaeth am allbynnau megis nifer y bagiau sbwriel a gasglwyd ond ei bod bron yn amhosibl iddynt fesur a yw eu hymyrraeth yn cael effaith gadarnhaol ar lefelau sbwriel yn y cymunedau hyn.

**Prosiectau Cyfnod 1 a gwblhawyd**

8.5 Pan ofynnwyd iddynt am y manteision a ddeilliodd o'r prosiectau, roedd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol o amlygu manteision cymunedol, cymdeithasol ac amgylcheddol eu gweithredoedd ac yn llai tebygol o nodi manteision diwylliannol ac economaidd, fel y dangosir yn Ffigur 8.1. Adleisiwyd hyn yn yr adborth a gasglwyd drwy'r gwaith maes ansoddol a nodir isod ar gyfer pob un o'r meysydd canlyniadau unigol yr oedd ENRaW yn bwriadu canolbwyntio arnynt.

**Ffigur 8.1: Manteision yn deillio o brosiectau a gwblhawyd a gymerodd ran yn yr arolwg**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (16 o brosiectau Cyfnod 1 a ariannwyd ac a gwblhawyd)

### Manteision cymunedol a chymdeithasol

8.6 Cyflawnwyd ystod eang o fanteision cymunedol a chymdeithasol drwy brosiectau a gwblhawyd. Mae'r rhai y cyfeiriwyd atynt amlaf yn cynnwys:

- gweithgareddau'n seiliedig ar ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned, i sicrhau bod y darpariaethau sydd ar gael gan brosiectau a ariannwyd yn diwallu anghenion cymunedau lleol
- gwell cyfleusterau yn eu cymuned sydd wedi cynnwys llwybrau a mannau gwyrdd gwell a mwy hygyrch; gydag arwyddion gwell ac sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol; sydd yn ei dro wedi arwain at gynnydd yn y defnydd gan ystod ehangach o drigolion lleol a grwpiau cymunedol at ddibenion megis cerdded a garddio. Adroddodd prosiect Llwybrau i Lesiant Ramblers Cymru fod gwelliannau i lwybrau lleol a datblygiad tua 144 o lwybrau cymunedol fel rhan o'r prosiect wedi arwain at gynnydd yn y defnydd gan gerddwyr.
- mwy o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal mewn cymunedau, gan gynnwys digwyddiadau fel picnics, sesiynau bywyd gwyllt a

theithiau cerdded bywyd gwyllt sydd yn eu tro wedi arwain at ystod fwy amrywiol ac ehangach o bobl leol yn gwneud defnydd o’u hamgylcheddau lleol at ystod ehangach o ddibenion

- cynyddu grwpiau cymunedol wrth i nifer o brosiectau fynd ati i sefydlu grwpiau newydd o wirfoddolwyr er mwyn cynnal llawer o'r gwelliannau lleol a gyflawnwyd. Roedd prosiectau’n ymwybodol o’r angen i gefnogi’r rhain i ddod yn grwpiau hunangynhaliol a chredwyd y bydd y graddau y byddant yn cyflawni hyn yn amrywio
- cynnydd mewn perchnogaeth gymunedol o asedau a gweithgareddau, gyda sawl prosiect yn nodi eu bod wedi galluogi a hyfforddi aelodau o'r gymuned a grwpiau cymunedol i gynnal cyfleusterau a gofodau ar ôl i brosiect ENRaW ddod i ben. Mae’r prosiect Gwarchod Cymunedau er enghraifft wedi rhoi’r sgiliau a’r wybodaeth i Grwpiau Cyfeillion reoli eu hasedau gwyrdd yn well a chyfyngu ar ledaeniad rhywogaethau anfrodorol ymledol megis Jac y Neidiwr

8.7 Nodwyd mathau eraill o fanteision cymunedol gan brosiectau unigol, megis prosiect Bro'r Sgydau ym Mannau Brycheiniog a oedd wedi llwyddo i wella amodau i drigolion lleol yn ystod y tymor twristiaeth prysur drwy greu meysydd parcio ychwanegol, cyflwyno cyfyngiadau parcio llinell felen, darparu toiledau a rheoli llif y traffig yn well.

8.8 Mae’r enghreifftiau canlynol yn dangos sut y mae ENRaW wedi cefnogi prosiectau i sicrhau manteision cymunedol a chymdeithasol:

> Ystyrir bod sicrhau perchnogaeth gymunedol ar weirgloddiau bldoeuog newydd yn ganlyniad llwyddiannus i Brosiect Seilwaith Gwyrdd Cyfnod 1 Wrecsam, a mabwysiadwyd llawer o'r hyn a ddysgwyd o ymdrechion blaenorol i blannu coed heb ymgynghori â’r gymuned nac ymgysylltu â hi. I ddechrau, roedd cymunedau lleol Parc Caia a Phlas Madog braidd yn amharod i groesawu'r datblygiadau arfaethedig, gan fod coed blaenorol a blannwyd yn eu cymunedau wedi cael eu gadael i dyfu gan greu mannau a oedd wedi cael eu defnyddio ar gyfer gwaredu sbwriel, tipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Un o'r gwersi allweddol fu'r angen i ymgynghori â'r gymuned a chael ei chefnogaeth, a chanfod ffordd, drwy gangen Gwasanaethau Stryd yr awdurdod lleol, i

gynnal y gweirgloddiau ar ôl i'r cyllid ddod i ben a phan fydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn camu yn ôl o'i rôl cynnal a chadw. Mae staff y Gwasanaethau Stryd wedi'u hyfforddi a'u paratoi i gynnal y safle ar ôl i'r cyllid ddod i ben.

Mae prosiect Pafiliwn Grange yng Nghaerdydd wedi cefnogi datblygiad mannau awyr agored, ystafelloedd dosbarth awyr agored, a storfa offer garddio at ddefnydd trigolion lleol Grangetown. Mae’r prosiect wedi creu man gwyrdd newydd a hygyrch mewn cymuned lle ceir lefel uchel o amddifadedd, nifer fawr o dai amlfeddiannaeth ac ychydig iawn o ofod awyr agored, os o gwbl.

**Manteision o ran iechyd a llesiant**

8.9 Canfu’r gwaith maes fod prosiectau Cyfnod 1 a gwblhawyd wedi creu ystod eang o fanteision iechyd a llesiant i gyfranogwyr a gwirfoddolwyr sydd wedi cymryd rhan ynddynt, er y tybir bod y canlyniadau hyn wedi digwydd mewn rhai o’r achosion hyn o ganlyniad i fwy o weithgarwch neu newid mewn ymddygiad. Mewn sawl achos, yn enwedig lle na fu cysylltiad uniongyrchol a pharhaus â chyfranogwyr, nid yw'r prosiectau wedi casglu unrhyw ddata i fonitro newidiadau mewn iechyd a llesiant. Fodd bynnag, mae eraill wedi gwneud hyn yn effeithiol gan ddefnyddio offer fel Outcomes Star a Graddfa Llesiant Meddyliol Caeredin Warwick i adrodd ar newidiadau ymysg cyfranogwyr.

8.10 Ymysg y manteision i iechyd a llesiant a nodwyd mae:

- gwell iechyd corfforol o ganlyniad i ddefnydd cynyddol o fannau awyr agored ar gyfer ymarfer corff, megis cerdded a beicio. Er enghraifft, gwelwyd cynnydd blynyddol yn y defnydd o lwybr pren newydd a osodwyd fel rhan o brosiect Afon Teifi o 10,000 i 30,000 o ddefnyddwyr ers i’r llwybr gael ei gwblhau a thybir y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl
- pobl yn teimlo'n llai ynysig a gwelliant i iechyd meddwl fel llai o orbryder ac iselder, o ganlyniad i fod yn rhan o grwpiau cymunedol a gwirfoddoli newydd, gan gynnwys gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol. Mewn un achos dywedodd preswylwyr cartrefi gofal

fod eu llesiant wedi gwella o ganlyniad i ymwneud ag ysgol goedwig yn eu cartref gofal

- gwell deiet a mynediad i gynnyrch ffres, rhad ac am ddim a gynhyrchwyd yn lleol fel rhan o brosiectau gerddi cymunedol a rhandiroedd.

8.11 Mae cwpl o brosiectau yn dangos y canlyniadau iechyd a llesiant a gyflawnwyd:

Prynodd prosiect Tir Afon e-feiciau, i'w defnyddio i ddechrau fel rhan o gynllun atgyfeirio gan Feddygon Teulu. Roedd y pandemig yn golygu bod yn rhaid defnyddio'r e-feiciau mewn ffordd wahanol i'r hyn a fwriadwyd ac maent bellach yn cael eu defnyddio gan bartner yr awdurdod lleol i gynnal sesiynau grŵp i drigolion lleol fel rhan o raglen ffitrwydd y ganolfan hamdden. Mae hyfforddwyr yn mynd â hyd at 10 o gyfranogwyr allan ar bob reid, gyda thair reid yr wythnos yn cael eu trefnu. Mae cyfranogwyr yn dweud bod ganddynt well iechyd corfforol, mwy o hyder, gwell llesiant, eu bod yn teimlo'n llai ynysig, a bod ganddynt fwy o fynediad i'r awyr agored a chefn gwlad lleol. Mae adborth gan gyfranogwyr a gasglwyd gan y prosiect fel a ganlyn:

'Rhoddodd y cyfle brofiad i mi o E-feicio na fyddwn i wedi gallu ei fforddio fel arall ac mae wedi fy nghyflwyno i lwybrau na fyddwn i wedi rhoi cynnig arnyn nhw ar feic arferol. Mae'r wefr o feicio ar hyd llwybrau coedwig, croesi nant a pheidio â 'cholli stêm' wedi bod yn anhygoel!'

Mae gwerthusiad annibynnol o brosiect peilot Trywydd Iach Outdoor Health yn rhoi cipolwg ar effaith un prosiect presgripsiynu cymdeithasol ar iechyd a llesiant.

Roedd y peilot blwyddyn yn cynnwys sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr iechyd, sefydliadau amgylcheddol, darparwyr gweithgareddau awyr agored, a sefydliadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a threialu pedwar gweithgaredd yn ymwneud â therapi anifeiliaid, sgiliau a chrefftau coetir, grŵp cerdded, a grŵp garddio. Gallai'r cyfranogwyr gael eu cyfeirio gan bartneriaid neu eu cyfeirio eu hunain at y gweithgareddau hyn. Canfu'r peilot fod trafnidiaeth gyhoeddus yn aml yn rhwystr mawr i ymgysylltu, ac felly lhefyd rwystrau cymdeithasol fel nerfusrwydd i fynychu gweithgareddau ar eu pen eu hunain neu gwrdd â phobl newydd. Bu nifer fach o gyfranogwyr (25) yn treialu'r gweithgareddau gan ddweud eu bod wedi eu mwynhau. Nododd tua 57 y cant welliant yn eu llesiant yn erbyn Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin o ganlyniad i

gymryd rhan a chynyddodd eu hiechyd hunangofnodedig ymhlith y nifer fach (8) a gwblhaodd holiaduron cyn ac ar ôl y gweithgareddau (gan ddefnyddio'r raddfa EQ-5D[37]). Nododd y gwerthusiad fod y prosiect yn dechrau cael mwy o gefnogaeth gan feddygon teulu ond bod angen ei ddarparu dros gyfnod hwy er mwyn ymgorffori'r dull yn llawn. Roedd adborth gan gyfranogwyr yn cynnwys y canlynol:

'rhoddodd hyn ffocws i'r diwrnod a'm helpu i deimlo'n rhan o gymuned… fe wnaeth leddfu fy mhryder a gwneud i mi fynd allan i'r awyr agored ar adeg pan na fyddwn i'n mynd allan fel arfer'

'roedd y cyfle i anghofio am waith, gofidiau a phryderon a bod yng nghwmni anifeiliaid yn berffaith'.

8.12 At ei gilydd, awgryma'r adborth fod cynlluniau atgyfeirio pobl i wneud ymarfer corff a darpariaethau presgripsiynu cymdeithasol wedi'i chael hi'n anodd cael eu traed danynt i ddechrau, yn bennaf oherwydd effaith y pandemig COVID-19 ar weithwyr proffesiynol yn y sector iechyd, ac felly maent wedi cyflawni llai o ganlyniadau na'r disgwyl. Roedd un prosiect o'r fath yn ei chael hi'n amhosibl ymgysylltu â darparwyr gofal iechyd yn ystod y pandemig a bu'n rhaid iddo ymchwilio i ffyrdd eraill o annog pobl leol i wneud mwy o ddefnydd o asedau gwyrdd newydd. Mae eraill, fel y crybwyllwyd uchod, wedi dysgu llawer o wersi am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sy'n cyfyngu ar arferion presgripsiynu cymdeithasol effeithiol. Mae'n ymddangos hefyd bod prosiectau sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau sydd â phrofiad blaenorol a chysylltiadau cryf â sefydliadau atgyfeirio wedi wynebu llai o broblemau wrth gyflwyno gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol a phresgripsiynu gwyrdd, fel yn achos un prosiect Cyfnod 3 a awgrymodd ei fod wedi gallu adeiladu ar brofiad ac arferion presennol.

**Manteision amgylcheddol**

8.13 Roedd mwyafrif helaeth y prosiectau Cyfnod 1 a gwblhawyd a gyfrannodd at y gwerthusiad hwn yn credu bod eu prosiectau wedi cymryd camau a fyddai'n arwain at welliannau a manteision amgylcheddol. Mae'n bwysig nodi fodd bynnag mai dim ond yn y tymor hir y bydd y manteision

[37] Arolwg hunangofnodi yw EQ-5D sy'n mesur ansawdd bywyd ar draws pum maes - symudedd, hunanofal, gweithgareddau arferol, poen/anghysur, a gorbryder/iselder. Mae pob dimensiwn yn cael ei sgorio ar restr difrifoldeb 5 lefel sy'n amrywio o 'ddim problemau' i 'broblemau eithafol'

amgylcheddol hyn yn dod i'r amlwg ac ni fydd yn bosibl i brosiectau ddangos tystiolaeth ohonynt yn ystod oes y prosiect. Mae’r math o gamau gweithredu a manteision a ragwelir yn cynnwys y canlynol:

- nododd nifer o brosiectau eu bod wedi gwella llwybrau troed neu gyflwyno llwybrau pren a fyddai'n helpu i gyfyngu ar effaith negyddol pobl ar lystyfiant
- roedd rhai wedi glanhau amgylcheddau lleol drwy gefnogi gwirfoddolwyr gyda chasglu sbwriel, delio â thipio anghyfreithlon, delio â baw ci a materion yn ymwneud â llosgi bwriadol a thanau mewn ardaloedd gwledig
- dywedodd sawl prosiect fod gwybodaeth y cyfranogwyr am yr amgylchedd a natur wedi gwella o ganlyniad i hyfforddiant a sgyrsiau, gan gynnwys gwybodaeth am rywogaethau penodol, ecosystemau, a chynnal a chadw
- roedd sawl prosiect wedi gwella neu blannu gweirgloddiau, coed a bylbiau newydd a'r gobaith oedd y byddent yn helpu i hyrwyddo bywyd gwyllt a chynyddu bioamrywiaeth leol. Mewn rhai achosion, y gobaith hefyd oedd y byddai plannu coed yn helpu i leihau sŵn a llygredd aer o draffig trwm
- roedd sawl prosiect wedi creu gerddi cymunedol a phrosiectau tyfu bwyd, gan gynnwys creu perllannau o goed ffrwythau a fyddai’n helpu i gynyddu pryfed peillio yn ogystal â bod o fudd i drigolion lleol
- mae rhai prosiectau wedi bod yn ymwneud â rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol, gan roi'r cymhelliant, y sgiliau neu'r cyfarpar i grwpiau gwirfoddol lleol gynnal y gwaith hwn yn y tymor hwy.

8.14 Roedd cwpl o brosiectau Cyfnod 1 a gwblhawyd yn obeithiol y byddai eu gwaith datblygu cychwynnol yn arwain at fanteision amgylcheddol. Roedd y rhain yn cynnwys prosiectau a oedd wedi datblygu cynlluniau gweithredu, wedi cynnal arolygon ecolegol, ac wedi drafftio cynlluniau rheoli ecolegol i wella'r gwaith o reoli safleoedd megis cynefinoedd gweirgloddiau. Dadleuodd y prosiectau hyn y byddai cynlluniau o’r fath o fudd i natur ac

ecosystemau yn ddiweddarach, ond roedd yn rhy gynnar i nodi’r effeithiau ar hyn o bryd.

Roedd dau fuddiolwr, a oedd yn ymwneud â'r prosiect Caru Cymru, wedi cymryd rhan gan eu bod eisiau cadw eu pentref neu ystâd o dai lleol yn lân ac yn daclus. Dywedodd y buddiolwyr hyn eu bod wedi elwa o hyfforddiant iechyd a diogelwch yn ymwneud â chasglu sbwriel. Maent hefyd yn gallu defnyddio'r cyfarpar ac mae'r prosiect yn trefnu i'r sbwriel a gesglir gael ei gludo ymaith. Mae'r ddau fuddiolwr yn arwyr sbwriel ar gyfer eu hardal leol ac yn gysylltiadau allweddol i bobl eraill sydd am gymryd rhan yn lleol. Mewn un achos, mae trigolion lleol eraill wedi cymryd rhan ers gweld gwaith yr arwyr sbwriel ac yn yr achos arall, mae nifer fawr o bobl bellach yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgaredd casglu sbwriel. Dywedodd y buddiolwyr fod llai o sbwriel yn eu hardaloedd lleol o ganlyniad i hynny. Mewn un achos mae'r arwyr sbwriel yn rhoi sgyrsiau am gadw'r amgylchedd lleol yn lân yn yr ysgol leol. Mae arwyr sbwriel yn chwarae rhan allweddol yn y broses o ddarparu adborth am natur y sbwriel sy'n cael ei gasglu e.e., cynnydd diweddar mewn e-sigaréts untro sy'n cael eu casglu. Mewn un achos, mae’r gwaith casglu sbwriel yn helpu trigolion lleol i greu ymdeimlad o gymuned ar draws ystâd o dai gweddol newydd.

Mae un prosiect (prosiect Dalgylch Dyfi) wedi recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr lleol i fod yn rhan o ailgyflwyno afancod i'r gwyllt. Cymerodd un gwirfoddolwr, sy'n ecolegydd wrth ei alwedigaeth, ran oherwydd diddordeb gwirioneddol yn y rhywogaeth a'i fod am eu gweld yn goroesi. Hyd yma, mae eu hymwneud â’r prosiect wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â’r gymuned i godi ymwybyddiaeth a hwyluso sgyrsiau am faterion sy’n ymwneud ag ailgyflwyno afancod i’r gwyllt. Maent hefyd wedi elwa o hyfforddiant a ddarparwyd gan y prosiect ar ailgyflwyno a rheoli afancod yn y gwyllt. Mae hyn wedi cynnwys ymweliad â Bafaria yn yr Almaen i ddysgu sut y mae prosiect tebyg wedi ailgyflwyno afancod i'r gwyllt a'r effaith y gall hyn ei chael ar amgylcheddau a chymunedau lleol.

**Manteision economaidd**

8.15 Yn gyffredinol, ychydig o'r prosiectau Cyfnod 1 a gwblhawyd a allai ddangos tystiolaeth bod eu prosiect wedi creu canlyniadau economaidd cadarnhaol, er bod rhai yn obeithiol y byddai'r rhain yn cael eu gwireddu maes o law. Roedd y brif fantais economaidd a nodwyd gan brosiectau a gwblhawyd yn ymwneud â defnyddio contractwyr lleol i gyflawni gwaith a

ariannwyd gan gyfalaf. Roedd yr ail fudd economaidd yn ymwneud â chynyddu sgiliau gwirfoddolwyr o ganlyniad i gyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli a ddarperir gan brosiectau a ariannwyd. Mewn llawer o achosion, adroddodd y prosiectau fod gwirfoddolwyr a chyfranogwyr yn gwella eu sgiliau gwyrdd a chadwraeth, megis tyfu bwyd, monitro rhywogaethau a defnyddio cyfarpar. Mae rhai prosiectau, megis y prosiect Agor Drysau i'r Awyr Agored, yn darparu cyfleoedd hyfforddi achrededig i gyfranogwyr sy'n fwy tebygol o gael eu defnyddio gan unigolion at ddibenion chwilio am waith.

8.16 Y prosiectau a oedd yn rhoi mwy o bwyslais ar ddenu mwy o ymwelwyr a chynhyrchu incwm o hyn oedd fwyaf tebygol o nodi manteision economaidd posibl. Roedd y rhain yn cynnwys prosiect Bro'r Sgydau Bannau Brycheiniog a oedd yn rhagweld y byddai'r economi leol yn elwa o gynnydd yn nifer y twristiaid a'r gwariant ganddynt; prosiect Afancod Dalgylch Dyfi a oedd yn rhagweld y byddai'n denu mwy o dwristiaid i'r ardal; a phrosiect Great Meadow Parc yr Esgob a fyddai'n denu mwy o ymwelwyr a fyddai yn eu tro yn defnyddio ei gyfleusterau caffi.

**Gwerth am arian**

8.17 Roedd prosiectau Cyfnod 1 a gwblhawyd yn meddwl eu bod wedi darparu gwerth da am arian yn gyffredinol. Roedd tua dwy ran o bump o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg (7 o blith 16) yn meddwl eu bod wedi darparu gwerth eithriadol am arian ac roedd yr hanner arall (8 o blith 16) yn meddwl eu bod wedi darparu gwerth da iawn am arian. Roedd un prosiect arall o'r farn ei fod wedi darparu gwerth teg am arian. Er cymhariaeth, roedd prosiectau Cyfnodau 2 a 3 a gyfwelwyd yn meddwl eu bod yn cyflawni gwerth eithaf da am arian, ond yn dadlau y gallai hyn fod yn llawer gwell pe na baent wedi'u llesteirio gan broblemau'n ymwneud â gweinyddu'r grantiau a oedd yn achosi oedi ac a oedd yn defnyddio mwy o adnoddau gweinyddol nag a ragwelwyd.

8.18 Mae'r prif ffactorau sydd i'w priodoli i werth da am arian yn cynnwys y canlynol:

- mae prosiectau'n manteisio ar sgiliau, gwybodaeth a chyrhaeddiad ystod eang o sefydliadau partner h.y. bod eu swm yn fwy na’u rhannau unigol
- mae cyllid ENRaW wedi galluogi partneriaethau i ddefnyddio ffynonellau cyllid eraill o fewn y bartneriaeth ac yn allanol
- mae prosiectau'n gallu cael mewnbwn gan wirfoddolwyr
- mae arian yn cael ei wario'n uniongyrchol ar gefnogi swyddi, contractwyr a busnesau gwledig lleol
- mae defnyddio pyrth tendro fel GwerthwchiGymru i ddod o hyd i gyflenwyr yn golygu bod prosiectau'n cael contractwyr mwy cystadleuol.

8.19 Mae’r adborth a gasglwyd drwy’r gwerthusiad yn awgrymu’n gryf na fyddai llawer o brosiectau wedi bodoli o gwbl yn absenoldeb cyllid ENRaW. Byddai eraill wedi gwneud cynnydd gydag elfennau o'u prosiect, yn enwedig y rhai lle roedd rhyw fath o drefniant cydweithio eisoes ar waith rhwng partneriaid megis yn achos Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr achosion hynny, mae'n amlwg na fyddai prosiectau wedi cael eu cyflawni ar yr un raddfa neu gyflymder heb gyllid ENRaW. Ni fyddai gan lawer o'r prosiectau yr adnoddau i benodi staff prosiect i gyflawni a chydlynu mentrau.

'rhoddodd ENRaW ryddid i ni ganolbwyntio. Gellid bod wedi'i wneud dros amser, ond byddai'n llai trawiadol - rhoddodd yr arian yr hyn y gwnaethom ei ddarlunio ar bapur.'

**Yr hyn sydd wedi digwydd i'r rhai na chawsant gyllid**

8.20 Nid oedd rhyw chwech o'r ymatebwyr i'r arolwg erioed wedi cael unrhyw gyllid drwy ENRaW a chyfwelwyd un o'r rhain hefyd fel rhan o'r gwaith maes. Pan ofynnwyd iddynt am yr adborth a roddwyd ar eu cais aflwyddiannus, cyflwynwyd amrywiaeth o safbwyntiau. Teimlai dau fod eu profiad wedi bod yn 'wastraff amser' ac nid ydynt wedi gwneud cais am unrhyw gyllid arall i gefnogi eu prosiect. Roedd dau arall yn cofio bod yr adborth yn 'amwys', 'ddim yn arbennig o ddefnyddiol' ac yn 'annheg'. Fodd

bynnag, roedd y chweched o'r farn bod yr adborth wedi bod yn 'fanwl ac adeiladol iawn'.

8.21 Y prif reswm a roddwyd gan un ymgeisydd a gyfwelwyd dros beidio â mynd ar drywydd y prosiect arfaethedig oedd diffyg capasiti staff ac effaith y pandemig:

'Cafodd Covid effaith fawr ar lwyth gwaith, straen, a phobl, mae wedi effeithio ar gapasiti staff. Rydym yn gobeithio edrych ar gyllidwyr eraill megis y Loteri i wneud y gwaith'.

8.22 Roedd un o’r chwe ymgeisydd aflwyddiannus hyn yn cofio iddo wneud cais yn ystod Cyfnod 1 a dywedodd:

'Cawsom yr argraff eu bod yn chwilio am brosiectau mawr gyda phartneriaid. Roedd yn teimlo'n gymhleth dod â phobl ynghyd fel partneriaid a bod yn gyfrifol am y prosiect cyfan. Rwy'n meddwl bod y ffaith nad oedd gennym bartneriaid wedi cyfrif yn ein herbyn.'

8.23 Gallai rhai o’r prosiectau a ariannwyd gan ENRaW ac a gyfwelwyd hefyd gofio'r adborth a gawsant ar eu ceisiadau aflwyddiannus ac yn gyffredinol roeddent o’r farn ei fod wedi bod yn ddefnyddiol wrth baratoi cais diwygiedig a sicrhau cyllid yn ystod cyfnodau diweddarach. Roedd un prosiect o'r fath yn cofio bod yr adborth yn nodi bod angen i'w prosiect fod yn draws-sirol, ei fod yn rhy fawr ar gyfer yr amserlenni a bod angen mwy o bartneriaid arnynt. Rhoddwyd ystyriaeth i'r pwyntiau hyn ar gyfer eu hail gais llwyddiannus.

8.24 Roedd cynrychiolydd arall o sefydliad arweiniol a ymgeisiodd yn cofio mai dim ond ar ôl gofyn amdano y cafodd adborth, yn dilyn cais aflwyddiannus yn ystod Cyfnod 1. Yn yr achos hwn teimlwyd bod yr adborth yn ailadrodd canllawiau, a byddai sgwrs bersonol wedi bod yn fwy defnyddiol er mwyn dadansoddi terminoleg y cynllun.

8.25 Mewn tri achos lle nad oedd yr ymgeiswyr wedi llwyddo i gael unrhyw gyllid gan ENRaW, bu cydweithio pellach rhwng partneriaid prosiectau gan ganolbwyntio ar sicrhau ffynonellau cyllid eraill i gefnogi eu syniad. Yn un o'r achosion hyn roedd y sefydliad yn bartneriaid mewn cais llwyddiannus arall i ENRaW.

8.26 Mewn tri achos, roedd yr ymgeiswyr wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus am gyllid arall i gefnogi eu prosiect arfaethedig. Adroddwyd bod y ffynonellau cyllid eraill a sicrhawyd yn dod o:

- ymddiriedolaethau, sefydliadau, a chronfeydd grantiau bach
- adran arall o'r un awdurdod lleol
- Cynllun Y Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru
- y Gronfa Adfywio Cymunedol
- Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

**Cynaliadwyedd ar ôl i gyllid ENRaW ddod i ben**

8.27 At ei gilydd, mae tystiolaeth dda o'r gwaith maes bod prosiectau a phartneriaethau a ariannwyd yng Nghyfnod 1 ENRaW yn cael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben neu'n debygol o gael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben yn achos prosiectau parhaus. Yn y mwyafrif llethol o achosion roedd gweithgareddau'n parhau ac mae prosiectau partneriaeth cydweithredol yn dal i fod ar waith. Mae'r ffyrdd y mae gweithgareddau'n cael eu cynnal ar ôl i'r cyllid dod i ben yn cynnwys y canlynol:

- mae cynnal a chadw asedau a gofodau yn rhan o gylch gwaith rhai sefydliadau arweiniol a chaiff hyn ei ariannu drwy eu cyllid craidd, a gefnogir yn aml gan fewnbwn gan wirfoddolwyr a chymunedau
- mae partneriaid yn parhau i gydweithio i gael gafael ar ragor o gyllid. Mewn rhai achosion mae cyllid eisoes wedi'i sicrhau, ond mewn achosion eraill mae partneriaid yn gweithio ar geisiadau am gyllid. Mae rhai yn gobeithio gwella eu cynaliadwyedd ariannol drwy sicrhau incwm masnachol. Mewn un achos mae tuag £1.2 miliwn wedi'i sicrhau gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'r bartneriaeth yn ceisio cyllid pellach o £7 i £8 miliwn dros y blynyddoedd nesaf. Mewn achos arall cyflwynwyd cais am gyllid o £3 miliwn o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac mae ceisiadau eraill am gyllid gwerth £10 miliwn yn cael eu datblygu i drawsnewid ardal y prosiect

- mae partneriaid yn parhau i gydweithio a darparu cymorth parhaus i grwpiau cymunedol sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r prosiect. Mewn rhai achosion, mae sefydliadau partner wedi ymgymryd â gwaith cynnal a chadw safleoedd a gofodau
- mae grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr wedi cymryd, neu yn y broses o gymryd, y cyfrifoldeb dros fannau gwyrdd lleol boed yn erddi cymunedol, gweirgloddiau, llwybrau, neu randiroedd
- pwysleisiodd rhai partneriaid fod eu prosiectau cyfalaf wedi'u cynllunio i bara ac i wrthsefyll tywydd garw
- mae rhai partneriaid arweiniol wedi ymrwymo i ariannu rôl y rheolwr prosiect yn barhaus oherwydd llwyddiant y dull a ariannwyd gan ENRaW. Er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cadw'r swyddog prosiect sy'n gyfrifol am brosiect Seilwaith Gwyrdd Wrecsam er mwyn ehangu'r dull i rannau eraill o'r sir. Yn yr un modd, mae Dŵr Cymru yn bwriadu ehangu'r model a fabwysiadwyd mewn prosiect peilot ar draws cronfeydd dŵr eraill yng Nghymru.

> Mae prosiect Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog yn enghraifft dda o sut y mae cyllid ENRaW wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol i sefydlu cwmni buddiant cymunedol cynaliadwy i barhau i ddarparu dulliau rheoli tir a brofwyd dros gyfnod y prosiect. Sefydlwyd Grŵp Dŵr y Bannau i hwyluso newidiadau ar raddfa'r dirwedd yn y defnydd o dir amaethyddol, er mwyn diogelu purdeb dŵr. Mae'r grŵp yn cynnwys ffermwyr lleol a gall nawr dderbyn taliad gan Dŵr Cymru i reoli prosiectau peilot ac mae'n profi gwahanol ddulliau y gellir eu rhannu wedyn â thirfeddianwyr eraill a rhannau eraill o Gymru. Mae'r dull Mega-ddalgylch sy'n cael ei dreialu yma hefyd yn cael ei gyflwyno i ardaloedd eraill, gyda Dŵr Cymru yn ei gyllido drwy ei gronfeydd craidd.

8.28 Roedd nifer fach o brosiectau Cyfnod 1 yn llai hyderus ynghylch cynaliadwyedd hirdymor eu partneriaeth a'u dull gweithredu. Roedd un prosiect o'r fath a oedd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol ledled Cymru yn pryderu y byddai tynnu cyllid yn ôl yn arwain at lai o ymrwymiad gan y sefydliadau hyn ac y byddai'r prosiect yn annhebygol o barhau ar y raddfa y

mae wedi bod yn gweithredu arni hyd yn hyn. Pwysleisiodd prosiect arall fod ei waith yn annhebygol o barhau heb gyllid grant i dalu costau staff cyflogedig. Roedd eraill, fel y nodir isod, yn rhagweld dull partneriaeth â mwy o ffocws iddo yn y dyfodol:

> Mae'r prosiect a ariannwyd yng Nghyfnod 1 a Chyfnod 3, Cysylltu Seilwaith Gwyrdd, yn gweithredu ar sail ranbarthol ar draws de-orllewin Cymru ac mae'n cynnwys nifer o sefydliadau partner. Mae cyfleoedd cyllido yn y dyfodol yn cael eu harchwilio ond mae'n debygol y bydd unrhyw brosiect olynol yn canolbwyntio ar weithgareddau neu feysydd penodol, a allai hefyd fod â goblygiadau i aelodaeth a chyfansoddiad y bartneriaeth yn y dyfodol.

8.29 Mae llai o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i fesur a fydd gweithgareddau grwpiau cymunedol a ariennir drwy'r cynlluniau grant lleol sy'n cael eu rhedeg gan bartneriaid fel Cadwyn Clwyd a Menter Môn er enghraifft, yn cael eu cynnal o ystyried nad yw'r gwaith cyflawni yn cael ei wneud gan y tîm craidd. Bydd tystiolaeth o werthusiadau ar lefel prosiectau yn ddefnyddiol i daflu goleuni ar y rhain gan fod yr adborth anecdotaidd yn awgrymu y bydd partneriaid fel cynghorau cymuned a sefydliadau'r trydydd sector yn cynnal gweithgareddau ac unrhyw welliannau a wneir.

8.30 Awgryma adborth o brosiectau a ariannwyd yn ystod Cyfnodau 2 a 3 ei bod yn rhy gynnar iddynt fesur a fydd gweithgareddau prosiect yn cael eu cynnal ai peidio ar ôl i gyllid ENRaW ddod i ben. Awgryma'r adborth fod rhai o'r prosiectau hyn eisoes yn paratoi ar gyfer cyfleoedd cyllido pellach ond neges allweddol gan y garfan hon yw y byddai eu cynaliadwyedd hirdymor yn gryfach pe bai eu hamserlen gyflawni a ariennir gan ENRaW wedi bod yn hwy. Nodwyd hefyd adeg y gwaith maes bod llawer o ansicrwydd ynghylch a fyddai cynllun i olynu ENRaW yn cael ei gyflwyno y gallai prosiectau fanteisio arno a/neu a allent chwarae rhan yn y gwaith o ddarparu’r Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yn y dyfodol.

# 9. Casgliadau ac argymhellion

9.1 Mae ENRaW wedi bod yn gyfle gwych i gefnogi prosiectau traws-bolisi sy'n cwmpasu'r amgylchedd, cymunedau, yr economi, ac iechyd a llesiant ledled Cymru yn gyflym ac ar raddfa fawr. Mae'n ddull cyllido ar gyfer Cymru sydd â chysylltiad agos â pholisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru. Cafodd ei hyrwyddo'n effeithiol, gydag egni ag agwedd bositif ar ran staff Llywodraeth Cymru. Mae cynllun ENRaW wedi bod yn boblogaidd a bu galw mawr am y cyllid. Yn amlwg, mae cael cynllun cyllido mawr sy'n gallu cefnogi 100 y cant o gostau prosiectau dros gyfnod tymor canolig o dair blynedd yn gynnig deniadol ac wedi bod yn ddefnyddiol iawn i bartneriaethau. Mae nifer y ceisiadau wedi bod yn llawer mwy na'r cyllid sydd ar gael ac o'r herwydd, mae'r galw hwn wedi effeithio ar yr adnoddau staffio sydd eu hangen i brosesu ceisiadau.

9.2 Mae ffocws ENRaW ar gydweithio wedi annog a chefnogi gwaith traws-sector sylweddol a fyddai'n annhebygol o fod wedi'i gyflawni fel arall. Mae tystiolaeth dda bod ENRaW wedi cefnogi'r broses o sefydlu a datblygu partneriaethau newydd yn ogystal â galluogi eraill i ehangu a chryfhau, yn ddaearyddol ac o ran yr ystod o bartneriaid dan sylw.

9.3 Awgryma'r gwaith maes a gyflawnwyd hyd yma fod ENRaW yn cefnogi prosiectau o ansawdd da sy'n cyflawni gwaith amgylcheddol a chymunedol gwerth chweil. Canfu'r gwerthusiad ddigonedd o dystiolaeth fod prosiectau a ariannwyd yn cynnal gweithgareddau sy'n cyd-fynd â Meysydd Ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig ac Amcanion Trawsbynciol, yn ogystal â themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru, ond ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael hyd yma i ddangos sut y maent yn mynd ati i brif ffrydio rhywedd yn eu gwaith. Canfu'r gwerthusiad hefyd enghreifftiau da iawn, sy'n aml yn greadigol, o brosiectau a ariannwyd yn defnyddio ac yn hyrwyddo'r Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol a byddai'n fuddiol rhannu'r dulliau hyn rhwng prosiectau.

9.4 Awgryma profiad ymgeiswyr Cyfnod 1 a'r prosiectau a ariannwyd fod trefniadau ymgeisio, asesu a gweinyddu'r grant yn rhesymol a phriodol, ac un o gryfderau amlwg y cyfnod cyllido hwn oedd y ffaith y gallai'r ymgeiswyr

ddelio'n uniongyrchol ag un o swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r adborth yn awgrymu bod prosesau adrodd a hawlio Cyfnod 1 ENRaW yn gymesur ac yn dderbyniol i'r prosiectau a ariannwyd.

9.5 Mae trosglwyddo'r cynllun i fecanweithiau'r Rhaglen Datblygu Gwledig a'r angen i fodloni gofynion cyllido'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi bod yn aflonyddgar ac yn niweidiol i'r broses o weinyddu'r cynllun yn ddidrafferth. Mae'r adborth a gasglwyd am ymgeisio am grant a threfniadau gweinyddol Cyfnodau 2 a 3 yn awgrymu i'r garfan hon gael profiad heriol iawn. Mae hyn yn achosi straen mawr i brosiectau a ariannwyd yng Nghyfnodau 2 a 3 ac mae'n cael effaith negyddol ar eu gallu i gyflawni canlyniadau llwyddiannus, yn bennaf oherwydd iddynt golli ewyllys da y staff, y gymuned a phartneriaid tuag at eu prosiectau.

9.6 Er ei fod wedi'i ddylunio'n briodol, mae'r broses o gyflwyno a gweithredu ENRaW dros y ddau Gyfnod cyllido olaf wedi bod yn ddiffygiol. Mae barn un ymatebydd a holwyd yn crynhoi’r sefyllfa’n dda:

'roedd y cysyniad yn dda ond yn ymarferol bu'n hunllef i ymgeisio amdano a'i roi ar waith'.

9.7 Mae gwersi amlwg i'w dysgu o weithredu cyfnodau cyllido y Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae’r adborth gan ddeiliaid y grantiau yn awgrymu’n gryf bod angen symleiddio a byrhau’r amserlenni a’r prosesau ar gyfer cymeradwyo gwariant cynlluniau. Dylid rhoi mwy o hyblygrwydd i brosiectau a ariennir er mwyn ymdopi â newidiadau yn eu cyllidebau. Dylid adolygu'r angen i gael cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer unrhyw wariant dros £500. Nid yw'r system taliadau a hawliadau bresennol yn addas at y diben ac nid yw'n addas ar gyfer gweinyddu prosiectau mawr, cymhleth fel ENRaW. Mae'n achosi problemau ac oedi sylweddol ac yn cael effaith andwyol ar sefydliadau arweiniol a sefydliadau partner. Mae’n arwyddocaol na fyddai llawer o’r sefydliadau a gyfrannodd at y gwerthusiad hwn, a ariannwyd drwy’r ddau Gyfnod cyllido olaf, yn dymuno bod yn rhan o gynllun cyllido tebyg yn y dyfodol oni bai bod newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud iddo.

9.8 Mae’r problemau mawr sy’n gysylltiedig â Chyfnodau 2 a 3 yn golygu bod y prosiectau hyn yn annhebygol o gyflawni eu holl nodau ac amcanion, yn bennaf oherwydd eu cyfnod cyflawni byrrach ond hefyd oherwydd bod materion yn ymwneud â gweinyddu grantiau, megis cael cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer unrhyw wariant dros £500, yn rhwystro cynnydd a chyflymder y ddarpariaeth.

9.9 O ran prosiectau Cyfnod 1 sydd wedi'u cwblhau, mae tystiolaeth dda eu bod wedi cyflawni'r hyn yr oeddent yn bwriadu ei gyflawni. Mae prosiectau a gwblhawyd wedi cyflawni canlyniadau sy'n berthnasol i wahanol bolisïau a sectorau. Canfu'r gwerthusiad fod prosiectau ENRaW a gwblhawyd wedi cynhyrchu ystod eang o fanteision cymunedol a chymdeithasol; iechyd a llesiant; ac amgylcheddol. Hyd yma, ychydig o'r prosiectau a gwblhawyd sy’n gallu dangos tystiolaeth eu bod wedi cynhyrchu canlyniadau economaidd cadarnhaol, heblaw defnyddio contractwyr lleol i wneud gwaith, er bod rhywfaint o dystiolaeth dda bod prosiectau wedi sicrhau rhagor o ffynonellau incwm. Y prosiectau a oedd yn rhoi mwy o bwyslais ar ddenu mwy o ymwelwyr oedd fwyaf tebygol o nodi manteision economaidd posibl i'w cymunedau.

9.10 Mae Llywodraeth Cymru yn cofnodi'r cyflawniadau yn erbyn set briodol o ddangosyddion y cynllun sy'n ddefnyddiol i ddangos yr allbynnau sy'n cael eu cyflawni ar lefel y cynllun. Awgryma dadansoddiad o'r data hyn fod y cynllun yn perfformio'n dda yn erbyn ei dargedau gwreiddiol a hyd yma, mae prosiectau wedi rhagori ar y targedau a osodwyd ganddynt ar eu cyfer nhw eu hunain. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith i gasglu ac adrodd ar fetrigau mwy cyson yn erbyn dangosyddion targed er mwyn gallu adrodd yn fwy cywir ar gyflawniadau. Er enghraifft, byddem yn awgrymu bod y cynllun yn adrodd ar faint (e.e., hectarau neu fetrau sgwâr) unrhyw ardaloedd a gaiff eu gwella yn y dyfodol yn hytrach na nifer y lleoedd a gaiff eu gwella yn unig.

9.11 Yn olaf, mae tystiolaeth dda bod prosiectau a phartneriaethau a ariannwyd gan ENRaW yn parhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben neu'n debygol o barhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben yn achos prosiectau parhaus. Mae prosiectau a phartneriaethau'n cael eu cynnal mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys

drwy ffynonellau cyllid grant eraill, cronfeydd sydd gan y sefydliadau eisoes neu drwy berchnogaeth gymunedol a gwirfoddol.

**Argymhellion**

9.12 Rydym yn ymwybodol iawn bod gan brosiectau a ariennir gan ENRaW lai na blwyddyn ar ôl i gyflawni eu hamcanion ac y bydd llawer yn dirwyn i ben ac yn cau wrth agosáu at eu dyddiad dod i ben. Cynhelir gwerthusiad terfynol o ENRaW rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2023 a bydd yn gyfle i gasglu tystiolaeth bellach ar y canlyniadau a gyflawnwyd a'r gwahaniaeth a wnaed gan y cynllun. Yn y cam interim hwn felly rydym yn cynnig nifer bach o argymhellion pragmataidd y gellid eu rhoi ar waith dros weddill cyfnod ENRaW. Rydym hefyd yn cynnig rhai argymhellion mwy strategol i Lywodraeth Cymru eu hystyried er mwyn llywio'r gwaith o ddylunio a darparu unrhyw ddull cyllido yn y dyfodol a allai ddisodli ENRaW ar ôl 2023.

9.13 Ar gyfer y cyfnod cyflawni sy'n weddill ar gyfer ENRaW, rydym yn argymell y canlynol:

**Argymhelliad 1:** dylai ENRaW gefnogi prosiectau a ariennir i fabwysiadu metrigau cyson wrth adrodd ar yr allbynnau a gyflawnwyd yn erbyn dangosyddion craidd y cynllun megis gwella mannau gwyrdd a phlannu gwrychoedd

**Argymhelliad 2**: dylai Llywodraeth Cymru hwyluso rhannu profiadau rhwng prosiectau a ariennir ac yn arbennig y broses o rannu arferion da mewn perthynas â'r themâu trawsbynciol, gan gynnwys y Gymraeg, a Meysydd Ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig er mwyn annog eraill i fabwysiadu arferion tebyg a mynd i'r afael â meysydd gwannach megis prif ffrydio rhywedd

**Argymhelliad 3**: dylai Llywodraeth Cymru neilltuo swyddog cyllido penodedig o fewn Taliadau Gwledig Cymru i brosiectau a ariennir yn barhaus gan y Rhaglen Datblygu Gwledig er mwyn helpu i ddatrys materion yn ymwneud â hawliadau ariannol a thaliadau grant.

9.14 Ar ôl i ENRaW ddod i ben, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn :

**Argymhelliad 4**: cydnabod cryfderau cynllun cyllid grant ENRaW ac adeiladu arnynt, yn benodol:


- y broses ymgynghori a mewnbwn rhanddeiliaid i'r broses gyd-ddylunio
- ei ddull hirdymor o ddarparu cyllid dros gyfnod o dair blynedd
- ei gynnig o gyllid refeniw a chyllid cyfalaf
- ei fodel cyllido sy'n seiliedig ar adennill costau llawn
- ei ffocws ar bartneriaeth gynaliadwy a chydweithio ar draws meysydd polisi lluosog
- ei ffocws ar gyflawni ar raddfa ranbarthol a thirwedd.

**Argymhelliad 5**; myfyrio ar yr adborth gan ymgeiswyr a phrosiectau a ariannwyd am y prosesau ymgeisio, asesu a hawlio grant er mwyn bod yn sail i ddulliau gweithredu yn y dyfodol; o ystyried ei fod yn awgrymu'n gryf bod prosesau Cyfnod 1 wedi bod yn fwy addas ar gyfer cynllun cyllido fel ENRaW. Yn benodol, byddai’r gwerthuswyr yn argymell:

- cadw proses ymgeisio dau gam sy'n cynnwys cam Datgan Diddordeb a cham ymgeisio llawn ond bod gofynion y cam Datgan Diddordeb yn cael eu symleiddio a rhoi mwy o gyfle i ymgeiswyr amlinellu diben eu prosiect
- cytuno ar amserlenni ar gyfer asesu a chymeradwyo ceisiadau ymlaen llaw a chadw atynt
- penodi swyddog cyllido penodedig ar gyfer pob prosiect a ariennir i fonitro cynnydd a datrys unrhyw faterion yn ymwneud â hawliadau
- modelu trefniadau ar gyfer cyflwyno a chymeradwyo hawliadau ar brosesau Cyfnod 1 sy'n brosesau mwy addas, ac sy'n darparu mwy o hyblygrwydd, i brosiectau traws-bolisi cymhleth.

# Atodiad A: Model rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid a fframwaith gwerthuso

Damcaniaeth Newid Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW)



## Atodiad B: Canllawiau trafod

# Canllaw pwnc 1: Cyfweliadau cwmpasu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru

**Cefndir**

1. Ym mha ffordd yr ydych wedi bod yn ymwneud â rhaglen ENRaW? Beth yw eich rôl?

**Yr hyn yr oedd ENRaW yn anelu at ei gyflawni**

1. Pa faterion y mae ENRaW yn ceisio mynd i'r afael â nhw? Pam mae angen y cynllun a pha broblem y mae'r rhaglen yn ceisio mynd i'r afael â hi?

2. Beth yn eich barn chi yw nodau ac amcanion ENRaW?
    a. Beth mae'n ceisio ei gyflawni? Pa newid y mae'n anelu at ei gyflawni?
    b. Sut, os o gwbl, y mae ei amcanion wedi newid dros amser? Beth yw'r rheswm dros hyn?
    c. I ba raddau y mae blaenoriaethau ENRaW wedi bod yn briodol?

3. Beth fyddai 'llwyddiant' mewn perthynas ag ENRaW? Pa wahaniaeth ydych chi'n disgwyl i ENRaW ei wneud?
    a. Pa ganlyniadau fyddech chi'n disgwyl eu gweld yn cael eu cyflawni erbyn mis Mawrth 2023?
    b. Pa ganlyniadau fyddech chi'n disgwyl eu gweld ar ôl mis Mawrth 2023?

